# Cynllun Ffioedd a Mynediad 2020/21

CRYNODEB GWEITHREDOL....3
PARTNERIAETH Â MYFYRWYR....4
HYD Y CYNLLUN FFIOEDD A MYNEDIAD....6
LEFELAU FFIOEDD A CHEFNOGAETH ARIANNOL: DARPARU GWYBODAETH I FYFYRWYR A DARPAR FYFYRWYR....7
SAIL RESYMEGOL A DULL GWEITHREDU STRATEGOL....9
Cynllun Strategol Prifysgol Bangor....9
Cynllun Strategol Undeb Bangor....11
Cynllun Cydraddoldeb Strategol....13
Dull Strategol dan Arweiniad Myfyrwyr o ymdrin â Phrofiad Myfyrwyr....14
Strategaeth Addysgu a Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr 2017-2020....15
Strategaeth Iechyd Meddwl Dan Arweiniad Myfyrwyr....16
Sicrhau Ansawdd Gwasanaethau Cefnogi Myfyrwyr....17
Strategaeth ar gyfer Partneriaeth Ymestyn yn Ehangach Gogledd a Chanolbarth Cymru....18
Ymateb i Fesurau Cenedlaethol HEFCW....20
GRWPIAU Y NODWYD NAD OES GANDDYNT GYNRYCHIOLAETH DDIGONOL MEWN ADDYSG UWCH....20
CYFLE CYFARTAL - AMCANION, GWEITHGAREDDAU A THARGEDAU....24
Amcan 1: Ehangu Mynediad i Addysg Uwch....24
Amcan 2: Ehangu Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg....31
Amcan 3: Rhoi Cefnogaeth Academaidd o Ansawdd Uchel i Gynyddu Cyfraddau Dal Gafael a Chwblhau ymhlith Grwpiau Sydd Heb Gynrychiolaeth Ddigonol....33
Amcan 4: Hyrwyddo Amgylchedd ac Addysg Gynhwysol....38
HYRWYDDO ADDYSG UWCH - AMCANION, GWEITHGAREDDAU A THARGEDAU....43
Amcan 5: Sicrhau Profiad Rhagorol a Chyson i Fyfyrwyr....43
Amcan 6: Cyfrannu at Ymwneud â'r Gymuned a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol....46
Amcan 7: Cryfhau Cyflogadwyedd Graddedigion....48
MONITRO A GWERTHUSO CYNLLUNIAU FFIOEDD A MYNEDIAD....52
ATODIAD: ADOLYGIAD STRATEGOL O GYNLLUNIAU BLAENOROL....54
1. Ehangu Mynediad i Addysg Uwch....54
2. Ehangu Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg....57
3. Rhoi Cefnogaeth Academaidd o Ansawdd Uchel i Gynyddu Cyfraddau Dal Gafael a Chwblhau ymhlith Grwpiau Sydd Heb Gynrychiolaeth Ddigonol....58
4. Darparu Cefnogaeth Lles o Ansawdd Uchel i Wella Profiad Grwpiau Sydd Heb Gynrychiolaeth Ddigonol....61

5. Hybu Amgylchedd Cynhwysol....63
6. Datblygu a Chyflwyno Cwricwlwm Cynhwysol....64
7. Sicrhau Profiad Rhagorol a Chyson i Fyfyrwyr....65
8. Cyfrannu at Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol....67
9. Hyrwyddo Ymwneud Effeithiol â'r Gymuned....67
10. Cryfhau Cyflogadwyedd Graddedigion....68

## Crynodeb Gweithredol

Datblygwyd cynllun ffioedd a mynediad Prifysgol Bangor gyda chydweithwyr o Undeb y Myfyrwyr, uwch reolwyr, a rheolwyr gwasanaethau allweddol sydd â chyfrifoldeb dros y themâu hynny sy'n cael eu datblygu fel rhan o'r ymrwymiadau a nodir yn y cynllun.

Yn y cynllun cyflwynir gweithgareddau sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau strategol y Brifysgol sy'n gyson â chanllawiau ar lunio cynllun ffioedd a mynediad a gafwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW) a Llywodraeth Cymru, a pharheir â themâu a ddatblygwyd ers paratoi cynllun ffioedd cyntaf y Brifysgol yn 2011.

Mae paratoi'r cynllun yn golygu asesu cynnydd yn erbyn targedau mewn cynlluniau blaenorol a metrigau perfformiad perthnasol eraill fel yr amlinellir yn yr adran 'Adolygiad Strategol'. Mae gweithgareddau'r Brifysgol er mwyn ennyn diddordeb myfyrwyr yn golygu bod blaenoriaethau myfyrwyr yn cael eu nodi yn defnyddio amrywiol brosesau trwy gydol y flwyddyn academaidd; caiff blaenoriaethau'r myfyrwyr eu hystyried wrth ddatblygu'r cynllun.

Gan bwyso ar flaenoriaethau strategol y Brifysgol ac elfennau llwyddiannus mewn cynlluniau blaenorol, mae'r cynllun ffioedd a mynediad hwn yn dangos ymrwymiad parhaus y Brifysgol i gyfle cyfartal ac i hyrwyddo addysg uwch drwy ddatblygu saith o amcanion:

1. Ehangu Mynediad i Addysg Uwch
2. Ehangu Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg
3. Rhoi Cefnogaeth Academaidd o Ansawdd Uchel i Gynyddu Cyfraddau Dal Gafael a Chwblhau ymhlith Grwpiau Sydd Heb Gynrychiolaeth Ddigonol
4. Hyrwyddo Amgylchedd ac Addysg Gynhwysol
5. Sicrhau Profiad Rhagorol a Chyson i Fyfyrwyr
6. Cyfrannu at Ymwneud â'r Gymuned a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
7. Cryfhau Cyflogadwyedd Graddedigion

Mae cynllun ffioedd a mynediad y Brifysgol wedi cael ei lunio i roi sylw'n benodol i'r grwpiau canlynol sydd heb gynrychiolaeth ddigonol:

- Myfyrwyr sy'n byw yn 2 gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, ac mewn cymdogaethau cyfranogiad isel yn y Deyrnas Unedig.
- Myfyrwyr o gefndiroedd incwm isel neu rai sy'n wynebu caledi ariannol
- Myfyrwyr anabl a rhai sy'n derbyn y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl
- Myfyrwyr gyda chyflyrau iechyd meddwl
- Myfyrwyr sy'n gadael gofal a myfyrwyr sydd â dyletswyddau gofalu
- Myfyrwyr sy'n dymuno dilyn addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg, a
- Myfyrwyr benywaidd mewn gwyddoniaeth a pheirianneg.

Mae pob un o'r amcanion yn y cynllun yn rhoi sylw i'r categorïau a amlinellwyd yng nghanllawiau HEFCW a buddsoddir tua £7.0M i gyflawni'r amcanion hyn. Mae'r Brifysgol

wedi pennu ystod o dargedau sy'n gysylltiedig â'r amcanion hyn a chânt eu defnyddio i fonitro'r cynllun.

## Partneriaeth â Myfyrwyr

Mae Prifysgol Bangor wedi croesawu egwyddorion datganiad Wise Cymru ynglŷn â gweithio mewn partneriaeth mewn addysg uwch (www.wisewales.org.uk); mae'r gwaith a wneir ym Mhrifysgol Bangor i ennyn diddordeb myfyrwyr yn sylweddol ac mae'r ymdrech honno wedi dod yn rhan o wead prosesau cynllunio a datblygu'r Brifysgol. Mae gennym ddull sefydledig o weithredu mewn partneriaeth gyda'n myfyrwyr a gydag Undeb y Myfyrwyr sy'n parhau *"i ysgogi'r agenda fod myfyrwyr yn bartneriaid"* (Strategaeth Gorfforaethol HEFCW 2017-2020). Mae partneriaeth yn ddull gweithredu sy'n datblygu'n barhaus ac mae'n seiliedig ar barch rhwng y naill ochr a'r llall, cydweithio ac ymdeimlad o undod. Rydym yn mynd ati'n weithredol i annog myfyrwyr i gyfrannu at y gwaith o gynllunio a darparu addysgu, a dylanwadu ar newid strategol ar draws Prifysgol Bangor. Cydnabuwyd hyn ym Mehefin 2017 wrth i'r Brifysgol dderbyn safon aur yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a gyfeiriai at dystiolaeth o'r *"lefelau gorau posib o gyfranogiad myfyrwyr ac ymrwymiad i addysgu a sicrhawyd drwy arferion addysgu ac asesu rhagorol"*.

Yn unol â'r egwyddor yn natganiad Wise Cymru ar weithio mewn partneriaeth ym maes addysg uwch, "*rhaid i bartneriaeth fodoli rhwng endidau annibynnol, megis y brifysgol a chorff y myfyrwyr ar y cyd*," mae cynrychiolaeth ddemocrataidd trwy undeb myfyrwyr annibynnol yn greiddiol i'n partneriaeth. Mae'n sicrhau mai'r myfyrwyr, fel corff cyfun, sy'n penderfynu beth sy'n bwysig, pam y dylid gwneud newidiadau a sut, ac yn sicrhau ein bod yn cydweithio i wireddu'r newidiadau hyn. Mae gweithio gydag Undeb y Myfyrwyr yn hollbwysig i ddatblygu dull cynhwysol o wneud penderfyniadau. Mae gan Undeb y Myfyrwyr gyswllt penodol trwy'r Dirprwy Is-ganghellor (Myfyrwyr) sy'n cadeirio Grŵp Tasg Undeb y Myfyrwyr a dyma eu pwynt cyswllt cyntaf i godi unrhyw faterion, a byddant hefyd yn cyflwyno Adroddiad Profiad Myfyrwyr Blynyddol, sy'n cynnwys cyfraniadau gan y tîm o swyddogion a chan y corff myfyrwyr, yn amlinellu argymhellion ar gyfer y ffyrdd y gallant weithio gyda'r Brifysgol. Mae hyn yn sicrhau bod perthynas waith agos ac effeithiol yn cael ei chynnal. Mae gan Swyddogion Sabothol Undeb y Myfyrwyr gynrychiolaeth ar gorff llywodraethu'r Brifysgol (Y Cyngor), maent yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Is-ganghellor, y Dirprwy Is-gangellorion ac uwch staff eraill, ac fe'u gwahoddir i fynychu holl Grwpiau Tasg a phwyllgorau'r Cyngor ac mae hyn yn helpu i sicrhau ein bod yn *"cynnwys llais y myfyrwyr yn benodol mewn prosesau a gofynion rheoleiddio"* (Strategaeth Gorfforaethol HEFCW 2017-2020).

Mae Undeb y Myfyrwyr yn cydnabod bod ein dull partneriaeth o ymdrin â Llais y Myfyrwyr yn arwain y sector ac maent wedi ymrwymo i barhau i weithio mewn partneriaeth â'r Brifysgol a'r Uned Ennyn Diddordeb Myfyrwyr i sicrhau bod cynrychiolaeth a llais myfyrwyr ar flaen yr agenda. Bydd Undeb y Myfyrwyr yn sicrhau bod Cynrychiolwyr Cwrs etholedig yn cael cefnogaeth dda, yn ogystal â'r adnoddau y mae arnynt eu hangen i gyflawni eu swyddogaeth, ac yn sicrhau eu bod yn weledol iawn o gwmpas y campws. Bydd Undeb y Myfyrwyr hefyd yn parhau i sicrhau bod adnoddau ar gael ar gyfer syniadau a chynigion myfyrwyr, fel bod cynlluniau gwaith newydd ac arloesol yn cael eu datblygu'n gyson. Yn yr un modd, bydd y Brifysgol yn sicrhau bod gan bob ysgol aelod penodol o staff sydd a fydd yn

gweithio gyda Chynrychiolwyr Cwrs yn yr ysgol ac yn eu cefnogi, ochr yn ochr ag Undeb y Myfyrwyr. Mae hyn yn ymateb uniongyrchol i argymhellion yr Adroddiad Profiad Myfyrwyr Blynyddol i sicrhau bod myfyrwyr yn ymwybodol o'r gweithdrefnau perthnasol, er enghraifft, wrth newid tiwtoriaid personol, ychwanegu eitemau at agendâu pwyllgorau cyswllt, a sicrhau bod y cwricwlwm yn gynrychioliadol ac yn hygyrch. Mae'r enghreifftiau hyn wedi helpu i gyfrannu at Amcanion 3, 4 a 5 (a'r amcanion yn fersiynau blaenorol y Cynllun).

Mae Prifysgol Bangor wedi dilyn arweiniad HEFCW o ran arferion da mewn perthynas â chyllido undebau myfyrwyr democrataidd ac effeithiol a rhoi cynrychiolaeth i fyfyrwyr. I gefnogi'r egwyddor sy'n cael ei nodi yn natganiad Wise Cymru ar weithio mewn partneriaeth ym maes addysg uwch, sef *"llunio siarter flynyddol sy'n amlinellu'r disgwyliadau ar y brifysgol a'r myfyrwyr o ran swyddogaethau a chyfrifoldebau",* mae ein Cytundeb Perthynas ag Undeb y Myfyrwyr yn cael ei adolygu'n flynyddol, ynghyd â'r Siarter Myfyrwyr, gan Grŵp Tasg Undeb y Myfyrwyr.

Mae Undeb y Myfyrwyr ym Mangor yn parhau i gael ei gynrychioli gan gynrychiolwyr etholedig a swyddogion yn y trafodaethau ar ddatblygu'r cynllun ffioedd a mynediad. Mae Undeb y Myfyrwyr yn parhau i gymryd rhan lawn yn y trafodaethau ar sut y dylid gwario incwm ffioedd ac mae wedi cyfrannu syniadau ac awgrymiadau, mewn pwyllgorau, yn ystod trafodaethau â swyddogion y Brifysgol a thrwy gyfrwng yr Adroddiad Profiad Myfyrwyr Blynyddol, sydd wedi cael eu hymgorffori yn rhan o'r cynllun hwn ac mewn cynlluniau blaenorol. Mae Undeb y Myfyrwyr wedi rhoi cyngor ynglŷn â disgwyliadau myfyrwyr gan sicrhau bod trafodaethau ar lefelau ffioedd y dyfodol yn parhau i ganolbwyntio ar fyfyrwyr. Mae'r mesurau yn y cynllun ffioedd a mynediad yn gyson â'r themâu allweddol a nodwyd trwy'r ymwneud hwnnw ac maent hefyd yn gyson â chanlyniadau arolygon myfyrwyr, gan gynnwys yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr, arolygon myfyrwyr blwyddyn 1 a 2, arolwg profiad ôl-raddedigion hyfforddedig (PTES) ac arolwg profiad ôl-raddedigion ymchwil (PRES). Mae'r cynllun hefyd yn ymateb i faterion a godwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Undeb y Myfyrwyr, lle mae uwch swyddogion, gan gynnwys yr Is-ganghellor a'r Dirprwy Is-gangellorion, yn bresennol, yn ogystal ag yn yr Adroddiadau Profiad Myfyrwyr sy'n cael eu cynhyrchu bob blwyddyn (yr arferid eu galw yn Ddatganiadau Blynyddol Myfyrwyr). Mae Undeb y Myfyrwyr wedi cadarnhau bod y cynllun ffioedd a mynediad yn adlewyrchu'r trafodaethau y maent wedi'u cael gyda'r Brifysgol, a'i fod yn helpu i roi sylw i'r argymhellion y maent wedi'u gwneud, gan gynnwys, er enghraifft, rhoi dull sefydliadol ar waith i ddatblygu adborth myfyrwyr, sicrhau bod cynrychiolaeth gan fyfyrwyr ar bob pwyllgor ac ym mhob adran (Amcanion 3, 4 a 5), a sicrhau bod arweinwyr myfyrwyr wedi eu harfogi i gyflawni eu rolau fel cynrychiolwyr, tra bônt yn y brifysgol ac wedi hynny (Amcan7).

Mae Uned Ennyn Diddordeb Myfyrwyr y Brifysgol yn gweithredu ar ein hymrwymiad i weithio mewn partneriaeth ar lefel sefydliadol ac ar lefel pwnc. Bellach mae pob arolwg myfyrwyr yn cael eu gweinyddu gan yr Uned hon, sydd hefyd wedi datblygu ymgyrch 'Ar y Cyd...' y Brifysgol ac yn parhau i'w goruchwylio. Hon yw'r ymgyrch sy'n rhoi gwybod i fyfyrwyr sut y gweithredwyd ar eu hadborth. Datblygwyd yr ymgyrch hon mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr, ac mae buddsoddi ynddi wedi parhau i godi proffil llais myfyrwyr ar draws y Brifysgol. Mae'r Uned yn parhau i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer cynnwys myfyrwyr ymhellach ym mhrosesau'r Brifysgol, gan gynnwys cyfleoedd i werthuso

a gosod cyfeiriad ar gyfer unrhyw arferion newydd. Mae'r Uned hefyd yn cefnogi Cyfarwyddwyr Ennyn Diddordeb Myfyrwyr ym mhob Ysgol academaidd. Staff academaidd yw'r rhain gyda chyfrifoldeb strategol dros ennyn diddordeb myfyrwyr, meithrin partneriaeth a phrofiad cyffredinol myfyrwyr yn eu Hysgol. Mae gan Gyfarwyddwyr Ennyn Diddordeb Myfyrwyr gyfrifoldeb dros y canlynol: sicrhau bod y system cynrychiolwyr cwrs yn cael ei hyrwyddo'n dda ac yn digwydd yn unol â disgwyliadau Undeb y Myfyrwyr; bod myfyrwyr yn ymwybodol sut y gweithredir ar eu hadborth (trwy ymwneud eu hysgol â'r ymgyrch Ar y Cyd...); a bod yr Ysgol yn cymryd camau pendant i sicrhau bod gan fyfyrwyr ran mewn penderfyniadau ynghylch eu haddysg eu hunain. Ar ben hynny, rydym yn parhau i ddatblygu ein harferion wrth ennyn diddordeb myfyrwyr ar lefel ôl-radd, gan fuddsoddi mewn cyfleoedd pellach i fyfyrwyr ôl-radd hyfforddedig ac ymchwil weithio mewn partneriaeth â staff academaidd i wella eu cwricwlwm a phrofiad myfyrwyr.

Mae'r Brifysgol wedi cydweithredu ag Undeb y Myfyrwyr ar Strategaeth Addysgu a Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr, a nodwyd i gychwyn fel argymhelliad trwy'r Adroddiad Profiad Myfyrwyr Blynyddol: gweithio gyda myfyrwyr i werthuso ac adolygu'r cwricwlwm, sy'n cyfrannu'n sylweddol at Amcanion 4 a 5 o'r Cynllun hwn (a'r fersiynau blaenorol ohono). Mae'r Strategaeth wedi bod yn weithredol ers blwyddyn academaidd 2017/18, ac mae iddi bedair thema, a nodwyd ar y cyd gan gynrychiolwyr cwrs a staff academaidd: Asesu ac Adborth, Canlyniadau a Dal Gafael ar Fyfyrwyr, Cynllunio'r Cwricwlwm, a Chyfathrebu ac Ennyn Diddordeb Myfyrwyr. Mae'r strategaeth yn cynnwys yr ymrwymiadau canlynol sydd yn cadarnhau ymhellach bwysigrwydd llais y myfyrwyr yng ngweithgareddau addysgu a dysgu'r Brifysgol:

- Sicrhau fod myfyrwyr yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi i gyfrannu'n weithredol ac i wneud penderfyniadau gwybodus am ddatblygu'r cwricwlwm, a chyflwyno Adolygiadau Cwricwlwm Blynyddol i drafod trywydd cyrsiau pob ysgol.
- Cynnwys myfyrwyr yn y prosesau cyfweld wrth benodi pob aelod o staff sy'n wynebu myfyrwyr, gan gynnwys swyddi academaidd. Yn ogystal, cynnwys myfyrwyr yn y broses o benodi Cyfarwyddwr Ennyn Diddordeb Myfyrwyr i ymgorffori gweithio mewn partneriaeth ymhellach.
- Cyflwyno sesiynau 'gweithio mewn partneriaeth' yn rheolaidd i Gynrychiolwyr Cwrs gyda Chyfarwyddwyr Ennyn Diddordeb Myfyrwyr yr Ysgolion i gynyddu'r gefnogaeth a roddir i gynrychiolwyr cwrs.
- Datblygu fframwaith ar gyfer ymgynghori ynglŷn â newidiadau arfaethedig i fodiwlau a gwelliannau eraill ar lefel y Brifysgol.
- Parhau i fuddsoddi yn y system o dalu Myfyrwyr Adolygu, gan gynnal lefelau uchel o hyfforddiant a chymorth ar gyfer eu hymwneud â phaneli ail-ddilysu a dilysu.

Bydd y Brifysgol yn cydweithredu ag Undeb y Myfyrwyr ar Strategaeth Iechyd Meddwl Myfyrwyr i'w gweithredu yn 2019/20. Mae'r strategaeth yn adeiladu ar y dull a ddatblygwyd trwy'r gwaith partneriaeth ac mae'n enghraifft arall o'n hymrwymiad i'r ethos o weithio mewn partneriaeth â myfyrwyr.

## Hyd y Cynllun Ffioedd a Mynediad

Bydd y cynllun ffioedd a mynediad hwn mewn grym am y cyfnod rhwng 1 Awst 2020 a 31 Gorffennaf 2021.

# Lefelau Ffioedd a Chefnogaeth Ariannol: Darparu Gwybodaeth i Fyfyrwyr a Darpar Fyfyrwyr

Bwriad y Brifysgol yw codi'r lefel ffioedd uchaf ar gyfer cyrsiau llawn amser israddedig a TAR (SAC) yn 2020/21, a bennir pan gymeradwyir y cynllun ffioedd a mynediad hwn gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW). £9,000 yw lefel uchaf y ffioedd ar hyn o bryd.

Hyd yn hyn ni chafwyd unrhyw arwydd bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynyddu'r lefel uchaf o ffioedd sy'n cael eu caniatáu ar gyfer cyrsiau llawn amser israddedig a TAR (SAC) y tu hwnt i 2020/21; fodd bynnag, gall y Brifysgol gynyddu'r ffioedd ar gyfer blynyddoedd astudio dilynol pe bai Llywodraeth Cymru yn caniatáu unrhyw gynnydd yn ôl chwyddiant.

Cymerir pob penderfyniad yn ymwneud â ffioedd dysgu mewn ymgynghoriad ag Undeb y Myfyrwyr a bydd y Brifysgol yn rhoi gwybod, drwy'r sianelau cyfathrebu a nodir yn y testun dilynol, i unrhyw fyfyrwyr, neu ddarpar fyfyrwyr, y bydd cynnydd o'r fath yn effeithio arnynt.

Ceir gwybodaeth am lefelau ffioedd, cefnogaeth ariannol a chostau astudio ar wefan y Brifysgol (www.bangor.ac.uk/cyllidmyfyrwyr), mewn deunydd printiedig a thrwy negeseuon e-bost at bob ymgeisydd. Caiff prosbectws y Brifysgol ei argraffu dros 18 mis cyn dechrau'r flwyddyn academaidd berthnasol, ac felly mae prosbectws mynediad 2020/21 yn cyfeirio darpar fyfyrwyr at wefan y Brifysgol i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ffioedd a chefnogaeth ariannol yn 2020/21. Mae'r Brifysgol yn darparu datganiadau eglur ar ei gwefan mewn adran benodol ar ffioedd a chyllid ar gyfer 2020/21 ymlaen, a bydd yn cyhoeddi'r cynllun ffioedd a mynediad hwn cyn gynted ag y caiff ei gymeradwyo gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW).

Bydd yr wybodaeth hon yn cael cyhoeddusrwydd hefyd mewn diwrnodau agored, ffeiriau recriwtio a digwyddiadau eraill. Yn nhymor yr hydref 2019 y cynhyrchir deunydd marchnata'n amlinellu sefyllfa gyllidol myfyrwyr ar gyfer 2020/21, gan gynnwys gwybodaeth am ffioedd, grantiau, benthyciadau, ysgoloriaethau a bwrsariaethau, a darperir copïau i'r holl ddarpar fyfyrwyr ac ymgeiswyr. Mae'r Brifysgol hefyd yn defnyddio ei system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) i gyfathrebu â'i holl ddarpar fyfyrwyr ac ymgeiswyr fel rhan o'i chynlluniau cyfathrebu parhaus, ac mae gwybodaeth am gyllid myfyrwyr yn cael ei hanfon yn rheolaidd drwy negeseuon y system hon.

Mae Prifysgol Bangor yn cydnabod pwysigrwydd rhoi gwybodaeth i fyfyrwyr am gostau eu cyrsiau ymlaen llaw, gan gynnwys lefelau ffioedd dysgu ac unrhyw gostau ychwanegol y gallai myfyriwr ddisgwyl eu cael wrth astudio. O'r herwydd mae costau ychwanegol cyrsiau wedi'u cynnwys yn y wybodaeth a ddarperir am y cwrs ar wefan y Brifysgol. Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i gydymffurfio â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gyfer Addysg Uwch (http://www.gov.uk/government/publications/higher-education-consumer-law-advice-for-providers).

Tynnwyd sylw ers nifer o flynyddoedd at bryderon ynghylch costau 'ychwanegol' yn ymwneud â chyrsiau penodol. Gwnaeth Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr ymchwil penodol

yn 2012 o dan y teitl *Pound in Your Pocket* a lluniwyd dangosyddion a chyfarwyddyd cychwynnol. Yn seiliedig ar adborth gan fyfyrwyr, mae'r Brifysgol yn parhau i weithio gydag Undeb y Myfyrwyr i weithredu ystod o argymhellion i fynd i'r afael â'r pryderon hyn gan gynnwys dileu rhai costau sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol ag astudiaethau academaidd myfyrwyr (e.e. argraffu, rhwymo). Mae'r Brifysgol hefyd wedi ymrwymo i ddarparu gwell gwybodaeth i fyfyrwyr, gan ddarparu gwybodaeth ar-lein am gyrsiau gan gynnwys costau ychwanegol cyrsiau i roi mwy o wybodaeth i ddarpar fyfyrwyr wrth iddynt ymchwilio i wahanol gyrsiau. Mae hyn yn amlygu'r ffaith, gan ddibynnu ar y cwrs sy'n cael ei astudio, y gallai fod costau ychwanegol penodol ar gyfer cwrs y bydd angen i fyfyrwyr eu talu. Gellir rhoi'r costau hyn mewn tri chategori:

i) Costau Gorfodol: costau sy'n gysylltiedig â modiwl craidd neu orfodol penodol y mae'n ofynnol i'r myfyrwyr ei gwblhau i gwblhau'r cymhwyster (e.e. teithiau maes gorfodol, gwisgoedd i fyfyrwyr ar leoliad, gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS))
ii) Costau Angenrheidiol: efallai na fydd pob myfyriwr yn cael y costau hyn, a bydd yn amrywio yn dibynnu ar y cwrs (e.e. aelodaeth o gorff proffesiynol, teithio i leoliadau, meddalwedd arbenigol, cyfarpar diogelu personol).
iii) Costau Dewisol: yn ddibynnol ar y modiwlau neu'r gweithgaredd sy'n cael eu dewis a chânt eu dangos i roi syniad o'r costau dewisol a allai godi er mwyn i fyfyrwyr fedru gwneud dewis mor wybodus â phosibl (e.e. gallai'r costau hyn gynnwys digwyddiadau graddio, teithiau maes dewisol, teithiau yn ystod yr Wythnos Groeso).

Mae gwybodaeth am argaeledd cefnogaeth ariannol i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael ei chyhoeddi drwy'r sianelau a nodwyd yn gynharach, yn ogystal ag mewn digwyddiadau penodol. Mae'r rhain yn cynnwys digwyddiad gwybodaeth wedi'i anelu at fyfyrwyr hŷn ar gyrsiau Mynediad i Addysg Uwch, ac Ysgol Haf yn targedu rhai o gefndiroedd incwm isel a rhai o gymdogaethau cyfranogiad isel. Caiff gwybodaeth am argaeledd cefnogaeth ariannol (yn cynnwys Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol) i rai sydd â diddordeb mewn cyfleoedd Addysg Uwch drwy gyfrwng y Gymraeg ei dosbarthu drwy ein deunyddiau marchnata cyfrwng Cymraeg, digwyddiadau cyfrwng Cymraeg a chynlluniau cyfathrebu.

Nod Prifysgol Bangor yw darparu gwybodaeth a chefnogaeth i fyfyrwyr i sicrhau y byddant yn cael y gorau o'u profiad mewn prifysgol. Yn arbennig, mae'n bwysig nad yw pryderon ariannol diangen yn cael effaith niweidiol ar eu cyfnod yma. Mae'r Uned Cefnogaeth Ariannol yn rhan o'r adran Gwasanaethau Myfyrwyr ac mae yno staff profiadol a all roi cyngor, gwybodaeth ac arweiniad ar bob agwedd ar gyllid myfyrwyr, yn cynnwys: cyllid ar gyfer cyrsiau llawn amser a rhan amser i israddedigion; cyllid i ôl-raddedigion; bwrsariaethau ac ysgoloriaethau; cronfeydd caledi a grantiau argyfwng; cyllidebu. Mae bwrsariaethau ar gael i helpu myfyrwyr â chostau teithiau maes dewisol i sicrhau nad yw fforddiadwyedd yn rhwystr rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau defnyddiol o'r fath.

Yn ein deunydd ar-lein ac yn ein holl ddeunydd marchnata tynnir sylw hefyd at y ffaith fod cefnogaeth ariannol ychwanegol ar gael i rai sy'n gadael gofal ac i fyfyrwyr gyda chyfrifoldebau gofalu. Mae person cyswllt penodedig yn adran Gwasanaethau Myfyrwyr y Brifysgol i fyfyrwyr sy'n gadael gofal a gofalwyr. Gall roi cymorth gyda llenwi ffurflenni cais am gyllid myfyrwyr; mynediad at gefnogaeth ariannol benodol i fyfyrwyr sy'n gadael gofal ac i ofalwyr drwy fwrsariaethau a chronfeydd caledi'r Brifysgol; cyswllt ag asiantaethau allanol

ynghylch bwrsariaethau a grantiau gwladol y gall myfyrwyr fod yn gymwys i'w cael; a chyngor cyffredinol ar faterion ariannol. Caiff yr ymgeiswyr hynny sy'n nodi ar y ffurflen UCAS eu bod yn gadael gofal eu hysbysu am y gefnogaeth benodol hon gan y person cyswllt penodedig yn y Brifysgol sy'n gyfrifol am fyfyrwyr sy'n gadael gofal.

Darperir siop un stop i fyfyrwyr Prifysgol Bangor er mwyn eu helpu i wneud cais am Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl - grant yw hwn i helpu i dalu'r costau ychwanegol y gall myfyrwyr eu hwynebu o ganlyniad i anabledd. Mae'r Brifysgol yn cynorthwyo myfyrwyr a darpar fyfyrwyr i wneud ceisiadau am y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl a gall drefnu iddynt gael asesiad o'u hanghenion drwy Ganolfan ACCESS y Brifysgol. Lle credir bod gan fyfyriwr wahaniaeth dysgu penodol megis dyslecsia neu ddyspracsia, gall myfyrwyr gael asesiad diagnostig llawn i ddarparu'r dystiolaeth sy'n ofynnol i wneud cais am Lwfans i Fyfyrwyr Anabl. Mae Prifysgol Bangor wedi cofrestru gyda Grŵp Sicrhau Ansawdd y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl er mwyn darparu tiwtor arbenigol i fyfyrwyr sy'n derbyn cyllid gan Cyllid Myfyrwyr Lloegr ac o'r herwydd mae'n rhaid i ni ddangos tystiolaeth ein bod yn cydymffurfio â Fframwaith Sicrhau Ansawdd y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl mewn archwiliad blynyddol. Mae Canolfan Access Prifysgol Bangor a'i Chanolfan Estyn Allan yn Aberystwyth yn ganolfan asesu achrededig. Mae myfyrwyr nad ydynt yn gymwys i gael Lwfans i Fyfyrwyr Anabl yn cael darpariaeth gyffelyb gan y Gwasanaethau Anabledd. Efallai y gall myfyrwyr anabl wneud cais hefyd am rai budd-daliadau a bydd Cynghorwr Ariannol Myfyrwyr y Brifysgol yn gallu rhoi cyngor pellach ar hyn.

Mae mwyafrif llethol ein hisraddedigion yn dymuno byw yn neuaddau preswyl y brifysgol yn eu blwyddyn gyntaf. Mae angen iddynt archebu eu lle fisoedd ymlaen llaw cyn cyrraedd Bangor ac ymhell cyn iddynt dderbyn eu cyllid myfyrwyr. I rai myfyrwyr, gall dod o hyd i'r blaendal gofynnol i sicrhau lle mewn neuadd breswyl fod yn anhawster a gall hynny atal darpar fyfyrwyr rhag gwneud cais am lety neu hyd yn oed eu hatal rhag mynd i brifysgol. Rydym yn cydnabod y gall hyn fod yn rhwystr posib ac rydym wedi cyflwyno cynllun lle gall darpar fyfyrwyr na all dalu'r blaendal gofynnol wneud cais i ohirio'r taliad nes iddynt dderbyn eu cyllid myfyrwyr.

## Sail Resymegol a Dull Gweithredu Strategol

Mae gan y Brifysgol nifer o ddogfennau strategol pwysig y mae'r cynllun ffioedd a mynediad hwn wedi ei seilio arnynt.

### Cynllun Strategol Prifysgol Bangor

Mae cynllun strategol cyfredol y Brifysgol (https://www.bangor.ac.uk/cynllun-strategol), a gymeradwywyd gan Gyngor y Brifysgol yn Rhagfyr 2014, yn cynnwys y nodau a'r amcanion canlynol sy'n berthnasol i'r cynllun ffioedd a mynediad hwn:

Blaenoriaeth Strategol 1 - Addysg a Phrofiad Rhagorol i Fyfyrwyr

Amcan 1: Darparu addysg arbennig o ansawdd uchel

- Adolygu'n gyson safonau asesu a rhoi adborth.

- Cadarnhau'r drefn o ystyried *myfyrwyr fel partneriaid* yn eu haddysg.
- Gwella canlyniadau yn ymwneud â myfyrwyr, yn cynnwys cynnydd, dal gafael ar fyfyrwyr, cwblhau a dosbarthiadau gradd.

Amcan 2: Darparu profiad ac amgylchedd dysgu rhagorol, sy'n rhoi'r cyfle gorau posibl i'n myfyrwyr lwyddo

- Parhau i roi pwyslais ar fyfyrwyr fel partneriaid drwy sicrhau bod holl fyfyrwyr y Brifysgol yn cael eu cynrychioli'n effeithiol.
- Gweithio mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr i sefydlu gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr ar draws pob agwedd ar brofiad myfyrwyr.
- Parhau i wella'r ffordd rydym yn cyfathrebu â'n myfyrwyr.
- Parhau i roi cefnogaeth fugeiliol o ansawdd uchel.
- Parhau gyda'n hymrwymiad i ddarparu amgylchedd addysgol teg gan sicrhau y caiff amgylchedd cynhwysol ei gynnal a'i wella.

Amcan 4: Meithrin ymwneud cynyddol ag addysg mewn cymunedau ar draws y rhanbarth

- Parhau i gynyddu gwaith Canolfan Ehangu Mynediad y Brifysgol.
- Parhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o'r rhwystrau i addysg bellach ac uwch a wynebir gan gymunedau yn y rhanbarth.
- Ymwneud â phobl o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn economaidd.
- Parhau i gynnig cefnogaeth ariannol benodol i fyfyrwyr.
- Cydnabod pwysigrwydd dal gafael ar fyfyrwyr a'r sialensiau ychwanegol sy'n deillio o ehangu mynediad i Addysg Uwch.
- Cydweithio â sefydliadau a chymunedau rhanbarthol.

Amcan 5: Hyrwyddo ymwneud â chyflogwyr a gweithgareddau arloesi a mentergarwch, cefnogi entrepreneuriaeth myfyrwyr a chreu mentrau newydd gan ein myfyrwyr

- Sefydlu portffolio helaeth o gysylltiadau cydweithredol rhwng myfyrwyr a sefydliadau yn y sectorau preifat, cyhoeddus a'r drydedd sector.
- Parhau i gefnogi Gwobr Cyflogadwyedd Bangor.
- Cynyddu nifer ac ystod y cyfleoedd i fyfyrwyr ennill profiad trosglwyddadwy.

<u>Blaenoriaeth Strategol 3 - Prifysgol Ryngwladol i'r Rhanbarth</u>

Amcan 1: Sicrhau profiad unigryw Bangor i fyfyrwyr rhyngwladol

- Ymgysylltu â'r myfyrwyr rhyngwladol i sicrhau bod eu barn yn cael ei chlywed.
- Sicrhau profiad o'r un ansawdd i fyfyrwyr rhyngwladol.
- Cefnogi'r myfyrwyr rhyngwladol i ymwneud yn llawn â'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt yn y Brifysgol.
- Cefnogi dulliau arloesol o gyfoethogi profiad myfyrwyr rhyngwladol.

Amcan 3: Hybu a chefnogi ehangu gorwelion daearyddol

- Cynnal niferoedd staff a myfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn cyfnewidiadau rhyngwladol, a chynyddu hynny lle bo modd.
- Hyrwyddo a sefydlu polisi i gefnogi'r nod o gynyddu cyfranogiad rhyngwladol a rhyngddiwylliannol.

Blaenoriaeth Strategol 4 - Yr Iaith a'r Diwylliant Cymraeg ac Ymwneud â’r Cyhoedd

Amcan 1: Parhau i gynyddu ac ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a gwasanaethau Cymraeg

- Hyrwyddo ein darpariaeth cyfrwng Cymraeg ymhellach i ddarpar fyfyrwyr.
- Cynyddu ymwneud myfyrwyr israddedig ac ôl-radd â'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Ymestyn ymhellach yr ystod o fodiwlau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i fyfyrwyr.
- Hyrwyddo a datblygu ymhellach y gefnogaeth a gynigir i fyfyrwyr i gynnal neu wella eu sgiliau Cymraeg ymhellach.
- Hyrwyddo mwy ar wasanaethau dwyieithog y Brifysgol i fyfyrwyr.

Mae Cyngor y Brifysgol yn derbyn adroddiad blynyddol ar gynnydd yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n sail i'r Cynllun Strategol. Mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol hyn hefyd yn cael eu hystyried yn flynyddol gan uwch reolwyr fel rhan o brosesau cynllunio strategol y brifysgol.

Mae alinio Cynllun Strategol newydd y Brifysgol â'r Cynllun Ffioedd a Mynediad yn cael ei ystyried ymhellach wrth iddo gael ei ddatblygu dros y flwyddyn nesaf.

*Rhai o'r ffyrdd y mae'r Strategaeth yn Llywio'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn:*
Amcan 1. Ehangu Mynediad i Addysg Uwch
- yn mapio ar Flaenoriaeth Strategol 1, Nod 4: Meithrin ymwneud cynyddol ag addysg mewn cymunedau ar draws y rhanbarth

Amcan 2. Ehangu Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg
- yn mapio ar Flaenoriaeth Strategol 4, Nod 1: Parhau i gynyddu ac ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a gwasanaethau Cymraeg

Amcan 3. Rhoi Cefnogaeth Academaidd o Ansawdd Uchel i Gynyddu Cyfraddau Dal Gafael a Chwblhau gan Grwpiau Sydd Heb Gynrychiolaeth Ddigonol
- yn mapio ar Flaenoriaeth Strategol 1 - Addysg a Phrofiad Rhagorol i Fyfyrwyr

## Cynllun Strategol Undeb Bangor

Datblygodd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor, Undeb Bangor, gynllun strategol ar gyfer cyfnod 2016-19 (https://cy.undebbangor.com/einstori/cynllun/) a bydd yn datblygu cynllun gweithredol dros dro ar gyfer 2019-20 a fydd yn rhoi sylw i anghenion cyfredol Undeb y Myfyrwyr, anghenion myfyrwyr a'r berthynas gyda'r Brifysgol, wrth weithio tuag at greu cynllun strategol newydd a fydd yn barod i'w lansio ym mis Medi 2020. Mae'r cynllun strategol cyfredol yn cynnwys y nodau a'r amcanion canlynol ar gyfer myfyrwyr sy'n berthnasol i'r cynllun ffioedd a mynediad hwn (ac mae'r cynllun newydd o 2020 ymlaen yn debygol o gwmpasu meysydd blaenoriaeth tebyg): -

Blaenoriaeth Un: Eich Addysg

Defnyddio ein perthynas gref â'r Brifysgol i lawn sefydlu diwylliant lle rydych chi a'ch llais wrth galon eich addysg a'r penderfyniadau sy'n effeithio arnoch.

- Datblygu'r 'Strategaeth Addysgu dan Arweiniad Myfyrwyr' gyntaf erioed.
- Sicrhau cynrychiolaeth lawn i fyfyrwyr ar bob pwyllgor neu fforwm yn y Brifysgol.
- Datblygu, lansio a sefydlu proses 'Asesiad Effaith ar Fyfyrwyr' ar draws pob fframwaith gwneud penderfyniadau yn y Brifysgol.

Gweithio gyda chi i feithrin cyfleoedd i chi gyfarfod â'ch cyfoedion i ddatblygu eich addysg, creu cymunedau a dathlu eich pwnc.

- Hwyluso datblygiad 'Cymdeithasau Academaidd' ar draws pob rhaglen.
- Gweithio ar y cyd i ddatblygu a chodi eich llais fel myfyriwr sy'n siarad Cymraeg a chefnogi datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg.

Blaenoriaeth Dau: Eich Cyfleoedd

Datblygu ein dealltwriaeth, ein gallu a'n gwybodaeth er mwyn i ni allu hwyluso eich ymdrechion i ddatblygu, llywio a meithrin y cyfleoedd rydych yn dymuno eu cael wrth astudio ym Mangor.

- Gweithio gyda chi i ddatblygu a chynyddu cefnogaeth wedi'i deilwra ar gyfer eich gweithgareddau'n ymwneud â rhyddid, diwylliant a ffydd.
- Llywio'r gwaith o ddatblygu 'Strategaeth Cyfleoedd' gydweithredol ar draws y Brifysgol i dynnu ynghyd a chryfhau'r ystod eang o weithgareddau, projectau a chyfleoedd dan arweiniad myfyrwyr a gynigir ar draws y Brifysgol.

Defnyddio ein safle, ein profiad a'n hadnoddau i ddatblygu'r cyfleoedd a'r profiadau a fydd yn eich helpu i ddatblygu eich cyflogadwyedd a sicrhau eich dyfodol ar ôl gadael y Brifysgol.

- Darparu llwyfan ar gyfer arloesedd a gweithgareddau mentergarwch dan arweiniad myfyrwyr a helpu i sicrhau cyfleoedd yn y Brifysgol ac yn y gymuned ehangach.
- Gweithio gyda chi i sefydlu 'Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth' bwrpasol.
- Ehangu ein rhaglen o hyfforddiant dan arweiniad cyfoedion fel bod mwy ohonoch yn gallu llywio'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant a grymuso'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr myfyrwyr.

Blaenoriaeth Tri: Eich Cefnogaeth

Gweithio gyda chi a'r Brifysgol i roi systemau cefnogaeth cyfoedion ar waith, neu eu datblygu ymhellach, er mwyn eich galluogi a'ch cefnogi chi drwy gydol eich amser ym Mangor.

- Datblygu 'Cynllun Mentora Myfyrwyr' ar draws y Brifysgol.
- Datblygu ein gwaith cydweithredol gyda'r Ganolfan Addysg Ryngwladol fel ein bod yn llawn ddeall anghenion a gofynion Myfyrwyr Rhyngwladol.
- Gweithio gyda 'myfyrwyr sy'n byw gartref' i ddatblygu systemau cefnogi, gofod cymdeithasol ac ymdeimlad o gymuned.

Adolygu'r hyn rydym yn ei gynnig i chi ar hyn o bryd mewn perthynas â chyngor academaidd, lles a chefnogaeth ynghylch dycnwch emosiynol ac iechyd meddwl da a rhoi'r systemau cefnogi rydych eu hangen mewn lle.

- Sefydlu projectau ymchwil penodol i ddod i'ch adnabod chi, ein gwahanol gymunedau myfyrwyr, gan deilwra ein cefnogaeth i bob un ohonoch.
- Datblygu 'Gwasanaeth Cyngor Academaidd' a fydd wrth law i roi cyngor diduedd a chyfrinachol, arweiniad ymarferol a chynrychiolaeth i chi.

Blaenoriaeth Pedwar: Eich Cymuned

Cryfhau ein safle a'n dylanwad o fewn y gymuned leol a'r gymuned ehangach i sicrhau bod eich llais a'ch syniadau yn ganolog i'r penderfyniadau sy'n effeithio arnoch a bod yr effaith a gewch trwy gynllun Caru Bangor yn cael ei gydnabod a'i dathlu.

- Ehangu ffocws brand 'Caru Bangor' i gynnwys ystod ehangach o brojectau yn y gymuned dan arweiniad myfyrwyr.
- Sicrhau cynrychiolaeth myfyrwyr ar bob corff gwneud penderfyniadau yn y gymuned leol.
- Gweithio gyda chi i sefydlu 'Projectau Mynediad at Addysg Uwch' penodol sy'n cynnig cyfleoedd i chi weithio gyda'r gymuned leol.
- Sefydlu 'Fforwm Cymuned Myfyrwyr' fel bod eich llais yn cael ei glywed ac y gellir cynhyrchu a gweithredu ar syniadau am well Bangor.
- Datblygu ein gwaith cydweithredol gydag UMCB (Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor) fel bod gennym gynllun a strategaeth glir i achosi twf yr iaith Gymraeg a datblygu cyfleoedd diwylliannol.
- Gweithio gyda chi a'r gymuned leol i sicrhau eich bod yn teimlo'n ddiogel ym Mangor ac yn teimlo eich bod yn gallu herio rhagfarn.

*Rhai o'r ffyrdd y mae'r Strategaeth yn Llywio'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn:*

Amcan 3. Rhoi Cefnogaeth Academaidd o Ansawdd Uchel i Gynyddu Cyfraddau Dal Gafael a Chwblhau gan Grwpiau Sydd Heb Gynrychiolaeth Ddigonol

- yn mapio ar Flaenoriaeth 3: Eich Cefnogaeth

Amcan 5. Sicrhau Profiad Rhagorol a Chyson i Fyfyrwyr.

- Yn mapio ar Flaenoriaeth 2: Eich Cyfleoedd

Amcan 6. Cyfrannu at Ymwneud â'r Gymuned a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- yn mapio ar Flaenoriaeth 4: Eich Cymuned cymunedau ledled y rhanbarth

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Mae ail Gynllun Cydraddoldeb Strategol (2016-2020) y Brifysgol (https://www.bangor.ac.uk/humanresources/equalitydiversity/Strategic_Equality_Plan_2016_CY.pdf) yn datgan ymrwymiad parhaus Prifysgol Bangor i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r cynllun gweithredu cysylltiedig yn nodi'r camau gweithredu y mae'r Brifysgol wedi eu nodi er mwyn cyflawni ei hamcanion cydraddoldeb. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a’r Cynllun Gweithredu wedi cael eu datblygu nid yn unig o fewn cyd-destun dyletswyddau cyfreithiol y Brifysgol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r Dyletswyddau Penodol i Gymru, ond hefyd gan gyfeirio at Gynllun Strategol y Brifysgol.

Nod ymrwymiad y Brifysgol i gydraddoldeb yw darparu amgylchedd sy’n parchu ac yn gwerthfawrogi cyfraniad cadarnhaol ei holl aelodau, fel y gallant wireddu eu llawn botensial

a chael budd a mwynhad o’r rhan a chwaraeant ym mywyd y Brifysgol. I gyrraedd y nod hwn, mae’r Brifysgol yn cydnabod fod gan ei holl aelodau a darpar aelodau'r hawliau sylfaenol isod:

- Cael eu trin ag urddas a pharch
- Cael eu trin yn deg
- Cael eu hannog i wireddu eu posibiliadau’n llawn

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn nodi:

- Amcanion sy'n adlewyrchu ymrwymiadau a gafodd eu trosglwyddo o Gynllun Cydraddoldeb Strategol cyntaf y Brifysgol ;
- Projectau ac amcanion allweddol sy'n cael eu harwain gan yr agenda cydraddoldeb ac sydd wedi eu sefydlu'n gadarn naill ai yn strategaeth y Brifysgol neu mewn strategaethau allweddol eraill o eiddo'r Brifysgol;
- Projectau newydd sydd wedi'u nodi drwy ymwneud staff a myfyrwyr.

Mae amcanion cydraddoldeb y Brifysgol wedi eu seilio ar ystod o gynlluniau gweithredu sy'n gysylltiedig ag o leiaf un nodwedd warchodedig dan y Ddeddf Cydraddoldeb, sef oedran, anabledd, hunaniaeth rhyw, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

*Rhai o'r ffyrdd y mae'r Strategaeth yn Llywio'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn:*
Amcan 4. Hyrwyddo Amgylchedd ac Addysg Gynhwysol

- darparu Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr llawn amser
- darparu gwasanaethau cefnogi myfyrwyr ar gyfer pob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol
- Undeb y Myfyrwyr yn lobïo ar faterion yn ymwneud â mynediad i bobl anabl, ymgyrchoedd LHDTC+, a hyrwyddo'r polisi Goddef Dim Aflonyddu

## Dull Strategol dan Arweiniad Myfyrwyr o ymdrin â Phrofiad Myfyrwyr

Yn 2011, roedd Prifysgol Bangor yn un o'r prifysgolion cyntaf yn y Deyrnas Unedig i wneud ymrwymiad sefydliadol i ymgorffori gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr yn rhan o bob agwedd ar brofiad y myfyriwr (gweler tudalennau 7-9, *Cyfeiriadau'r Dyfodol ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru: Myfyrwyr fel Partneriaid)*. Gwnaethom yr ymrwymiad hwn trwy ein Strategaethau Profiad Myfyrwyr a gafodd eu cyd-ysgrifennu gydag Undeb y Myfyrwyr. Y weledigaeth gyffredin oedd gweithio mewn partneriaeth mewn ffordd sy'n gwneud mwy na bod â chynrychiolwyr myfyrwyr neu ymgynghori â myfyrwyr, a sicrhau cydweithio ar sail parch rhwng y naill ochr a’r llall. Rydym yn gweld gweithio mewn partneriaeth fel modd i gynyddu cyfranogiad ein myfyrwyr trwy gydnabod y cyfraniad allweddol bwysig y gall myfyrwyr ei wneud tuag at wella a llywio eu prifysgol eu hunain. Mae'r ymrwymiad hwn wedi ei gyflawni a chafodd hynny ei gydnabod yn adroddiad ASA diwethaf y Brifysgol (Mai 2018) pan gawsom ein canmol am '*Y bartneriaeth eang gyda myfyrwyr, a werthfawrogir yn ddiwylliannol, sy'n treiddio i bob agwedd ar fywyd y brifysgol*'. Nawr bod gweithio mewn partneriaeth wedi'i ymgorffori'n llwyddiannus yn y Brifysgol, rydym wedi symud y tu hwnt i strategaeth gyffredinol ar gyfer profiad myfyrwyr at ddull arloesol o greu strategaethau dan

arweiniad myfyrwyr sy'n gosod cyfeiriad strategol ar gyfer meysydd penodol o brofiad y myfyrwyr.

Y strategaeth gyntaf o'u plith oedd y Strategaeth Addysgu a Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr, ac mae'r dull arloesol hwn o wneud gwaith datblygu strategol dan arweiniad myfyrwyr bellach wedi cael ei ddefnyddio hefyd i lunio strategaeth newydd arall, sef Strategaeth Iechyd Meddwl Dan Arweiniad Myfyrwyr; amlinellir y ddwy strategaeth isod.

## Strategaeth Addysgu a Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr 2017-2020

Mae Undeb y Myfyrwyr wedi cydweithio â'r Brifysgol i ddatblygu Strategaeth Addysgu a Dysgu Dan Arweiniad Myfyrwyr. Sefydlwyd grŵp llywio o staff a myfyrwyr i oruchwylio datblygiad y strategaeth. Ymgynghorodd y grŵp llywio yn helaeth â'r myfyrwyr a gwnaed penderfyniad i ganolbwyntio ar bedair thema strategol yn seiliedig ar farn ein myfyrwyr o'r hyn oedd yn bwysig i'w profiad dysgu. Ar gyfer pob thema, gwnaethom nodi staff a myfyrwyr i arwain trafodaethau ac i ddatblygu cynnwys. Mae'r strategaeth wedi cael ei hysgrifennu, o'r dechrau i'r diwedd, mewn partneriaeth lwyr rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr ac arweinwyr myfyrwyr.

Mae pedair thema'r strategaeth fel a ganlyn:

1. Datblygu cwricwlwm ar gyfer y dyfodol
2. Asesu ac Adborth
3. Ennyn Diddordeb Myfyrwyr a Chynrychiolaeth Effeithiol
4. Canlyniadau myfyrwyr a dal gafael ar fyfyrwyr

Caiff llwyddiant y strategaeth ei fesur yn defnyddio ystod o fetrigau sydd wedi'u datblygu o dan bob un o'r pedair thema. Gorwedd y cyfrifoldeb am fonitro'r strategaeth gyda Grŵp Tasg Addysgu a Dysgu'r Brifysgol, sy'n cael ei gadeirio gan y Dirprwy Is-ganghellor (Addysgu a Dysgu) a'r Dirprwy Is-ganghellor (Myfyrwyr). Ymhelaethir ar y pedair thema trwy adrannau canlynol y ddogfen hon, lle bo hynny'n berthnasol.

*Rhai o'r ffyrdd y mae'r Strategaeth yn Llywio'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn:*
Amcan 3. Rhoi Cefnogaeth Academaidd o Ansawdd Uchel i Gynyddu Cyfraddau Dal Gafael a Chwblhau gan Grwpiau Sydd Heb Gynrychiolaeth Ddigonol

- mae'r amcan hwn yn mapio ar themâu'r strategaeth sy'n ymwneud â chynrychiolaeth a dal gafael ar fyfyrwyr

Amcan 7: Cryfhau Cyflogadwyedd Graddedigion

- darparu cyfleoedd, wedi'u hymgorffori o fewn y cwricwlwm, i fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau, eu profiadau a'u hyder i gyflawni eu nodau
- datblygu sgiliau trwy gyfleoedd astudio cyfrwng Cymraeg amrywiol ac arloesol
- ymgorffori cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau graddedigion yn rhan o arferion asesu ar bob lefel o'r cwricwlwm.

## Strategaeth Iechyd Meddwl Dan Arweiniad Myfyrwyr

Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i ddarparu cefnogaeth lles ac iechyd meddwl cadarnhaol i'w holl fyfyrwyr. Mae'r Brifysgol wedi cynnwys myfyrwyr wrth ddatblygu'r ddarpariaeth hon trwy'r Grŵp Strategaeth Iechyd Meddwl Myfyrwyr, dan gadeiryddiaeth Pennaeth y Gwasanaeth Cwnsela Myfyrwyr. Mae'r grŵp hwn yn dwyn arbenigedd staff a chynrychiolaeth myfyrwyr ynghyd i hyrwyddo dull gweithredu sefydliadol o warchod lles meddyliol ein myfyrwyr. Aeth y grŵp ati i greu a goruchwylio Strategaeth Iechyd Meddwl Myfyrwyr y Brifysgol a oedd yn cynnwys chwe phrif amcan:

- Darparu fframwaith o gymorth sydd ar gael ac yn berthnasol i fyfyrwyr presennol.
- Casglu data ac ysgogi adborth er mwyn gwella cefnogaeth.
- Gwella cysylltiadau ag asiantaethau allanol.
- Creu amgylchedd cynhwysol sy'n hyrwyddo lles meddyliol ymysg myfyrwyr.
- Meithrin ymwybyddiaeth ledled y brifysgol.
- Darparu hyfforddiant i staff.

Er mwyn adeiladu ymhellach ar y dull partneriaeth hwn o ddatblygu darpariaeth iechyd meddwl, cychwynnwyd ar waith yn 2019 i greu Strategaeth Iechyd Meddwl dan Arweiniad Myfyrwyr. Hwylusir y project cydweithredol hwn gan y Pennaeth Cwnsela Myfyrwyr a Chyfarwyddwr Undeb Myfyrwyr Bangor ac mae'n dwyn ynghyd ystod eang o fyfyrwyr a staff allweddol y Brifysgol i ymchwilio i'n strategaeth iechyd meddwl nesaf, a'i datblygu mewn ffordd sy'n tynnu'n helaeth oddi ar brofiad a syniadau myfyrwyr. Cafodd swydd interniaeth â thâl i fyfyriwr ei chreu i hwyluso'r project, a gweithiodd yr intern yn agos gydag arweinwyr y project a'r Tîm Llais Myfyrwyr yn Undeb Myfyrwyr Bangor. Defnyddiwyd nifer o ddulliau i gasglu tystiolaeth er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth gan gynnwys ymatebion o arolwg profiad myfyrwyr blynyddol Undeb y Myfyrwyr, data'r Brifysgol, a chyfres o grwpiau ffocws gydag ystod eang o grwpiau myfyrwyr. Bydd dadansoddiad o'r data a fersiwn ddrafft wedi eu cwblhau erbyn dechrau 2019/20 a gofynnir am adborth systematig gan ystod eang o fyfyrwyr i sicrhau bod y strategaeth ddrafft yn diwallu anghenion myfyrwyr. Ar ôl cytuno arni, bydd y strategaeth yn gosod cyfeiriad ar gyfer y gwaith parhaus o ddatblygu darpariaeth iechyd meddwl a lles yn y Brifysgol, a bydd y gwaith o weithredu'r strategaeth yn cael ei oruchwylio gan grŵp strategaeth a fydd yn cynnwys myfyrwyr a fydd yn cynrychioli Undeb y Myfyrwyr a defnyddwyr gwasanaeth.

*Rhai o'r ffyrdd y mae'r Strategaeth yn Llywio'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn:*

Amcan 1. Ehangu Mynediad i Addysg Uwch

- Cael gwared ar rwystrau i bobl ifanc pan fo iechyd meddwl yn her i gyflawni potensial
- Undeb y Myfyrwyr yn rhannu arferion gyda GLlM o ran y dull dan arweiniad myfyrwyr o roi sylw i iechyd meddwl

Amcan 3. Rhoi Cefnogaeth Academaidd o Ansawdd Uchel i Gynyddu Cyfraddau Dal Gafael a Chwblhau gan Grwpiau Sydd Heb Gynrychiolaeth Ddigonol

- sicrhau dull gweithredu cyfannol ar draws y brifysgol mewn perthynas â lles meddyliol gyda'r nod o hyrwyddo gwytnwch, adferiad, perchnogaeth a grymuso
- buddsoddi yng nghefnogaeth y Big White Wall

## Sicrhau Ansawdd Gwasanaethau Cefnogi Myfyrwyr

Rydym yn gwybod bod ansawdd ein cefnogaeth i fyfyrwyr yn un o'r rhesymau pam fod myfyrwyr yn dewis astudio yma; byddwn felly'n parhau i sicrhau bod ein gwasanaethau cefnogi myfyrwyr yn cyrraedd safonau ansawdd trylwyr. Amlygwyd pwysigrwydd hyn ym mis Mehefin 2017 pan gafodd y Brifysgol safon aur yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu aur (TEF) a chyfeiriwyd at dystiolaeth o *"gefnogaeth bersonol ... wedi'i gwreiddio yn niwylliant y Brifysgol"*. Yn adroddiad Adolygiad Gwella Ansawdd y Brifysgol yn 2018 cafwyd yr asesiad hwn o'n gwasanaethau cefnogi myfyrwyr: *"Mae metrigau mewnol ac allanol ... yn adlewyrchu gwaith rhagorol y Brifysgol yn y maes hwn. Mae myfyrwyr sydd wedi ymwneud â'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn siarad yn gadarnhaol iawn am y gefnogaeth a'r help a gawsant sy'n cyd-fynd â'r dystiolaeth a'r data a gyflwynwyd i'r tîm adolygu."*

Ers dros chwe blynedd mae ein gwasanaethau cefnogi myfyrwyr wedi cael eu cefnogi gan ddull systematig o geisio gwelliant parhaus ac mae hynny'n sicrhau ansawdd ein gwasanaethau. Mae'r dull systematig hwn yn dechrau drwy gyhoeddi nodau ac amcanion clir ar gyfer pob agwedd o waith cefnogi'r gwasanaeth gan nodi canlyniadau mesuradwy. Mae pob agwedd o'r gwaith cefnogi yn defnyddio dulliau priodol o werthuso effaith eu gwasanaethau, trwy ddata defnydd, mesurau effaith, adborth myfyrwyr a staff, a data'r Brifysgol, gan gynnwys yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr ac Arolwg yr Wythnos Groeso. Rydym yn gweithio gydag Undeb y Myfyrwyr i gynnwys cwestiynau yn yr Arolwg Profiad Myfyrwyr blynyddol am y gefnogaeth a roddir i fyfyrwyr er mwyn clywed barn myfyrwyr nad fyddant efallai wedi defnyddio ein gwasanaethau. Mae pob gwasanaeth cefnogi yn adolygu adborth, data defnydd a mesurau effaith ac yn eu defnyddio i ysgrifennu Adroddiad Blynyddol am y flwyddyn flaenorol a chynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Myfyrwyr yn cyfuno holl ddata'r gwasanaethau i'w cyflwyno i'r Grŵp Tasg Gwasanaethau Myfyrwyr ac i Senedd y Brifysgol sy'n goruchwylio effeithiolrwydd y gwasanaethau cefnogi. Mae'r ddau bwyllgor yn cynnwys cynrychiolaeth myfyrwyr. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys crynodeb o unrhyw dueddiadau yn y defnydd a wneir o'r gwasanaethau, lefelau boddhad myfyrwyr â'r gwasanaethau a mesurau effaith sy'n ymwneud ag amcanion y gwasanaeth. Mae hefyd yn crynhoi datblygiadau newydd y gwasanaeth a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol i addasu a datblygu'r gwasanaethau i gwrdd ag anghenion newidiol ein myfyrwyr amrywiol.

Yn ogystal â'r dull hwn, sydd wedi gwreiddio, o geisio gwelliant parhaus, caiff y gwaith o gefnogi myfyrwyr ei archwilio'n rheolaidd. Ceir archwiliadau blynyddol yn ôl thema gan ddarparwr archwiliadau mewnol y Brifysgol, RSM. Mae'r archwiliadau thematig hyn wedi canolbwyntio hyd yma ar feysydd megis cynefino, cefnogaeth fugeiliol a chyflogadwyedd. Mae ein Gwasanaethau Anabledd yn cael archwiliadau Sicrwydd Ansawdd allanol gan y DSA ac rydym yn hanesyddol wedi perfformio'n rhagorol yn yr archwiliadau hynny. Rydym wedi cael sgôr o 100% ar gyfer ein cefnogaeth dyslecsia bob blwyddyn, ac mae ein Canolfan Access yn perfformio'n gyson uwchlaw meincnod y Deyrnas Unedig (yn 16/17 cafwyd 93%, meincnod y DU oedd 89%; yn 17/18 cafwyd 100%, meincnod y DU oedd 97%). Caiff effeithiolrwydd ein Gwasanaethau Cwnsela Myfyrwyr ei fesur yn ôl canlyniadau clinigol sydd wedi eu meincnodi yn erbyn gwasanaethau cwnsela eraill yn y Deyrnas Unedig ac yn yr Unol Daleithiau. O'r data hwn rydym yn gwybod bod ein heffeithiolrwydd yn y 10% uchaf ymhlith gwasanaethau cwnsela sy'n defnyddio'r mesur CCAPS (yn 16/17 roedd Bangor yn y 4%

uchaf; yn 17/18 roedd Bangor yn yr 8% uchaf). Rydym yn rhoi gwybod i'n myfyrwyr am ein mesurau ansawdd ac effaith trwy gyhoeddi adroddiad cryno trwy borth TG FyMangor bob blwyddyn, ac rydym yn gweithio gyda'r Uned Ennyn Diddordeb Myfyrwyr i roi gwybod i fyfyrwyr sut yr ydym wedi gwella'r gwasanaeth yn dilyn cael adborth gan fyfyrwyr. Trwy'r Uned Ennyn Diddordeb Myfyrwyr rydym yn defnyddio grwpiau ffocws myfyrwyr i roi adborth ar y gwaith o weithredu newidiadau i wasanaethau er mwyn gallu sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau yn diwallu anghenion myfyrwyr. Yn ystod 2018/19 cafodd grŵp ffocws ar Dai Myfyrwyr ei gynnal a ysgogodd nifer o ddatblygiadau i'r gwasanaeth, a chafodd grŵp ffocws ei gynnal i gael adborth ar ein system gofrestru newydd ar-lein a'n canolfan cymorth gweinyddol i fyfyrwyr i sicrhau bod y newidiadau yn diwallu anghenion yr holl fyfyrwyr. Yn y modd hwn, mae ein hymrwymiad i sicrhau ansawdd yn cael sylw gan nifer o fesurau mewnol ac allanol sy'n cael eu cefnogi gan ddull sydd wedi gwreiddio o weithio mewn partneriaeth â myfyrwyr i sicrhau bod ein gwasanaethau cefnogi myfyrwyr yn berthnasol ac yn effeithiol.

*Rhai o'r ffyrdd y mae'r Strategaeth yn Llywio'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn:*

Amcan 3: Rhoi Cefnogaeth Academaidd o Ansawdd Uchel i Gynyddu Cyfraddau Dal Gafael a Chwblhau gan Grwpiau Sydd Heb Gynrychiolaeth Ddigonol

- darparu ystod o ymyriadau therapiwtig a seicolegol effeithiol i fyfyrwyr
- mae myfyrwyr nad ydynt yn gymwys i gael Lwfans i Fyfyrwyr Anabl yn cael darpariaeth gyffelyb gan y Gwasanaethau Anabledd
- Mae'r tîm Sgiliau Astudio yn gweithio ochr yn ochr â staff mewn ysgolion academaidd i ymgorffori sgiliau academaidd yn rhan o'r cwricwlwm

Amcan 7. Cryfhau Cyflogadwyedd Graddedigion

- interniaethau haf wythnos o hyd i fyfyrwyr sydd wedi'u cofrestru'n anabl, sydd â Gwahaniaeth Dysgu Penodol neu sydd mewn caledi ariannol

## Strategaeth ar gyfer Partneriaeth Ymestyn yn Ehangach Gogledd a Chanolbarth Cymru

Yn unol â'r blaenoriaethau a amlinellir yn y Strategaeth ar gyfer Partneriaeth Ymestyn yn Ehangach Gogledd a Chanolbarth Cymru, nod gweithgareddau ychwanegol y Brifysgol yw sicrhau y ceir effaith barhaus ac ystyrlon ar yr unigolion a dargedir, trwy sicrhau gwell parhad a dilyniant rhwng gweithgareddau Ymestyn yn Ehangach a'r gweithgareddau hynny a ddarperir gan y Brifysgol. Bydd mwy o adnoddau staff yng Nghanolfan Ehangu Mynediad y Brifysgol yn hwyluso ac yn monitro dilyniant projectau sy'n targedu grwpiau oedran cyn-16 a phrojectau sy'n targedu grwpiau oedran ôl-16, gan ganolbwyntio ar ddau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a grwpiau targed allweddol eraill, e.e. myfyrwyr sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal a myfyrwyr sy'n ofalwyr.

Trwy'r Ganolfan Ehangu Mynediad, bydd y Brifysgol yn ymestyn elfennau allweddol o'i gweithgareddau ehangu mynediad i alinio ei gweithgareddau ymhellach â'r blaenoriaethau a amlinellir yn strategaeth y Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach. Bydd y Ganolfan Ehangu Mynediad yn sicrhau bod eu gweithgareddau'n cyn-fynd â strategaeth newydd y Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach, gan ganolbwyntio'n benodol ar bobl ifanc ôl-16 ac oedolion heb gymwysterau lefel 4 sy'n hanu o ddau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd

Lluosog Cymru, plant sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a gofalwyr. Yn ddiweddar mae'r Brifysgol wedi penodi Swyddog Datblygu Ehangu Mynediad i adeiladu gallu yn y maes gwaith hwn ac i fwrw ymlaen â'r meysydd gwaith newydd a amlinellwyd yn y cynllun hwn, yn enwedig hwyluso a monitro parhad a dilyniant rhwng gweithgareddau Ymestyn yn Ehangach a'r gweithgareddau hynny a ddarperir gan y Brifysgol.

Bydd y gwaith hwn yn ategu, neu'n rhoi ffocws o'r newydd ar ymrwymiadau'r cynllun ffioedd a mynediad presennol megis Rhaglen Dawn a Chyfle'r Brifysgol sy'n gweithio gyda wardiau cyfranogiad isel i godi dyheadau addysgol ac ymwybyddiaeth o addysg uwch ymhlith grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol; gweithgareddau blasu addysg uwch, gan gynnwys Ysgol Haf breswyl wedi'i hanelu at ddisgyblion blwyddyn deuddeg nad oes ganddynt draddodiad teuluol o fynd ymlaen i addysg uwch; a diwrnodau cysgodi myfyrwyr; cefnogi digwyddiadau yn y gymuned i dargedu pobl ifanc y tu allan i amgylchedd yr ysgol.

Mae Profi yn rhaglen dysgu trwy brofiad, arloesol, sydd wedi'i hanelu at y disgyblion hynny sy'n gweld pontio o lefel TGAU i lefel UG yn heriol am amryw resymau. Pwrpas y rhaglen yw datblygu potensial a magu hyder, a chael pobl ifanc i deimlo mwy o hunan-werth trwy: gynyddu sgiliau bywyd a sgiliau cyflogadwyedd pobl ifanc; cynyddu'r cyfleoedd dysgu trwy brofiad a gynigir i bobl ifanc trwy gynnig profiadau newydd a gwahanol nad ydyn nhw wedi dod ar eu traws o'r blaen; ac adeiladu rhwydwaith o bartneriaethau rhwng busnesau, elusennau, ysgolion a'r Brifysgol. Bydd disgyblion sy'n ymwneud â'r rhaglen Profi yn elwa o gael cefnogaeth a mentora parhaus gan Fyfyrwyr Prifysgol Bangor. Mae hyn yn cyd-fynd ag ymrwymiad cynllun ffioedd a mynediad y Brifysgol i ariannu Undeb y Myfyrwyr er mwyn cefnogi cynllun Undeb y Myfyrwyr - Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor - sydd o fudd i'r myfyrwyr hyn gan ei fod yn datblygu sgiliau cyflogadwyedd, yn rhoi profiad o weithio gyda phobl ifanc, ac yn rhoi cyfle i gwrdd â chyflogwyr allweddol yn y rhanbarth.

Mae Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn datblygu strategaeth ehangu mynediad cyfrwng Cymraeg ac mae bellach wedi dyrannu cyllid i'r gwaith hwn. Mae Canolfan Ehangu Mynediad y Brifysgol yn arwain ar y gwaith o gyflawni'r strategaeth honno a bydd yn cyfrannu at y gwaith o ehangu mynediad i addysg uwch cyfrwng Cymraeg, yng nghyd-destun blaenoriaethau Ymestyn yn Ehangach, er mwyn cyfrannu tuag at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd y project yn gweithio i ddechrau yn ardal Dyffryn Nantlle o fewn dau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Bydd y project yn seiliedig ar raglen o weithdai codio ar gyfer disgyblion blwyddyn 6 gyda dilyniant ym mlwyddyn 7 Ysgol Uwchradd Dyffryn Nantlle. Bydd ail gam y project yn 2019/20 yn targedu wardiau Peblig/Cadnant yng Nghaernarfon, sydd yng nghwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

*Rhai o'r ffyrdd y mae'r Strategaeth yn Llywio'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn:*
Amcan 1. Ehangu Mynediad i Addysg Uwch

- y Ganolfan Ehangu Mynediad a'r Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gweithgareddau gwyddoniaeth dwyieithog
- Rhaglen Dawn a Chyfle Bangor yn parhau i weithio gydag ysgolion uwchradd ledled Gogledd Cymru mewn wardiau cyfranogiad isel

## Ymateb i Fesurau Cenedlaethol HEFCW

1. Ehangu Mynediad a 2. Cyfranogiad
Mae Amcan 1 yn ymateb yn benodol i'r mesur hwn o ran myfyrwyr sy'n hanu o ddau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, ac o ardaloedd cyfranogiad isel y Deyrnas Unedig. Mae'r targedau canlynol, a ddiffinnir yn Atodiad B, hefyd yn rhoi sylw i'r mesurau hyn, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol: 1, 2, 3, 19, 21, 22, 24, 25, 27, 28 & 29.

3. Dal gafael ar fyfyrwyr
Mae Amcan 3, yn ddiweddarach yn yr atodiad hwn, yn ymateb i'r mesur hwn ac mae targedau 30 a 31, yn Atodiad B, yn rhoi sylw uniongyrchol a pherthnasol i gyfran y myfyrwyr israddedig llawn amser sy'n bresennol mewn addysg uwch flwyddyn ar ôl mynediad yn achos a) myfyrwyr sy'n hanu o'r Deyrnas Unedig a b) myfyrwyr sy'n hanu o ddau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

6. Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr
Mae Targed 16 yn Atodiad B yn ymateb yn uniongyrchol i'r mesur hwn.

7. Cyfrwng Cymraeg
Mae Amcan 2 yn ymateb i'r mesur hwn, ynghyd â Thargedau 4 a 5, sy'n ymateb i fyfyrwyr sy'n astudio o leiaf 5 ac o leiaf 40 credyd, yn y drefn honno, trwy gyfrwng y Gymraeg.

8. Ehangu Gorwelion Daearyddol Myfyrwyr
Mae Targed 32 yn ymateb i'r mesur hwn ar gyfer holl fyfyrwyr Bangor, a chaiff cyfleoedd i astudio dramor sylw yn Amcan 4.

11. Cyflogaeth a 12. Cyflogaeth Graddedigion
Mae Amcan 7 yn trafod gweithgareddau cyflogaeth a chyflogadwyedd, ac mae Targedau 33 a 34 yn ymateb yn uniongyrchol i'r mesurau cenedlaethol hyn, yn y drefn honno.

## Grwpiau y nodwyd nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol mewn Addysg Uwch


Mae'r Brifysgol wedi nodi nifer o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i'w cefnogi drwy'r cynllun ffioedd a mynediad hwn.

Bydd y Brifysgol yn parhau i sicrhau bod unrhyw rwystrau i ymwneud ag addysg uwch yn cael eu lleihau i'r eithaf, gan roi sylw i'r rhwystrau posibl a wynebir gan aelodau o'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, cyn iddynt ddechrau astudio ac yn ystod eu hastudiaethau. Bydd y Brifysgol yn parhau i ddatblygu ei dealltwriaeth o'r rhwystrau i addysg bellach ac uwch a wynebir gan gymunedau yn y rhanbarth ac yn parhau i rannu'r wybodaeth honno ar draws y Brifysgol a'r rhanbarth, trwy ymgysylltu â phobl o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn economaidd: y rhai sy'n byw yn 2 gwintel isaf **Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru**, a chymdogaethau cyfranogiad isel **POLAR4 y Deyrnas Unedig**.

Bydd y Brifysgol yn parhau i weithio gyda'r **rhai sy'n gadael gofal**, yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr ac asiantaethau eraill i gyrraedd **myfyrwyr â chyfrifoldebau gofalu**, trwy ei gwaith ei hun ac mewn cydweithrediad â'r Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach ranbarthol. Mae'r tabl isod yn dangos nifer y rhai sydd wedi gadael gofal ers 2016/17. Er bod nifer y myfyrwyr newydd wedi gostwng, roedd nifer yr ymgeiswyr a nododd ar ffurflenni UCAS eu bod o gefndir gofal yn 18 yn 2018/19 ac yn 33 yn 2019/20.

| Y rhai sy'n gadael Gofal ym Mhrifysgol Bangor | Myfyrwyr Newydd | Myfyrwyr sy'n parhau | Cyfanswm y rhai sy'n gadael gofal |
|---|---|---|---|
| 2016/17 | 12 | 7 | 19 |
| 2017/18 | 8 | 13 | 21 |
| 2018/19 | 7 | 14 | 21 |
| 2019/20 | 4 | 12 | I'W GADARNHAU |

Ym Mhrifysgol Bangor, mae'r data diweddaraf a ddarparwyd gan HEFCW yn dangos bod 25.9% o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn byw yn 2 gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, o'i gymharu â chyfartaledd y sector o 36.9%; mae 9.4% o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn byw yng nghwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, o'i gymharu â chyfartaledd y sector o 17.4%. Ar y ddau fesur mae hyn yn gosod Bangor yn 8fed allan o'r 9 sefydliad addysg uwch yng Nghymru, gan ddangos nad oes cynrychiolaeth ddigonol o'r myfyrwyr hyn ym Mangor. Fodd bynnag, mae'r ffigyrau cyhoeddedig diweddaraf yn dangos bod Prifysgol Bangor yn gwneud yn well na meincnod diwygiedig y sector, ac yn well na chyfartaleddau Cymru a'r Deyrnas Unedig, o ran recriwtio myfyrwyr o gymdogaethau cyfranogiad isel.





**Dangosyddion Perfformiad y Deyrnas Unedig mewn Addysg Uwch**
**T1a: Pobl ifanc o gymdogaethau cyfranogiad isel (POLAR3) sy'n dechrau ar radd gyntaf yn llawn-amser**

Bydd y Brifysgol yn mynd i'r afael ag anghysonderau o ran mynediad a chyfle trwy ddiogelu mynediad teg a chynyddu cyfraddau dal gafael ar fyfyrwyr trwy ddarparu cynllun bwrsariaeth hyblyg i fyfyrwyr o **gefndiroedd incwm isel** lle nad yw myfyrwyr eisoes yn gymwys i gael pecyn cymorth ariannol diwygiedig Llywodraeth Cymru, a myfyrwyr sy'n wynebu **caledi ariannol**.

| Dyfarniadau a roddir i fyfyrwyr mewn caledi ariannol | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|
| Caledi Ariannol | 187 | 178 | 135 | |
| Bwrsariaethau i Bobl sy'n Gadael Gofal: £1,000 | 13 | 11 | 9 | 12 |
| Bwrsariaeth Foyer: £1,000 | 1 | 2 | 1 | 2 |
| Bwrsariaethau i Bobl Ddigartref: £500 | 0 | 4 | 4 | |
| Bwrsariaethau Adleoli: £1,000 | 1 | 1 | 0 | |
| Bwrsariaethau Mynediad Ôl-radd hyd at £ 500 | 19 | 22 | 32 | |
| Bwrsariaethau i Ofalwyr: £1,000 | 4 | 21 | 40 | 32+ |
| Cyfanswm y Dyfarniadau a Dalwyd | 225 | 239 | 221 (hyd yma) | |

Gwnaed yr holl daliadau yn y tabl uchod o Gronfa Caledi'r Brifysgol. Dyfernir Bwrsariaethau Foyer i fyfyrwyr yn y Deyrnas Unedig sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu teuluoedd a/neu sydd wedi byw mewn llety byw â chymorth, annibynnol, wedi ei ddarparu gan eu hawdurdod lleol neu elusen/sefydliad arall. Dyfernir y fwrsariaeth i bobl ddigartref i fyfyrwyr o'r Deyrnas Unedig nad oedd ganddynt gartref sefydlog cyn mynediad a chaiff ei dyfarnu yn y flwyddyn academaidd gyntaf. Cyflwynwyd y fwrsariaeth adleoli gan nad ydym bellach yn cynnig llety i deuluoedd. Caiff ei dyfarnu i fyfyrwyr gydag incwm teulu trethadwy o £25,000 neu lai a chaiff ei thalu yn y flwyddyn academaidd gyntaf yn unig. Dyfernir Bwrsariaeth Mynediad Ôl-radd i fyfyrwyr o'r Deyrnas Unedig a oedd yn ddi-waith cyn mynediad neu a oedd yn derbyn cyllid myfyrwyr fel myfyriwr israddedig yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol.

Mae Prifysgol Bangor yn parhau i recriwtio lefel uchel o **fyfyrwyr sy'n derbyn Lwfans i Fyfyrwyr Anabl**, lefel llawer uwch na chyfartaledd y sector yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, a meincnod y Brifysgol.




**Dangosyddion Perfformiad y Deyrnas Unedig mewn Addysg Uwch**
**T7: Cyfranogiad myfyrwyr sy'n cael y lwfans i fyfyrwyr anabl (israddedigion llawn-amser)**

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i adeiladu ar ei henw da am roi cefnogaeth o ansawdd uchel i **fyfyrwyr anabl** a bydd yn parhau i ddatblygu ei harfer cynhwysol yn yr ysgolion academaidd yn ogystal â chynnal lefelau uchel o gefnogaeth ganolog i fyfyrwyr anabl. Mae

gwerth ein cefnogaeth i fyfyrwyr anabl yn glir o adborth myfyrwyr: mae boddhad cyffredinol myfyrwyr gyda'r Gwasanaethau Anabledd yn parhau i fod yn uwch na'n targed o 85% (cafwyd 95% yn 2017/18).

Yn unol â'r datblygiadau ar draws y sector, mae nifer y myfyrwyr gyda chyflyrau **iechyd meddwl** a chyflyrau cymhleth eraill wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn. Rydym wedi datblygu ac ymestyn ein darpariaeth i sicrhau dull cynhwysfawr prifysgol-gyfan o ymdrin â lles meddyliol, sy'n ceisio meithrin gwytnwch a hunanddibyniaeth, adferiad a grymuso. Yn 2017/18 roedd cyfraddau gwelliant cleientiaid sy'n ddibynadwy'n glinigol yn rhoi'r gwasanaeth ymhlith y 8% uchaf o blith holl yr Wasanaethau Cwnsela sy'n defnyddio mesur canlyniad CCAPS, ar draws y Deyrnas Unedig ac UDA. Yn 2018, cafodd y gwasanaeth ei enwebu am un o wobrau y Times Higher Education, yn y dosbarth 'Outstanding Support for Students'. Mae mesur canlyniadau CCAPS yn ein galluogi i feincnodi lefel gofid myfyrwyr ar adeg mynediad i'r Gwasanaeth Cwnsela, ac o'r data hwn rydym yn gwybod bod lefelau gofid cleientiaid yn uwch ym Mhrifysgol Bangor na'r cyfartaleddau cenedlaethol mewn sefydliadau Addysg Uwch. Mae hyn yn cyfiawnhau'r angen i'r Brifysgol barhau i flaenoriaethu ei darpariaeth iechyd meddwl, yn arbennig yng nghyd-destun ardal wledig gyda darpariaeth iechyd meddwl gyfyngedig yn y GIG lleol.

Er nad oes cynrychiolaeth ddigonol o fyfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg mewn Addysg Uwch, mae Prifysgol Bangor ar flaen y gad o ran **addysg uwch cyfrwng Cymraeg** ac mae'n cynnig ystod eang o fodiwlau a rhaglenni gradd trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae'r dewis cyfrwng Cymraeg ym Mangor wedi ei wreiddio mewn isadeiledd cefnogi trwyadl ddwyieithog. Mae gan y Gymraeg a'r Saesneg statws cyfartal ym mhob agwedd ar fywyd y Brifysgol yn unol â'n Polisi Iaith Gymraeg cynhwysfawr a'r Safonau Iaith Gymraeg. Yn wir, roedd "dwyieithrwydd sydd wedi gwreiddio'n ddwfn ym mhob agwedd ar fywyd y brifysgol ac sy'n effeithio'n gadarnhaol ar brofiad myfyrwyr" yn un o'r tair canmoliaeth a nodwyd yn adroddiad canlyniadau'r ASA yn dilyn Adolygiad Gwella Ansawdd Prifysgol Bangor (Mai 2018).

Wedi i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r adroddiad 'Menywod Dawnus ar gyfer Cymru Lwyddiannus' yn 2016 (https://gov.wales/docs/det/report/160308-women-in-science-cy.pdf), ffurfiwyd is-grŵp fel rhan o Grŵp Tasg Athena SWAN y Brifysgol i adolygu canfyddiadau'r adroddiad. Edrychodd y grŵp ar ba gamau y mae'r Brifysgol yn eu gweithredu ar hyn o bryd i roi sylw i argymhellion yr adroddiad, a beth mwy y gall y Brifysgol ei wneud i ddelio â rhai o'r materion y tynnir sylw atynt yn yr adroddiad.

Mae'r adroddiad ''Merched Dawnus yn gwneud argymhellion i fynd i'r afael â **diffyg cynrychiolaeth a methiant i ddal gafael ar fenywod ym meysydd STEM** (gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg) yng Nghymru; o dan thema addysg, mae'r heriau a amlygwyd yn yr adroddiad sy'n berthnasol i'r Brifysgol yn cynnwys:

- Mae merched heb gynrychiolaeth ddigonol yn arbennig mewn peirianneg, ffiseg a chyfrifiadureg, o adeg dewis y pynciau hyn at lefel A ymlaen i Brifysgol.
- Mae plant yn gyffredinol yn mwynhau gwersi STEM yn yr ysgol, eto ychydig iawn sy'n rhoi eu bryd ar weithio'n broffesiynol yn y meysydd hynny.
- Gwelir gwahaniaethau amlwg iawn rhwng y rhywiau o ran dewis pynciau STEM ym mhrifysgolion Cymru: Er enghraifft, dim ond 12% o fyfyrwyr peirianneg a thechnoleg

sy'n ferched, tra maent yn cyfri am 84 y cant o fyfyrwyr mewn pynciau'n ymwneud â meddygaeth.

Gyda golwg ar y blaenoriaethau penodol hyn, fel rhan o'i Chynllun Gweithredu Strategol Cydraddoldeb, mae'r Brifysgol yn monitro'n flynyddol y data sy'n ymwneud â derbyniadau myfyrwyr, myfyrwyr yn tynnu'n ôl, a chyrhaeddiad, a hynny yn ôl **nodweddion gwarchodedig**, pan fo data ar gael. Cynhwysir yr wybodaeth hon yn Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb y Brifysgol a gaiff ei ystyried gan Bwyllgor Gweithredu'r sefydliad.

## Cyfle Cyfartal - Amcanion, Gweithgareddau a Thargedau

Mae nifer o amcanion wedi cael eu creu i roi sylw i'r mesurau canlynol a nodir yng nghanllawiau HEFCW:

- Hyrwyddo a diogelu mynediad teg i addysg uwch, yn cynnwys adnabod unigolion o gefndiroedd difreintiedig sydd â'r potensial mwyaf.
- Denu myfyrwyr a darpar fyfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a dal gafael arnynt; gall hyn gynnwys myfyrwyr o gefndiroedd llai breintiedig a myfyrwyr gyda nodweddion gwarchodedig
- Codi dyheadau addysgol a datblygu sgiliau sy'n paratoi myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ar gyfer astudio mewn addysg uwch
- Darparu gwybodaeth effeithiol i fyfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, cyn eu cyrsiau ac yn ystod eu hastudiaethau.

### Amcan 1: Ehangu Mynediad i Addysg Uwch

Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i greu *Cymru fwy cyfartal* a *chymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau* (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015).

Mae'r Brifysgol yn cynnal ystod o weithgareddau wedi'u hanelu at *sicrhau bod mwy o bobl yn cael y cyfle i fanteisio ar addysg uwch – a bod angen sicrhau bod hynny'n un o anghenion craidd unrhyw system yn y dyfodol, a bod y system ei hun yn flaengar ac yn deg* (Yr Athro Syr Ian Diamond: Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru, Medi 2016) ac yn cyd-fynd ag ymrwymiad y Brifysgol i gyflawni ei ddyletswyddau cydraddoldeb, fel y nodwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r gweithgareddau hyn wedi eu gwreiddio o fewn gweithgareddau craidd y Brifysgol sy'n ymwneud â recriwtio myfyrwyr a chyswllt ag ysgolion, a Chanolfan Ehangu Mynediad y Brifysgol sy'n rhoi cefnogaeth bellach i weithgareddau estyn allan. Mae'n gweithio mewn partneriaeth â chyrff yn y gymuned ac yn y rhanbarth i godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n berthnasol i ehangu mynediad.

Bydd y Brifysgol yn parhau fel y prif bartner sy'n cefnogi'r **Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach** ranbarthol (www.reachingwider.ac.uk), un o nifer o *"gonsortia o ddarparwyr AU yn ôl pob tebyg, i hyrwyddo a chymell codi dyheadau ac agweddau cymdeithasol ar ehangu mynediad"* (Yr Athro Syr Ian Diamond: Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg

Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru, Medi 2016). Bydd y Brifysgol yn parhau i gefnogi'r bartneriaeth trwy ddarpariaeth megis cyfleusterau swyddfa a gwasanaethau gweinyddol megis cyllid ac adnoddau dynol.

Bydd y **Ganolfan Ehangu Mynediad** yn sicrhau bod ymrwymiadau presennol o ran ehangu mynediad fel y maent wedi eu hamlinellu yng nghynllun ffioedd a mynediad y Brifysgol yn sicrhau'r ffocws mwyaf posibl ar flaenoriaethau'r Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach:

- Bydd y Ganolfan Ehangu Mynediad yn parhau i weithio'n agos gyda'r Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach trwy broject STEM y Gogledd, gan dargedu grwpiau targed Ymestyn yn Ehangach yn benodol. Nod STEM y Gogledd yw hyrwyddo a chyfoethogi gweithgareddau STEM allgyrsiol mewn ysgolion, trwy ddefnyddio ystod o ymyraethau penodol a fydd yn ategu, ond ddim yn dyblygu, addysg prif ffrwd. Amcanion y project yw: cynyddu nifer y bobl ifanc 11-19 oed sy'n astudio pynciau STEM a lefel eu cyrhaeddiad; cael pobl ifanc i barhau i astudio pynciau STEM mewn addysg ôl-16; bod pobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau STEM allgyrsiol.

  Mae nodau'r project yn cyd-fynd â nodau'r Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach, gan dargedu'r canlynol:
    - pobl ifanc mewn addysg y mae eu hathrawon wedi nodi bod perygl iddynt gael graddau C/D mewn pynciau gwyddoniaeth penodol ac a fyddai'n elwa o weithgareddau ennyn diddordeb ysbrydoledig sy'n cynnig gwerth ychwanegol i wella graddau disgwyliedig. (*mae'r garfan hon wedi'i nodi gan WISERD fel cyfranogwyr targed allweddol sy'n fwy tebygol o fynd i Addysg Bellach / Addysg Uwch yn dilyn ymyraethau penodol i'w helpu i ennill gradd C neu uwch*);
    - pobl ifanc mewn addysg y mae eu hathrawon a/neu gynghorwyr gyrfaoedd wedi nodi y byddent yn elwa o weithgareddau STEM ychwanegol i'w helpu i benderfynu dewis opsiynau STEM mewn addysg ôl-14, ôl-16 a/neu ôl-17
    - pobl ifanc sy'n methu â chael mynediad at brofiad gwaith penodol sy'n gysylltiedig â STEM.

- Bydd y Ganolfan Ehangu Mynediad a'r Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gweithgareddau gwyddoniaeth dwyieithog trwy raglen Bright Sparks, STEM Family Challenge a gweithdai eraill yng ngofal aelodau staff y Brifysgol. Bydd ychwaneg o ysgolion yn cael eu targedu trwy raglen Bright Sparks, a bydd STEM Family Challenge yn cael ei ehangu i gynnwys y sector ysgolion cynradd, gan wneud gwaith pellach i ennyn diddordeb teuluoedd. Cynigir gweithdai dilyniant gan staff y Brifysgol, yn enwedig yn y cyfnod cyn yr Eisteddfod Genedlaethol (Pafiliwn Gwyddoniaeth). Bydd STEM Family Challenge yn targedu ardal Dyffryn Nantlle o fewn dau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Bydd rhaglen Bright Sparks yn cael ei chynnal ym mhob un o wyth sir y Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach.

- Bydd y Ganolfan Ehangu Mynediad yn gweithio'n agos gyda'r Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach ar gynnal Cystadleuaeth Codio, a gynhelir mewn partneriaeth â Grŵp Llandrillo Menai. Bydd y rhaglen o weithdai codio a sefydlu Clybiau Codio lleol yn digwydd yn y dalgylchoedd hynny lle mae grwpiau blaenoriaeth Ymestyn yn Ehangach

wedi'u lleoli. Trwy gefnogi Sgiliau Digidol yn y gymuned gyda gweithdai sy'n pontio'r cenedlaethau a Chlybiau Codio wedi'u targedu, ceir cysondeb o ran dilyniant sgiliau digidol fel y gall cymunedau ymgysylltu a llwyddo yn y sector pwysig hwn.

- Bydd y gweithgareddau hyn yn cefnogi ehangu mynediad i oedolion yn ardaloedd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru trwy'r gweithdai codio sy'n pontio'r cenedlaethau, gweithgareddau i deuluoedd (Byd Gwaith, Yr Her Codio, STEM Family Challenge). Bydd y Brifysgol yn parhau i estyn allan at oedolion trwy ei gwaith gyda grwpiau cymunedol fel rhan o'r rhwydwaith ehangu mynediad rhanbarthol a thrwy hyrwyddo cwrs mynediad y Brifysgol Agored.

Bydd y Brifysgol yn parhau â'i **gweithgareddau ymgysylltu â gwyddoniaeth** sy'n cynnwys nifer o fentrau sydd wedi'u hanelu'n benodol at annog rhagor o fyfyrwyr benywaidd i ddilyn cyrsiau a gyrfaoedd yn y pynciau STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg) :

- Mae'r Gweithdai Darganfod Gwyddoniaeth i Enethod yn broject allgyrsiol poblogaidd sy'n annog genethod 14 oed i ddysgu mwy am wyddoniaeth, peirianneg a thechnoleg mewn awyrgylch llawn hwyl a gwybodaeth. Mae genethod o ysgolion ar draws Gwynedd, Môn a Chonwy’n ymweld ag adrannau gwyddoniaeth y Brifysgol i gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'r nod o annog disgyblion benywaidd i astudio pynciau STEM yn y dyfodol. Tynnir sylw at gyfleoedd gyrfa mewn meysydd STEM yng Ngogledd Cymru ac mae panel o gynrychiolwyr o ddiwydiant/cyflogwyr yn esiamplau cadarnhaol i gyflwyno disgyblion i fenywod sydd eisoes yn llwyddo mewn gyrfaoedd STEM o'u dewis.
- Gweithgareddau ar bynciau penodol, e.e. ymweliadau a chyflwyniadau gan gyn-fyfyrwyr benywaidd o Fangor sy’n dilyn gyrfa ym maes STEM; sgyrsiau i fyfyrwyr ar Ddiwrnod Cenedlaethol Merched mewn Peirianneg.
- Fel rhan o weithgareddau Athena SWAN y Brifysgol bydd Grŵp Tasg Athena SWAN, sy'n rhoi ystyriaeth i faterion ehangach yn ymwneud â rhyw, yn dyfarnu nifer o ysgoloriaethau 'Merched mewn Gwyddoniaeth' i fyfyrwyr benywaidd mewn pynciau STEM.
- Bydd y Ganolfan Ehangu Mynediad yn parhau i gynnig rhaglen o sesiynau blasu STEM i ddisgyblion sy'n pontio rhwng blwyddyn 6 a 7. Cynhelir y rhain mewn ysgolion uwchradd yn ystod wythnosau cynefino disgyblion blwyddyn 6.
- Bydd y Brifysgol yn gweithio'n agos gyda STEM y Gogledd, Ymestyn yn Ehangach a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i hyrwyddo gweithgareddau STEM.

Bydd y **Ganolfan Ehangu Mynediad** hefyd yn comisiynu'r gweithgareddau ychwanegol canlynol i ategu'r ddarpariaeth hon:

- O ran plant mewn gofal ac unigolion sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal, bydd Ymestyn yn Ehangach a'r Brifysgol yn gweithio gydag awdurdodau lleol i estyn allan at yr unigolion eu hunain a chydweithio â nhw. Hyd yma, mae gwaith Ymestyn yn Ehangach wedi canolbwyntio ar ofalwyr maeth a'r rhai sy'n ymwneud â rhoi cefnogaeth iddynt, ond nawr, gyda'r Brifysgol, canolbwyntir ar blant mewn gofal ac unigolion â phrofiad o fod mewn gofal gan gynnal gweithgareddau tebyg i'r rhai a ddarperir ar hyn o bryd i ofalwyr ifanc.

- Mae problemau iechyd meddwl wedi cael eu nodi fel rhwystr i gyfranogiad mewn Addysg Uwch gan fyfyrwyr a chanddynt brofiad o fod mewn gofal a gofalwyr ifanc. Bydd y Brifysgol yn gweithio mwy gyda sefydliadau cydnabyddedig sy'n ymwneud â chael gwared ar rwystrau i bobl ifanc lle mae iechyd meddwl wedi bod / yn parhau i fod yn her wrth gyflawni eu potensial. Gan weithio gyda sefydliadau cydnabyddedig, cynigir sesiynau blasu a gweithdai i grwpiau o bobl ifanc a phobl hŷn i fagu hyder a chodi dyheadau. Bydd y gweithdai hyn yn amrywiol eu natur ac wedi'u hanelu at yr anghenion a nodwyd gan y sefydliadau sy'n cefnogi'r unigolion. Cynigir cyngor ac arweiniad ynglŷn â llwybrau ar gyfer symud ymlaen at gyfleoedd addysgol. Mae partneriaid perthnasol (megis GISDA) yn rhan o Rwydwaith Ehangu Mynediad y Brifysgol a bydd y Brifysgol yn gweithio gyda'r partneriaid hyn i nodi pobl sydd hefyd o ddau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ac yn hyrwyddo cyfleoedd i bontio o weithgareddau cyn-16 i weithgareddau ôl-16.

- Trwy raglen Profi, bydd disgyblion ysgol yn elwa trwy ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd, hyder a hunan-werth. Byddant yn gweithio gyda busnesau, elusennau a mudiadau eraill sy'n cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau. Mae'r rhaglen yn cynnig gwybodaeth am y cyfleoedd addysgol, cyflogaeth a hyfforddiant sydd ar gael iddynt ac yn rhoi blas iddynt ar weithio ar broject go iawn gyda chleientiaid go iawn. Mae'r ffocws ar sgiliau trosglwyddadwy a magu hyder yn golygu bod hyn yn ffordd wych o helpu pobl ifanc i baratoi ar gyfer Addysg Uwch. Bydd y rhaglen ar gael i bob ysgol uwchradd yng Ngwynedd ac Ynys Môn, a bydd yn cynnwys gwaith ar y cyd â Grŵp Llandrillo Menai. Bydd y ffocws ar ddisgyblion blwyddyn 12, sydd mewn perygl o optio allan o addysg brif-ffrwd ôl-16. Bydd y ddarpariaeth Gymraeg fel rhan o Profi yn cael ei chynyddu trwy weithio gydag Undeb y Myfyrwyr i annog myfyrwyr Cymraeg eu hiaith i wirfoddoli a chymryd rhan.

- Mae hyn yn ategu strategaeth newydd y Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach trwy ddarparu dilyniant i ddisgyblion yn y categori cyn-16 sydd mewn perygl o gael eu categoreiddio fel NEET. Mae hyn hefyd yn cryfhau gwaith cyfrwng Cymraeg y bartneriaeth, wrth gyflwyno sesiynau perthnasol o'r rhaglen Byd Gwaith, a gynigir ar y cyd gan y Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach a'r Ganolfan Ehangu Mynediad.

Mae'r Brifysgol yn gweithio'n uniongyrchol gyda **disgyblion ysgol a'u rhieni** trwy nifer o fentrau rhanbarthol a chenedlaethol:

- Bydd Rhaglen Dawn a Chyfle Bangor yn parhau i weithio gydag ysgolion uwchradd ar draws Gogledd Cymru mewn wardiau cyfranogiad isel i godi dyheadau addysgol ac ymwybyddiaeth o addysg uwch ymysg grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae'r rhaglen yn nodi unigolion â photensial, a datblygu eu sgiliau i baratoi at addysg uwch drwy weithgareddau'n cynnwys gweithdai addysg uwch ac ymweliadau â'r Brifysgol, yn ogystal â chyrsiau adolygu a gweithgareddau eraill wedi'u hanelu at wella cyrhaeddiad blwyddyn 11.
- Bydd y Brifysgol yn parhau i drefnu amrywiaeth o weithgareddau sy'n cynnig blas o addysg uwch. Byddant yn cynnwys ysgol haf breswyl am dri diwrnod wedi'i hanelu at ddisgyblion blwyddyn 12 lle nad oes unrhyw draddodiad teuluol o fynd i addysg uwch, a dyddiau cysgodi myfyrwyr i gyflwyno meysydd pwnc penodol i ddisgyblion

blwyddyn 12 er mwyn iddynt gael gwell dealltwriaeth ohonynt, yn ogystal â dod yn fwy gwybodus am addysg uwch yn gyffredinol, a'r hyn y gall addysg uwch ei gynnig iddynt.

- Bydd y Brifysgol yn parhau i gefnogi addysg Wyddonol mewn ysgolion gydag ystod o adnoddau adolygu dwyieithog, a thrwy hynny'n denu myfyrwyr cyfrwng Cymraeg at y maes, gan gynnwys canllawiau a fydd yn cael eu dosbarthu i ysgolion ac a fydd ar gael ar-lein. Mae'r deunyddiau adolygu a gynhyrchwyd wedi cael derbyniad da gan ysgolion ledled Cymru ac mae CBAC wedi canmol eu hansawdd.
- Mae Canolfan Ehangu Mynediad y Brifysgol yn gweithio'n agos gydag ysgolion cynradd ac uwchradd, gan godi hyder a dyheadau yn enwedig yn y cyfnod pontio i addysg uwchradd, ac mae darparu cyfleoedd cyfrwng Cymraeg yn flaenoriaeth yn ystod y cam hanfodol hwn. Mae gweithgareddau ategol yn cynnwys hwyluso ymweliadau gan ddisgyblion ysgolion cynradd a rhieni sydd wedi bod yn rhan o'r rhaglen Byd Gwaith, a chefnogi gweithgareddau yn y gymuned er mwyn targedu pobl ifanc y tu allan i'r ysgol.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i godi dyheadau addysgol **myfyrwyr a ddaw o gefndir gofal, neu rai â chyfrifoldebau gofalu** a lleihau'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag cymryd rhan mewn addysg uwch. Gwneir hynny trwy *"becynnau cymorth wedi'u personoli* a *strategaethau i helpu myfyrwyr sy'n rhieni i gyfuno eu hastudio â'u cyfrifoldebau teuluol",* (Yr Athro Syr Ian Diamond: Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru, Medi 2016):

- Bydd y Brifysgol, mewn partneriaeth ag Ymestyn yn Ehangach, yn parhau i ddarparu gwybodaeth benodol i fyfyrwyr sy'n gadael gofal ac i fyfyrwyr â chyfrifoldebau gofalu ar wefan Canolfan Ehangu Mynediad y Brifysgol (https://www.bangor.ac.uk/widening-access/carers.php.cy) ac ar wefan Gwasanaethau Myfyrwyr y Brifysgol (www.bangor.ac.uk/gwasanaethaumyfyrwyr). Bydd y gefnogaeth yn cynnwys canllawiau cyn fynediad yn ystod proses ymgeisio a derbyn y Brifysgol, gan gynnwys cymorth gyda cheisiadau am gyllid myfyrwyr. Mae cynghorwr penodol ar gael i roi cefnogaeth gyfrinachol drwy gydol y cwrs gradd. Bydd y Brifysgol yn parhau i ddarparu gwybodaeth am ddarpariaeth a chefnogaeth i dimau gadael gofal mewn awdurdodau lleol ar hyd a lled y wlad, ac i bawb sy'n gwneud cais i'r Brifysgol sy'n nodi eu bod yn gadael gofal.
- Mewn partneriaeth â CLASS Cymru, awdurdodau lleol a'r asiantaethau a'r sefydliadau perthnasol bydd y Brifysgol yn parhau i gefnogi'r rhai sy'n gadael gofal a myfyrwyr sy'n ofalwyr drwy gynnal digwyddiadau i godi eu dyheadau i ddod i addysg uwch, ac hefyd i'n helpu ni i ddeall pa gefnogaeth ychwanegol fyddai o gymorth pellach i hwyluso pontio i addysg uwch.
- Yn dilyn digwyddiad preswyl cyntaf llwyddiannus i ofalwyr ifanc yn 2017, bydd y Brifysgol yn parhau i gynnig hynny fel digwyddiad blynyddol i ddarpar fyfyrwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu. Bydd y Brifysgol yn gweithio mewn partneriaeth ag Ymestyn yn Ehangach ac awdurdodau lleol er mwyn cynnig digwyddiad preswyl tebyg i bobl ifanc mewn gofal, a bydd yn adeiladu ar y gefnogaeth bresennol ar gyfer myfyrwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal.
- Mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr, awdurdodau lleol a'r Brifysgol Agored yng Nghymru mae'r Brifysgol yn bwriadu treialu Ysgol Undydd i ofalwyr hŷn

i godi dyheadau ac ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sy'n benodol ar gyfer gofalwyr i ddychwelyd i astudio.

- Bydd y Brifysgol yn parhau i weithio gydag Undeb y Myfyrwyr i ddatblygu gweithgareddau allgyrsiol penodol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal a myfyrwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu ac i hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli i fyfyrwyr fentora myfyrwyr sy'n ofalwyr a rhai sy'n gadael gofal, yn ogystal â darpar fyfyrwyr iau o gefndiroedd gofal neu rai â chyfrifoldebau gofalu.

Bydd Canolfan Ehangu Mynediad y Brifysgol yn parhau i godi ymwybyddiaeth am ehangu cyfranogiad, cydlynu'r gwaith presennol a datblygu mentrau newydd, cydweithio'n agos â Phartneriaeth Ymestyn yn Ehangach Gogledd a Chanolbarth Cymru ac amrywiol bartneriaethau **cymunedol, rhanbarthol a chenedlaethol** (e.e. sefydliadau cyflogwyr, Gyrfa Cymru,  Rhwydweithiau AALl). Mae'r dull partneriaethol hwn yn cynnwys:

- Parhau i drefnu Fforwm Ehangu Mynediad Gogledd Orllewin Cymru sy'n cynnwys aelodau o staff y Brifysgol, y Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach, Grŵp Llandrillo Menai, ac aelodau o sefydliadau sy'n ymgysylltu â chymunedau a chodi dyheadau. Mae'r Fforwm yn cyfarfod yn rheolaidd i lunio partneriaethau a phrojectau newydd.
- Gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion academaidd y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr, i gefnogi'r gwaith o ddatblygu mentrau ehangu mynediad newydd: projectau ymchwil ehangu mynediad a gweithgareddau ymchwil wedi eu hariannu trwy KESS yn edrych ar effeithiolrwydd gweithgareddau ymgysylltu cyfrwng Cymraeg trwy Sefydliad Cydweithredol dros Ymchwil Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI) y Brifysgol a GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru); gwaith ymgysylltu cymunedol; a datblygu projectau dan arweiniad myfyrwyr i gefnogi myfyrwyr i ddod i'r Brifysgol.
- Parhau i weithio mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i hyrwyddo cyfleoedd cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys gweithio â'r sector ysgolion cynradd; codi dyheadau disgyblion sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, yn arbennig gofalwyr ifanc; a chynnal gweithdai codio.
- Parhau i weithio mewn partneriaeth â GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru) gyda'r bwriad o gynnig ymyraethau ar gyfer teuluoedd i godi dyheadau a chael gwared ar rwystrau i astudiaethau pellach, a hyrwyddo llythrennedd a rhifedd, yn enwedig gyda ffocws teulu cyfan, trwy e.e. gweithdai rhifedd a llythrennedd SAFMEDS a Headsprouts i blant a rhieni ar y cyd ag Ysgol Seicoleg y Brifysgol.
- Parhau i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau cymunedol, rhanbarthol a chenedlaethol eraill ar ystod o fentrau. Enghreifftiau o hyn fyddai gweithio gyda: Grŵp Llandrillo Menai i godi ymwybyddiaeth am fyddardod ac ehangu darpariaeth Iaith Arwyddion Prydain, a datblygu ymhellach y ddarpariaeth ddwyieithog ar gyfer Codio a Dylunio Gemau; Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Addysg Conwy (Tîm Lles Cymunedol), gan weithio gyda phobl ifanc a gafodd brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod; CAIS, GISDA, Cartrefi Cymunedol Gwynedd i gefnogi pobl ifanc a phobl hŷn â phroblemau iechyd meddwl; awdurdodau lleol Gwynedd a Môn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar brojectau gyda gofalwyr, rhai a chanddynt brofiad o fod mewn gofal ac unigolion sy'n wynebu rhwystrau i addysg oherwydd materion iechyd meddwl.

Bydd y Brifysgol yn parhau i ddarparu **cefnogaeth ariannol wedi'i thargedu** i *"gefnogi ehangu mynediad a chadw myfyrwyr o bob cefndir, yn cynnwys y rhai o gefndiroedd tlotach*, *teuluoedd incwm canolig gwasgedig"* (Yr Athro Syr Ian Diamond: Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru, Medi 2016):

- Cynllun bwrsariaeth i fyfyrwyr o gefndiroedd incwm isel, lle nad yw myfyrwyr eisoes yn gymwys i dderbyn pecyn diwygiedig Llywodraeth Cymru o gefnogaeth ariannol.
- Cefnogaeth ariannol ychwanegol i fyfyrwyr sy'n wynebu caledi ariannol annisgwyl tra bônt yn astudio, i'w helpu i barhau â'u hastudiaethau.
- Cronfeydd sefydlu i rai sy'n gadael gofal, i fyfyrwyr gyda chyfrifoldebau gofalu ac i rai sy'n ddigartref.
- Grantiau a ddyfernir trwy brawf modd i gefnogi myfyrwyr â phlant i ddod o hyd i lety addas i deuluoedd yn ystod eu cyfnod o astudio er mwyn cefnogi myfyrwyr sy'n rhieni i fynd i addysg uwch.
- Cyllid a ddyfernir trwy brawf modd ar gyfer teithiau maes i fyfyrwyr nad ydynt yn gallu mynd arnynt ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau ariannol, er mwyn sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn gallu cymryd rhan mewn teithiau maes a argymhellir fel rhan o'u cwrs, a thrwy hynny gyfoethogi eu dealltwriaeth o faes astudio academaidd a hybu sgiliau cyflogadwyedd.

Mae gan Brifysgol Bangor bartneriaeth strategol gref gyda Grŵp Llandrillo Menai sy'n cynnwys ymrwymiad i hwyluso dilyniant myfyrwyr trwy ymestyn cyfleoedd i fyfyrwyr yn y rhanbarth, o ran pynciau academaidd a galwedigaethol, ar draws lefelau cymwysterau a thrwy ehangu a hyrwyddo'r hyn y gall Addysg Uwch ei gynnig yn rhan amser yn y rhanbarth. Sefydlwyd Grŵp Ehangu Mynediad ar y cyd i edrych ar ffyrdd o wella cyfraniad y bartneriaeth at ehangu mynediad i addysg uwch, a gwella datblygiad sgiliau lefel uwch ymhlith myfyrwyr yn y rhanbarth. O dan ein partneriaeth strategol, mae'r ddau sefydliad yn gweithredu prentisiaethau gradd ac yn cynnig ehangu ein gallu yn hyn o beth hefyd, gan barhau i ddatblygu mentrau ar y cyd ym maes STEM, megis y gystadleuaeth Codio genedlaethol, a gynhelir gan Goleg Meirion Dwyfor a'r Brifysgol, ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd: bwriedir i'r gystadleuaeth hon fod yn ddigwyddiad cydweithredol cynaliadwy a gynhelir bob blwyddyn gan dargedu nifer o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol fel y'u diffinnir gan Brifysgol Bangor (Merched mewn STEM, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ac Ardaloedd POLAR4, a chyfrwng Cymraeg) a GLlM (ardaloedd daearyddol heb gynrychiolaeth ddigonol mewn Addysg Uwch, a chyfrwng Cymraeg hefyd).

Adeiladwyd Canolfan Prifysgol Grŵp Llandrillo Menai mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor ac agorodd yn 2014 i ddarparu'r cyfleusterau diweddaraf i fyfyrwyr addysg uwch Grŵp Llandrillo Menai. Bydd y bartneriaeth yn parhau i ddatblygu a dilysu graddau sylfaen a darpariaethau addysg uwch eraill ar draws ystod gynyddol o ddisgyblaethau, a thrwy hynny'n datblygu llwybrau i addysg uwch o addysg bellach a datblygu addysgeg ac ymchwil addysgeg o ansawdd uchel i gefnogi ein dyheadau i ddarparu addysgu rhagorol. Hyd yn hyn (2018-19), mae'r Brifysgol wedi dilysu 40 o gyrsiau addysg uwch ar gyfer Grŵp Llandrillo Menai. Mae dros 800 wedi cofrestru ar y cyrsiau hyn: 1 Gradd Meistr,19 gradd sylfaen, 11 gradd baglor 'atodol', 4 gradd baglor llawn, 3 Tystysgrif Addysg Uwch, ac 1 TAR (ôl-orfodol).

Bydd gwaith cydweithredol pellach yn parhau i roi sylw i Ehangu Mynediad (gan gynnwys Codio a gwaith gyda Gofalwyr ac unigolion a chanddynt brofiad o fod mewn gofal), Astudiaethau Byddardod a gweithgareddau Sicrhau Ansawdd. I gefnogi'r bartneriaeth hon a rhoi sylw i'r cyfleoedd sydd ar gael i ddysgwyr ar draws y rhanbarth, bydd y Brifysgol yn gweithio â Grŵp Llandrillo Menai i adolygu a chynllunio digwyddiadau hyrwyddo ar y cyd yn y rhanbarth, gan ganolbwyntio'n neilltuol ar ddarpar fyfyrwyr sy'n methu ag ymgymryd ag astudiaethau addysg uwch traddodiadol. Cynhaliwyd dwy gynhadledd addysg uwch ar y cyd ar gampysau Grŵp Llandrillo Menai yn y Rhyl a Llandrillo yn Rhos er mwyn darparu rhagor o wybodaeth i ddarpar fyfyrwyr am yr opsiynau addysg uwch sy'n cael eu cynnig yn y rhanbarth hwn er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud dewis gwybodus am eu dyfodol.

Bydd Undeb y Myfyrwyr yn datblygu ymhellach eu perthynas â Grŵp Llandrillo Menai ac yn ceisio cynnig rhagor o gyfleoedd i'w myfyrwyr fod yn rhan o brojectau, gan gynnwys edrych ar sut mae modd rhannu sgiliau ac adnoddau. Bydd Undeb y Myfyrwyr yn cadw mewn cysylltiad agos â Grŵp Llandrillo Menai i'w cynorthwyo â'u menter dan arweiniad myfyrwyr i roi cefnogaeth iechyd meddwl i fyfyrwyr, a rhannu arferion da a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu Strategaeth Iechyd Meddwl dan Arweiniad Myfyrwyr yn y Brifysgol. Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi sylw i'r flaenoriaeth sy’n ymwneud â Lles Myfyrwyr yn Llythyr Cylch Gwaith HEFCW, ac i flaenoriaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Ehangu Mynediad i Addysg Uwch

## Amcan 2: Ehangu Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg

Mae Prifysgol Bangor yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru yn y strategaeth 'Cymraeg 2050' (2017) ac mae'n gwbl ymrwymedig i chwarae ei rhan wrth wireddu nod Llywodraeth Cymru o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050. Mae datblygu ac atgyfnerthu ymchwil a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg wedi bod yn agweddau allweddol o strategaeth Prifysgol Bangor erioed. Ar hyn o bryd mae gan y sefydliad dros 2,500 o fyfyrwyr sy’n siarad neu’n dysgu Cymraeg ac mae tua 68% o staff y brifysgol naill ai’n medru’r Gymraeg neu’n ei dysgu. Fel prif ddarparwr addysg uwch cyfrwng Cymraeg, mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i gadw ei safle digymar drwy gryfhau ei darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws pob disgyblaeth, gan geisio datblygu ymhellach y meysydd hynny sy'n flaenoriaethau strategol i Lywodraeth Cymru, fel yr amlinellwyd yng Nghynllun Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Datgelwyd ym mwletin ystadegol Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018, 'Yr iaith Gymraeg mewn sefydliadau addysg uwch, 2016/17', fod gan y Brifysgol 220 o staff sy'n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r nifer hwn yn cynnwys bron i 30 aelod o staff a ariannwyd yn wreiddiol trwy gynllun staffio'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i barhau â’r holl ddatblygiadau a chynlluniau cyfrwng Cymraeg a gafodd eu dechrau gyda buddsoddiad gan y Coleg mewn staff academaidd, gan barhau i gryfhau ystod a dyfnder y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws y sefydliad o fewn cyd-destun y fframwaith cenedlaethol a ddatblygwyd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Bydd cynllun bwrsariaeth yn parhau i gael ei ddefnyddio i gymell myfyrwyr i wneud mwy na 40 credyd o'u hastudiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ychwanegol at gynllun ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a gyllidir ar wahân. Ynghyd â'r cymhellion

ariannol hyn pwysleisir fod y Gymraeg fel sgil werthfawr ar gyfer cyflogadwyedd, gan gydnabod "*cyfraniad allweddol darparwyr addysg uwch at ddatblygu gweithlu dwyieithog medrus iawn ac at baratoi ar gyfer cenedl ddwyieithog*" (Yr Athro Syr Ian Diamond: Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru, Medi 2016). Mae myfyrwyr yn parhau i gael eu hannog i gydnabod hyn trwy gyfrwng Gwobr Cyflogadwyedd Bangor ac maent yn ymwybodol o sut y gellir cymhwyso eu sgiliau iaith i'w gyrfaoedd yn y dyfodol. Bob mis Mawrth daw llu o gyflogwyr sy'n recriwtio personél dwyieithog i'r Ffair Swyddi Cymraeg, a gynhelir fel modd o amlygu'r cysylltiad rhwng datblygu lefel uchel o sgiliau iaith Gymraeg a chyflogadwyedd. Yn wir, mae data'r Arolwg Cyrchfan Ymadawyr Addysg Uwch yn dangos bod myfyrwyr sy'n astudio trwy'r Gymraeg ym Mangor yn llawer mwy tebygol o fod mewn cyflogaeth neu astudiaethau pellach, ac mewn cyflogaeth sgiliau uchel, na myfyrwyr eraill.

Er mwyn targedu myfyrwyr cyfrwng Cymraeg a hybu ein darpariaeth cyfrwng Cymraeg, bydd y Brifysgol yn parhau i gynhyrchu amrywiaeth lawn o ddeunydd marchnata cyfrwng Cymraeg. Bydd hwn yn ategol i'r gwaith mwy cyffredinol a wneir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol o ran tynnu sylw at fanteision addysg uwch cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys prosbectws cyfrwng Cymraeg, taflenni pwnc-benodol, negeseuon e-bost, newyddlenni a deunyddiau ar-lein sy'n amrywio o wybodaeth ar y we, cyfrifon cyfryngau cymdeithasol a fideos YouTube. Menter hyrwyddo arbennig o bwysig sydd wedi'i hanelu at fyfyrwyr sydd newydd eu recriwtio yw'r blwyddlyfr lliw llawn a gynhyrchir o'r holl fodiwlau cyfrwng Cymraeg yn y flwyddyn gyntaf a chaiff ei ddosbarthu i bob myfyriwr sy'n byw yng Nghymru cyn yr Wythnos Groeso. Ar ôl codi ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth ymhlith myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg na fyddant efallai wedi ystyried yr opsiwn Cymraeg, caiff dilysrwydd yr opsiwn hwnnw ei atgyfnerthu yn ystod yr Wythnos Groeso mewn sesiwn groesawu benodol cyfrwng Cymraeg ac mewn nifer o sesiynau sgiliau Cymraeg. Caiff myfyrwyr eu hatgoffa hefyd am fwrsariaethau cyfrwng Cymraeg y Brifysgol, yn ogystal ag ysgoloriaethau ychwanegol y Coleg Cymraeg sydd ar gael mewn meysydd pwnc penodol. Yn 2017/18, dyfarnwyd cyfanswm o 157 o ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i fyfyrwyr Bangor.

Yn y cyd-destun ehangach, mae statws y Brifysgol fel prif ddarparwr addysg uwch cyfrwng Cymraeg yn parhau i gael ei bwysleisio trwy weithgareddau parhaus a phresenoldeb mewn digwyddiadau megis Eisteddfod Genedlaethol Cymru, ac ymweliadau gan arbenigwyr pwnc i glystyrau o ysgolion ledled Cymru.

Mae nifer o amcanion wedi cael eu llunio i roi sylw i'r mesurau canlynol a nodir yng nghanllawiau HEFCW:

- Cefnogi a chynyddu cyfraddau dal gafael ar fyfyrwyr a'r nifer sy'n cwblhau cyrsiau, yn enwedig rhai o gymdogaethau cyfranogiad isel, plant sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a gofalwyr.
- Gwella profiad addysg uwch myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys gweithgareddau i hybu profiad rhyngwladol.
- Darparu cefnogaeth academaidd a lles o ansawdd uchel i fyfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

- Cefnogi myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i symud ymlaen i gyflogaeth neu astudiaethau pellach.

## Amcan 3: Rhoi Cefnogaeth Academaidd o Ansawdd Uchel i Gynyddu Cyfraddau Dal Gafael a Chwblhau ymhlith Grwpiau Sydd Heb Gynrychiolaeth Ddigonol

*"Mae ehangu mynediad a chyfranogiad mewn addysg uwch yn ymwneud â helpu myfyrwyr i gyrraedd sefydliadau a'u cynorthwyo i aros a llwyddo"* (Yr Athro Syr Ian Diamond: Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru, Medi 2016).

Bydd parhau i fuddsoddi yng Nghanolfan Sgiliau Astudio'r Brifysgol yn cefnogi myfyrwyr i gwblhau eu hamcanion dysgu'n llwyddiannus ac yn cyfrannu at wella cyfraddau dal gafael ar fyfyrwyr. Bydd y Ganolfan yn parhau i gynnig ystod eang o weithgareddau cyffredinol ac yn ymwneud â disgyblaethau penodol gyda'r bwriad o wella canlyniadau'n ymwneud â myfyrwyr, gan gynnwys cynnydd, dal gafael ar fyfyrwyr, cwblhau a dosbarthiadau gradd.

Bydd Canolfan Sgiliau Astudio'r Brifysgol yn parhau i gynnal gweithgareddau'n cynnwys apwyntiadau unigol i feithrin sgiliau ysgrifennu ac astudio, gwasanaeth ymgynghori ar fathemateg ac ystadegau, grwpiau ysgrifennu, adnoddau ar-lein, a gweithdai sgiliau academaidd (yn canolbwyntio ar reoli amser a thasgau, ysgrifennu, ymchwil, cyflwyno a sgiliau mewn arholiadau). Mae'r Ganolfan wedi gweld cynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn yn y defnydd o'i darpariaeth, a lefelau uchel o effaith gadarnhaol yn ôl tystiolaeth o adborth myfyrwyr.

Bydd y Ganolfan yn parhau i gynnwys myfyrwyr yn y broses o ddatblygu ei rhaglen o weithdai ac, yn unol â'n hymrwymiad i weithio mewn partneriaeth â myfyrwyr, bydd yn parhau i gynnal Cynllun Mentora Ysgrifennu gan Gyfoedion lle'r hyfforddir myfyrwyr i roi cefnogaeth i'w cyfoedion ddatblygu sgiliau ysgrifennu academaidd. Cefnogir y mentoriaid eu hunain drwy raglen oruchwylio sy'n cynnwys sesiynau a gaiff eu ffilmio, cylchoedd adfyfyrio, cyfarfodydd tîm a blog dan arweiniad cyfoedion. Mae'r Ganolfan yn cefnogi myfyrwyr sy'n astudio o bell ac yn hyfforddi Mentoriaid Cyfoed i ddefnyddio *Skype for Business* er mwyn hwyluso apwyntiadau ar-lein. Caiff y ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio i ffwrdd o brif gampws Bangor ei gwella trwy ddatblygu recordiadau rhyngweithiol o'r rhaglen o weithdai generig a thrwy greu safle Blackboard ar gyfer myfyrwyr o bell.

Mae'r tîm Sgiliau Astudio yn gweithio ochr yn ochr â staff mewn ysgolion academaidd i ymgorffori sgiliau academaidd yn rhan o'r cwricwlwm, ac yn 2017-18 cynyddodd nifer yr ysgolion (n.19) y mae'r tîm yn cydweithredu â nhw gan 26% a chynyddodd nifer y modiwlau (n .53) y mae'r tîm yn eu cefnogi gan 4%. Mae dadansoddiadau o gyrhaeddiad myfyrwyr ar y rhaglenni sy'n cael eu cefnogi yn dangos effaith o ran bod cynnydd yng nghanran y myfyrwyr sy'n cael graddau ail ddosbarth uwch a bod gostyngiad yn y nifer nad ydynt yn llwyddo. Bydd y Ganolfan Sgiliau Astudio'n parhau i gyfrannu at wreiddio sgiliau academaidd yn ymwneud â disgyblaethau penodol o fewn y cwricwlwm a bydd yn cynyddu nifer y modiwlau a gweithdai unigol y mae wedi'u datblygu i Ysgolion

academaidd.  Yn ychwanegol at addysgu o fewn ysgolion academaidd, bydd y Ganolfan yn parhau i ddarparu gwasanaeth ymgynghori i staff academaidd ac i hyrwyddo model lle mae cyd-addysgu a chynllunio'n ei galluogi i addasu maint neu raddfa ei gweithgareddau.

Bydd Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau'r Brifysgol yn parhau i ddarparu rhagor o gefnogaeth sgiliau gwybodaeth. Mae Llyfrgellwyr Cefnogaeth Academaidd yn cyflwyno sesiynau unigol ac yn ymgorffori sesiynau sgiliau ar draws pob maes pwnc; mae'r rhain yn cynnwys llythrennedd digidol, cyfeirnodi, gwerthuso dysgu, addysgu ac adnoddau ymchwil. Mae'r gwasanaeth hefyd yn datblygu amrywiaeth o wasanaethau cefnogi a thaflenni i fyfyrwyr sy'n defnyddio'r ystafelloedd technoleg gynorthwyol yn y llyfrgelloedd, yn ogystal â darparu dogfennau a chopïau o erthyglau cyfnodolion a phenodau llyfrau mewn fformat amgen.

Bydd Prifysgol Bangor yn parhau i ddatblygu dadansoddeg dysgwyr a chynllun asesiadau atodol. Gwahoddir myfyrwyr na allant symud ymlaen oherwydd iddynt fethu un neu ragor o fodiwlau i gyflwyno gwaith i'w ailasesu, yn dilyn rhaglen gefnogi strwythuredig, a gynhelir yn gynnar yn yr haf pan fydd llawer o Ysgolion yn cynnig sesiynau galw heibio ar gyfer modiwlau penodol a sesiynau galw heibio sy'n cynnig cefnogaeth astudio. Ymhellach, caiff myfyrwyr y gwelir eu bod mewn perygl o fethu ar sail asesiadau cynnar yn Semester 1, eu cyfeirio at y Ganolfan Sgiliau Astudio ac i gael trafodaeth gyda'u Tiwtor Personol. Rhoddir gwybod i fyfyrwyr sydd wedi methu'r flwyddyn am ddewisiadau sydd ar gael iddynt i newid cyfeiriad, megis newid eu gradd o fewn eu hysgol bresennol, trosglwyddo i radd newydd y tu allan i'r ysgol, neu opsiynau addas eraill.

Mae'r Ganolfan Gwella Addysgu a Dysgu (CELT), yr Uned Ennyn Diddordeb Myfyrwyr, a Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth y Brifysgol yn parhau i gydweithio ar system i fonitro presenoldeb ac ar allu'r Brifysgol i ymdrin â dadansoddeg dysgu. Ar sail egwyddorion creu system sy'n gefnogol, clir a hawdd ei defnyddio, bydd y llwyfan yn cynorthwyo staff i roi ymyriadau cynnar ar waith gyda myfyrwyr sy'n ymddangos fel pe baent yn cael trafferth ymgysylltu. Mae graff ymgysylltu unigol pob myfyriwr ar gael iddynt trwy fewnrwyd y Brifysgol, FyMangor, ac fe'u hanogir i edrych arno yn rheolaidd.

Yn sylfaen i'r dechnoleg mae system o gefnogaeth gan staff. Mae'r ymdrech hon gan y Brifysgol gyfan wedi cael ei chydlynu gan CELT a'r Uned Ennyn Diddordeb Myfyrwyr ac mae wedi cynnwys pob ysgol academaidd, ac mae'n ategu'r dull o fonitro presenoldeb yn ganolog. Caiff graffiau ymgysylltu'r myfyrwyr eu gwirio'n rheolaidd (yn wythnosol ar ddechrau'r semester) gan Gyfarwyddwyr Ennyn Diddordeb Myfyrwyr yr Ysgolion ac Uwch Diwtoriaid, sy'n penderfynu ar y strategaethau gorau ar gyfer ymwneud â myfyrwyr sy'n colli diddordeb.

Caiff y Gwasanaeth Gadael Astudiaethau Dros Dro ei letya o fewn y Gwasanaethau Myfyrwyr ac mae'n cefnogi myfyrwyr sy'n ystyried tynnu'n ôl yn wirfoddol o'u Rhaglen. Mae'r Gwasanaeth Gadael Astudiaethau Dros Dro yn cefnogi myfyrwyr i wneud dewis gwybodus am eu dyfodol. Mae staff y gwasanaeth yn cwrdd â myfyrwyr yn unigol ac yn trafod y gwahanol opsiynau sydd ganddynt. Fel arfer, bob blwyddyn bydd tua thraean y myfyrwyr yn dewis parhau â'u hastudiaethau ar ôl derbyn cefnogaeth gan y gwasanaeth hwn (37% yn 2017/18).

Mae'r gwaith o brif-ffrydio'r projectau gwella hyn yn cael ei adlewyrchu yn ein strategaeth addysgu a dysgu dan arweiniad myfyrwyr. Mae'r Strategaeth yn ymrwymo i fframwaith cyfannol i hyrwyddo a chefnogi dal gafael ar fyfyrwyr, gan gynnwys y cyfnod ail-asesu gyda chefnogaeth yn ystod yr haf, a'r gwaith parhaus i ddatblygu dadansoddeg dysgu ar draws y Brifysgol i fonitro ymgysylltiad myfyrwyr yn effeithiol, gan greu fframwaith ymyrraeth cadarnhaol ac effeithiol, a nodi tueddiadau a rhagfynegwyr er mwyn targedu cefnogaeth. Mae'r Strategaeth hefyd yn cydnabod yr angen i sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu cynefino'n well i amgylchedd dysgu addysg uwch, gan roi sylw penodol i ddatblygu sgiliau myfyrwyr fel dysgwyr annibynnol.

Un agwedd hanfodol wrth gefnogi astudiaethau cyfrwng Cymraeg ym Mangor yw sicrhau mynediad at ystod eang o adnoddau dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae llawer o adnoddau o'r fath ar gael, yng nghasgliadau helaeth y Brifysgol ei hun, a thrwy borth adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'r Brifysgol hefyd yn weithgar yn nodi meysydd lle gellid gwella'r ddarpariaeth o adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg gyda thechnoleg a meddalwedd yn ogystal â deunydd printiedig, ac yn gweithio gyda phartïon perthnasol i roi sylw i'r meysydd hyn. Yn 2018, er enghraifft, cyhoeddodd dau academydd blaenllaw o Ysgol Cerddoriaeth Prifysgol Bangor y Cydymaith i Gerddoriaeth Cymru, sy'n cwmpasu canrifoedd o draddodiad cerddorol yng Nghymru. Cyhoeddodd dau ddarlithydd o Fangor hefyd, yn yr un flwyddyn, y ddau e-werslyfr cyntaf mewn cyfres o adnoddau Cymdeithaseg amlgyfrwng. Bydd y ddau gyhoeddiad, sydd wedi eu hariannu gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, nid yn unig yn diwallu anghenion myfyrwyr Bangor, ond hefyd anghenion myfyrwyr cyfrwng Cymraeg ledled Cymru, yn y sector ysgolion a phrifysgolion, ac yn wir, yn achos y cydymaith i Gerddoriaeth, cynulleidfa leyg niferus.

Ochr yn ochr â chyhoeddi gwerslyfrau ac adnoddau, ffocws gwaith y terminolegydd sydd wedi ei lleoli yn y Brifysgol, yng Nghanolfan Bedwyr, ac sy'n cael ei hariannu gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yw datblygu geirfaoedd pwnc-benodol. Gan weithio'n agos gydag arbenigwyr pwnc o'r sector Addysg Uwch a thu hwnt, caiff y gwaith ei ledaenu trwy borth terminoleg ar-lein a thrwy ap poblogaidd (Ap Geiriaduron). Mae'r gwaith hwn yn rhoi sylw uniongyrchol i un o bryderon mwyaf y myfyrwyr hynny sy'n siarad Cymraeg ac sy'n amharod i ddewis opsiynau cyfrwng Cymraeg.

Rhwystr arall a all atal myfyrwyr rhag dewis astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yw diffyg hyder cyffredinol yn eu sgiliau Cymraeg eu hunain. Mewn ymgais i roi sylw i hyn, gwnaed cynnydd sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf wrth ymgorffori sesiynau sgiliau iaith Gymraeg yn rhan o fodiwlau sgiliau yn y flwyddyn gyntaf mewn nifer o ddisgyblaethau, o'r Gwyddorau Cymdeithas, y Gwyddorau Naturiol a'r Gwyddorau Chwaraeon i Astudiaethau Busnes a Cherddoriaeth. Mae rhaglen lawn o weithdai sgiliau iaith hefyd wedi cael eu datblygu i gefnogi'r nifer gynyddol o fyfyrwyr sy'n ymgymryd â Thystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, cymhwyster sy'n cael ei gydnabod gan nifer fawr o gyflogwyr yng Nghymru fel tystiolaeth o sgiliau iaith myfyrwyr a'u gallu i weithio trwy gyfrwng Cymraeg.

Mae Prifysgol Bangor yn ymrwymedig i'r canlynol "*dyfodol iachach i Gymru*" a "*cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl*" (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015).

Mae gan Brifysgol Bangor enw da am gynnig cefnogaeth o ansawdd uchel i fyfyrwyr anabl. Yn ogystal â chynnal lefelau uchel o gefnogaeth ganolog i fyfyrwyr anabl, bydd y Brifysgol yn parhau i ddatblygu ei harfer cynhwysol yn yr ysgolion academaidd trwy wrando ar adborth myfyrwyr ac ymgynghori â staff arbenigol yn y Gwasanaethau Anabledd. Yn unol â'r hyn a welir yn y sector, mae nifer y myfyrwyr gyda chyflyrau iechyd meddwl sy'n dod i'r Brifysgol wedi cynyddu. Byddwn yn parhau i ddatblygu ac ymestyn ein darpariaeth i sicrhau dull cyfannol prifysgol-gyfan o ymdrin â lles meddyliol, sy'n ceisio hybu gwytnwch, adferiad, perchnogaeth a grymuso.

Dyma yw nodau'r Grŵp Strategaeth Iechyd Meddwl Myfyrwyr:

- Ymchwilio i ddatblygu gweithgareddau sy'n meithrin gwytnwch a hunanddibyniaeth myfyrwyr
- Meithrin dull prifysgol gyfan o hyrwyddo lles meddyliol.
- Parhau i gyflwyno rhaglen Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl i staff ar draws y Brifysgol, gan flaenoriaethu Undeb y Myfyrwyr a staff allweddol eraill.
- Hyrwyddo ffyrdd hyblyg o ymateb i fyfyrwyr sy'n ceisio cymorth iechyd meddwl.
- Parhau i gasglu data perthnasol sy'n cynorthwyo ein gwybodaeth am afiechyd meddwl ymysg myfyrwyr, nifer yr achosion a chanlyniadau.
- Annog cyfranogiad myfyrwyr a budd-ddeiliaid eraill.
- Hyrwyddo gwytnwch sefydliadol wrth asesu ac ymateb i argyfyngau iechyd meddwl.
- Cefnogi a chynghori staff Undeb y Myfyrwyr wrth ddatblygu gweithgareddau cefnogi dan arweiniad cydfyfyrwyr.
- Gwella mwy ar y ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer iechyd meddwl myfyrwyr, gan gynnwys edrych ar adnoddau iaith Gymraeg ymarferol hyfyw.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i lunio strategaeth iechyd meddwl newydd dan arweiniad myfyrwyr a fydd yn hyrwyddo'r nodau uchod ymhellach mewn cydweithrediad ag Undeb y Myfyrwyr a'r myfyrwyr yn ehangach. Mae rhai enghreifftiau ymarferol o'r gwaith o gyflawni'r amcanion hyn yn cynnwys recriwtio mwy o gynghorwyr iechyd meddwl er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn gallu cael cefnogaeth briodol yn ddidrafferth yn ystod eu hastudiaethau. Bydd y Cynghorwyr Iechyd Meddwl yn cynnal sesiynau galw heibio gydag Undeb y Myfyrwyr i godi ymwybyddiaeth ac annog myfyrwyr i fanteisio ar y gefnogaeth sydd ar gael. Gwneir defnydd da iawn ohonynt gan fyfyrwyr. Mae cyflwyno ffurflen hunanasesu lle mae Cynghorwyr Iechyd Meddwl yn brysbennu myfyrwyr mewn modd mwy priodol wedi rhyddhau ychwaneg o apwyntiadau ac wedi helpu i flaenoriaethu amser cynghorwyr yn well.

Mae'r Cynghorwyr Iechyd Meddwl yn darparu rhaglen dreigl o hyfforddiant cymorth cyntaf iechyd meddwl ar gyfer pob categori o staff. Mae'r cwrs hwn, a achredir yn allanol, yn datblygu sgiliau staff a'u galluogi i gefnogi ac ymateb i faterion iechyd meddwl. Er mwyn ein galluogi i gefnogi cymaint o staff â phosibl o ran meithrin eu hymwybyddiaeth o'r ffordd orau o gefnogi lles meddyliol myfyrwyr, rydym wedi defnyddio pecyn hyfforddiant allanol i ategu ein hyfforddiant wyneb yn wyneb i staff.

Mae'r Brifysgol hefyd, mewn cydweithrediad â'r Undeb Myfyrwyr, wedi buddsoddi mewn pecyn cymorth 24/7 i fyfyrwyr: Big White Wall (www.bigwhitewall.com) Mae aelodau'r Grŵp Strategaeth Iechyd Meddwl Myfyrwyr hefyd yn gweithio'n strategol ar lefelau sefydliadol a chenedlaethol i ddylanwadu ar wneuthurwyr polisi ar lefel y Cynulliad Cenedlaethol i gydnabod pwysigrwydd darparu systemau a gwasanaethau iechyd meddwl digonol yn y Gymraeg, ac yn ymateb i ddogfennau polisi cenedlaethol a chynigion diweddar: http://www.universitiesuk.ac.uk/policy-and-analysis/stepchange/Pages/framework.aspx a 'Not by Degrees' IPPR 2017
Gwasanaeth Cwnsela.

Bydd Undeb y Myfyrwyr yn parhau i flaenoriaethu gwaith gydag Iechyd Meddwl Myfyrwyr, gan ddatblygu mentrau pwrpasol dan arweiniad myfyrwyr ochr yn ochr â mentrau penodol sydd wedi'u hanelu at siaradwyr Cymraeg ar y cyd â'r bwrdd iechyd lleol ac elusennau, darpariaeth ar-lein trwy'r Big White Wall ac ymgyrchoedd gwybodaeth a chanllawiau ar adegau allweddol o'r flwyddyn. Hefyd, fel yr amlinellwyd yn yr adran sy'n nodi'r sail resymegol strategol, mae Undeb y Myfyrwyr ar hyn o bryd yn cydweithredu â'r Brifysgol i gynhyrchu strategaeth iechyd meddwl newydd sbon dan arweiniad myfyrwyr. Mae grŵp llywio staff-myfyrwyr wedi'i sefydlu a chynhelir nifer o sesiynau gyda myfyrwyr i'w galluogi i roi arweiniad i'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth ochr yn ochr â'r Brifysgol.

Mae gan Wasanaeth Cwnsela'r Brifysgol gynllun gweithredu sy'n cael ei adolygu'n flynyddol. Mae 5 prif faes yn y cynllun:

- Parhau i ddarparu ystod o ymyriadau therapiwtig a seicolegol effeithiol i fyfyrwyr.
- Datblygu a chefnogi gweithgareddau sy'n meithrin gwytnwch a hunanddibyniaeth emosiynol myfyrwyr.
- Parhau i fonitro, mesur a dangos effeithiolrwydd, effaith a gwerth y gwasanaeth i'r Brifysgol a'i myfyrwyr.
- Gwella llwybrau atgyfeirio priodol ac adeiladu ar bartneriaethau cydweithredol gyda thimau, gwasanaethau ac adrannau eraill.
- Cynnal a gwella lles a sgiliau proffesiynol y staff fel eu bod yn gallu diwallu'r gofynion o ran y gwasanaeth a'r ddarpariaeth.

Mae'r Gwasanaeth Cwnsela wedi amrywio'r gefnogaeth y mae'n ei rhoi fel bod sesiynau grŵp, hyfforddiant ymwybyddiaeth ofalgar ac adnoddau ar-lein yn rhan o ddarpariaeth y gwasanaeth. Cafodd sesiwn hyfforddi seico-addysgol ar 'Adeiladu Gwytnwch Emosiynol' ei datblygu fel man cychwyn defnyddiol i fyfyrwyr sydd eisiau datblygu strategaethau effeithiol i ddelio â phroblemau bob dydd. Mewn cydweithrediad â'r adran Seicoleg Glinigol yn y Brifysgol, mae cyrsiau hyfforddi ar reoli'r emosiynau yn defnyddio Therapi Ymddygiadol Ddialectig wedi cael eu datblygu fel sesiwn grŵp ac mae defnyddwyr presennol y gwasanaeth yn cael eu gwahodd i fynychu, ar sail eu haddasrwydd ar gyfer y gefnogaeth ychwanegol hon. Mae'r grŵp wedi sicrhau gwell canlyniadau clinigol i rai o'n myfyrwyr mwyaf cymhleth ac sydd fwyaf mewn perygl, ac felly mae grwpiau ychwanegol wedi cael eu cynnal. Cyrhaeddodd y fenter hon y rhestr fer yn y Times Higher Awards 2018 yn y categori Outstanding Support for Students. Mae cyrsiau Lleihau Straen sy'n seiliedig ar ymwybyddiaeth ofalgar yn cael eu cynnal ar gyfer pob myfyriwr ac mae deunyddiau penodol wedi cael eu datblygu ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol. Mae pob

cwnselydd yn ymwneud â phroject canlyniadau a gwerthuso er mwyn cynnwys yr holl staff yn y broses o ddatblygu tystiolaeth am werth ac effaith eu gwaith gyda chleientiaid ac ar draws y Brifysgol. Rydym yn parhau i gydweithio â'r tîm iechyd meddwl cymunedol, gan ddarparu swyddfa ar eu cyfer i weld myfyrwyr sy'n gleientiaid iddynt, ac rydym yn cwrdd â nhw'n rheolaidd i rannu dulliau gweithredu. Rydym hefyd wedi datblygu project ymchwil gyda'n Ysgol Seicoleg i fesur effaith yr ymyriadau ar wytnwch emosiynol ein myfyrwyr. Mae'r Pennaeth Gwasanaeth hefyd yn gweithio'n agos gyda 'Thimau Gweithredu Lleol' y Bwrdd Iechyd lleol gan edrych ar wella gwasanaethau iechyd meddwl i fyfyrwyr ac i'r gymuned gyfan.

## Amcan 4: Hyrwyddo Amgylchedd ac Addysg Gynhwysol

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i "*Cymru o gymunedau cydlynus*" sy'n meithrin amgylchedd *"atyniadol, hyfyw, a diogel sydd â chysylltiadau da*" (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015).

Parheir i feithrin cydraddoldeb a chyfle i'r holl fyfyrwyr drwy fuddsoddi i roi mynediad i'r holl glybiau chwaraeon, cymdeithasau a gweithgareddau gwirfoddoli yn Undeb y Myfyrwyr yn rhad ac am ddim i'r myfyrwyr hynny sydd am fanteisio arnynt, waeth beth fo eu gallu i dalu. Bydd hyn yn rhoi sylw i anghysonderau o ran mynediad a chyfle a bydd yn gwella cyfraddau dal gafael ar fyfyrwyr hefyd gan fod myfyrwyr sy'n ymwneud â gweithgareddau allgyrsiol yn aml yn fwy tebygol o barhau â'u hastudiaethau. Bydd parhad cyllid yn sicrhau bod gan glybiau a chymdeithasau gyfleusterau ac offer pwrpasol ar gyfer eu gweithgareddau, a darperir cyllid hefyd i brynu eitemau unigol o offer mwy a fyddai, fel arall, efallai allan o gyrraedd gweithgareddau codi arian clybiau neu gymdeithasau unigol neu grantiau gan Undeb y Myfyrwyr ei hun. Bydd cyllid yn parhau i fod ar gael i brynu'r yswiriant gorau posib i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â gweithgareddau trwy Undeb y Myfyrwyr, gan sicrhau bod myfyrwyr yn cael y gefnogaeth orau posib pe baent yn cael eu hanafu wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau. Pen draw yr ymrwymiadau hyn oedd fod Prifysgol Bangor wedi ennill gwobr What Uni Student Choice Award 2017 am y Clybiau a'r Cymdeithasau gorau mewn Undeb Myfyrwyr.

Mae un rhan o dair o'n myfyrwyr yn cymryd rhan yn chwaraeon Undeb y Myfyrwyr, a pharheir i weld tystiolaeth o'n hymrwymiad i gynhwysiant ym maes chwaraeon gyda gweithgareddau megis hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd i gapteiniaid clybiau, a'r ymgyrch 'Dod allan mewn chwaraeon' i ddileu homoffobia mewn chwaraeon. Rydym yn sylweddoli y gall llawer mwy o fyfyrwyr nad ydynt yn cymryd rhan mewn chwaraeon traddodiadol gael budd o fyw'n egnïol, ac fel rhan o'n hymrwymiad i hyrwyddo lles ein myfyrwyr, byddwn yn buddsoddi mewn darpariaeth sy'n mynd tu hwnt i chwaraeon traddodiadol i gynnwys gweithgareddau anghystadleuol, neu led-gystadleuol, a fydd yn apelio'n fwy eang at y myfyrwyr yn gyffredinol. Ein dyhead yw darparu amrywiaeth eang o weithgareddau strwythuredig fel y gall unrhyw fyfyriwr brofi'r manteision iechyd a lles wrth fyw bywyd egnïol.

Mae Cynllun Arweinwyr Cyfoed Prifysgol Bangor yn rhan lwyddiannus o ddull Prifysgol Bangor o estyn croeso cynnes i fyfyrwyr newydd. Fel rhan o'r cynllun mae tua 450 o Arweinwyr Cyfoed yn croesawu myfyrwyr newydd i'r Brifysgol. Trefnir y cynllun yn

ganolog gan y Gwasanaethau Myfyrwyr ac mae aelod o staff penodol ym mhob ysgol academaidd yn gyfrifol am weithredu'r cynllun o fewn yr Ysgol. Mae'r strwythur deuol hwn yn ffordd o safoni recriwtio, hyfforddi ac amlygrwydd ar draws y Brifysgol ac yn caniatáu hyblygrwydd i bob Ysgol drefnu eu croeso mewn modd sy'n diwallu anghenion penodol eu myfyrwyr.

Myfyrwyr sydd wedi gwirfoddoli ac sydd wedi cael eu hyfforddi i helpu myfyrwyr newydd i ymgynefino â bywyd prifysgol yw Arweinwyr Cyfoed. Mae integreiddio cymdeithasol ac academaidd yn rhan o'u swyddogaeth; maent yn helpu myfyrwyr newydd i wneud ffrindiau trwy gyfrwng amrywiaeth o ddigwyddiadau cymdeithasol ac yn eu tywys o gwmpas y ddinas a'r Brifysgol. Maent yn rhoi gwybodaeth i fyfyrwyr newydd am fyw ym Mangor yn ogystal ag am y cwrs ac ymdopi a'u gwaith astudio.

Nod y cynllun yw darparu ar gyfer anghenion gwahanol fyfyrwyr ac mae pwyslais cryf yn yr hyfforddiant ar gynhwysiant. Caiff Arweinwyr Cyfoed eu hannog i weithio ochr yn ochr â staff yr Ysgol i lunio dewis amrywiol o weithgareddau. Gofynnir iddynt fod yn ymwybodol o faterion megis oedran ac ethnigrwydd, ac ati, yn ogystal ag edrych ar amser, lleoliad a phris gweithgareddau fel bod rhywbeth sy'n addas i bawb. I'w helpu i wneud hyn, caiff yr Arweinwyr Cyfoed wybod am weithgareddau a drefnir yn ganolog sy'n ategu'r hyn y mae ysgolion unigol yn ei gynnig.

Mae hyfforddiant ar gyfer Arweinwyr Cyfoed yn orfodol ac yn ystod yr hyfforddiant byddant yn edrych ar nifer o senarios gan ystyried sut y gellir rheoli'r sefyllfaoedd hynny ac at bwy y gellir cyfeirio myfyrwyr newydd. Mae'r sefyllfaoedd hyn yn amrywio o fyfyrwyr sy'n cael trafferth ymgartrefu i faterion meddygol ac academaidd yn ogystal â materion lles personol. Rydym yn darparu ystod amrywiol o astudiaethau achos; er enghraifft, rydym yn cynnwys un sy'n ymwneud â chefnogi myfyriwr sy'n gadael gofal fel y gall yr Arweinwyr Cyfoed ddysgu am rai o'r materion y gall y rhai sy'n gadael gofal eu hwynebu ac am y cymorth a'r gefnogaeth ychwanegol sydd ar gael iddynt yn y Brifysgol.

Gan adeiladu ar y Cynllun Arweinwyr Cyfoed sydd wedi hen sefydlu, mewn cydweithrediad rhwng Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol, byddwn yn parhau i gynnig amrywiaeth eang o ddigwyddiadau cymdeithasol di-alcohol ar gyfer y penwythnos cyrraedd. Mae'r rhaglen yn cynnwys digwyddiadau yn ystod y dydd wedi eu hanelu at fyfyrwyr newydd sy'n rhieni hefyd er mwyn eu cefnogi i ganfod ffyrdd o gymdeithasu. Mae Undeb y Myfyrwyr yn cynnal grwpiau penodol ar gyfer pobl o wahanol grefyddau, LHDTC+, siaradwyr Cymraeg a myfyrwyr rhyngwladol, ymysg eraill, fel y gall myfyrwyr o bob cefndir ganfod y ffordd fwyaf cyfforddus iddynt wneud ffrindiau pan fyddant yn cyrraedd Bangor i ddechrau. Byddwn yn parhau i gynnig dewisiadau eraill gyda'r nos yn hytrach na mynd i dafarnau a chlybiau, megis chwarae gemau a dangos ffilmiau'n hwyr yn y nos i fyfyrwyr yn unig yn Pontio, sef canolfan gelfyddydau'r Brifysgol.

Mae gan y Brifysgol aelod penodol o staff sy'n gweithio ar ddatblygu cymuned gynhwysol yn y Brifysgol. Bydd y Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr yn rhoi dull gweithredu strategol ar waith ar draws y Brifysgol i sicrhau bod yma gampws diogel a chynhwysol yn unol ag argymhellion diweddar Tasglu UUK ar droseddau casineb, aflonyddu a thrais yn erbyn menywod. Gall y Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Myfyrwyr roi cymorth unigol i fyfyrwyr sy'n rhoi gwybod am achosion o aflonyddu, troseddau casineb neu drais rhywiol, ac mae'n cydweithio â gwasanaethau cefnogi eraill, staff academaidd, swyddogion disgyblu ac asiantaethau allanol i ddarparu un pwynt cyswllt i fyfyrwyr sy'n rhoi gwybod am ddigwyddiadau o'r fath. Mae'r swydd hefyd yn cynnwys rhoi cyngor i staff ar sut orau i gefnogi'r myfyrwyr sydd wedi cael profiad o aflonyddu, troseddau casineb neu drais rhywiol, a gweithio gyda'r grwpiau tasg perthnasol yn y Brifysgol i ddatblygu polisïau, hyfforddiant staff a chyngor a gwybodaeth i sicrhau bod gan y sefydliad ddull cyson o ymdrin â'r materion hyn.

Bydd y Brifysgol yn cydweithredu ag Undeb y Myfyrwyr i hwyluso sefydlu Grŵp Cyd-ofalwyr, a fydd, yn y pen draw, yn cael ei redeg yn gyfan gwbl gan fyfyrwyr sy'n ofalwyr. Bydd Canolfan Ehangu Mynediad y Brifysgol yn gyfrifol am dudalen Instagram i rannu gwybodaeth yn ôl yr angen pan ofynnir am hynny gan fyfyrwyr sy'n ofalwyr.

Mae astudio yn y Brifysgol hon yn rhoi cyfle i fyfyrwyr gyfrannu at "*gymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg*" (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) trwy ymwneud â phrofiadau diwylliannol newydd. Byddwn yn parhau i gefnogi cymdeithas dysgwyr Cymraeg UMCB (yr Undeb Myfyrwyr Cymraeg) a byddwn yn sicrhau bod y rhwydwaith hwn i fyfyrwyr yn cael ei hyrwyddo'n dda gan ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr Cymraeg ymarfer a defnyddio'r iaith tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae'r Brifysgol yn cynnig dosbarthiadau Cymraeg am ddim i fyfyrwyr fel rhan o raglen Ieithoedd i Bawb y Brifysgol.

Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i gyflawni ei dyletswyddau cydraddoldeb, fel y pennwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010:

- Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail nodwedd warchodedig;
- Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno; a
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno.

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020 y Brifysgol yn adeiladu ar lwyddiannau blaenorol ac yn dynodi pa gamau pellach y bydd y Brifysgol yn eu cymryd i hybu cydraddoldeb:

- Asesu Effaith Cydraddoldeb (AEC): sicrhau bod y ddogfennaeth AEC yn gyfredol ac yn addas i bwrpas a bod prosesau hyfforddi ac adolygu addas ar waith.
- Lledaenu gwybodaeth am ymrwymiad y Brifysgol i gydraddoldeb trwy benodi a hyfforddi Hyrwyddwyr Cydraddoldeb mewn colegau ac adrannau i rannu gwybodaeth am broblemau ac arfer gorau ar draws y Brifysgol.
- Hyfforddiant i staff a myfyrwyr: adolygu modiwl hyfforddiant cydraddoldeb ar-lein y Brifysgol a pharhau â'r Cwrs Cydraddoldeb i Reolwyr yn defnyddio darparwr allanol; datblygu sesiynau briffio am gydraddoldeb i dîm y Pwyllgor Gweithredu a'u hymestyn i gynnwys Cyngor y Brifysgol; darparu hyfforddiant wedi ei deilwra'n briodol i staff rheng flaen a myfyrwyr sy'n swyddogion sabothol.
- Monitro a chyhoeddi: ehangu argaeledd data monitro ac adolygu'r dulliau casglu data i nodi bylchau er mwyn sicrhau bod data ar gael i fodloni gofynion monitro

cyfreithiol blynyddol; cyhoeddi adroddiadau cydraddoldeb blynyddol a gyflwynir hefyd i Gyngor y Brifysgol.

- Mynediad Corfforol: parhau i flaenoriaethu problemau a nodwyd gan Weithgor Mynediad Corfforol y Brifysgol.
- Cynnwys camau gweithredu yn ymwneud â chydraddoldeb yn strategaethau'r Brifysgol, a gweithgareddau Undeb y Myfyrwyr a nodir mewn mannau eraill yn y ddogfen hon.

Bydd Undeb y Myfyrwyr yn parhau i gefnogi nifer o weithgareddau sy'n cyd-fynd ag ymrwymiad y Brifysgol i gyflawni ei dyletswyddau cydraddoldeb, fel y pennwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010: Anabledd (lobïo ar faterion hygyrchedd i bobl anabl); LHDTC+ (hyfforddiant ymwybyddiaeth, ymgyrch i gael toiledau sy'n niwtral o ran rhywedd; ymgyrch “Allan mewn Chwaraeon” i gael gwared â homoffobia mewn chwaraeon); hyrwyddo'r Polisi Goddef Dim Aflonyddu; a gweithio ar wireddu profiad dysgu mwy amrywiol a chynhwysol fel rhan o'r cwricwlwm.

Mae Bangor wedi ymrwymo i ddarparu cyfle dysgu cyfartal i bob un o’n myfyrwyr. Yn ogystal â pharhau i fuddsoddi yn y gwasanaethau cefnogi sy'n cynorthwyo myfyrwyr i oresgyn rhwystrau i gyrhaeddiad academaidd, rydym yn cydnabod bod cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm yn rhan hanfodol o sicrhau bod cynhwysiant yn rhan greiddiol o'r profiad academaidd. Ein nod yw sicrhau bod profiadau myfyrwyr o wahanol ryw, hil, diwylliant, anabledd, rhywioldeb ac oed yn sail i gynllunio a gweithredu rhaglenni er mwyn sicrhau bod Prifysgol Bangor yn cynnig rhaglenni amrywiol a chynhwysol. Rydym yn cydnabod y gall gogwydd diwylliannol o fewn cynnwys cwricwla greu rhwystrau i ymgysylltiad a chyflawniad myfyrwyr. Rydym wedi ymrwymo, mewn cydweithrediad â'n cynrychiolwyr cyrsiau, i adolygu cynnwys cyrsiau i nodi cyfleoedd i negyddu gogwydd diwylliannol trwy, er enghraifft, gynnwys safbwyntiau amlddiwylliannol ac amlhiliol, profiadau merched, hanes LHDTC+, a defnyddio iaith sy'n niwtral o ran rhywedd ac sydd ddim yn heteronormadol.

Mae Undeb y Myfyrwyr wedi cydweithredu â'r Brifysgol i ddatblygu Strategaeth Addysgu a Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr sy'n nodi sut y bydd cwricwlwm y Brifysgol yn hyrwyddo amgylchedd cefnogol, amlddiwylliannol, gan ymgorffori cynhwysiant trwy'r ymrwymiadau canlynol:

- Parhau i ymgorffori amrywiaeth a chynwysoldeb yn y cwricwlwm, er mwyn sicrhau bod pob myfyriwr yn teimlo'n gwbl abl i gyfrannu ac ymgysylltu â'u dysgu. Dylai hyn gynnwys mentora ar gyfer staff ac ôl-raddedigion sy'n addysgu, i sicrhau bod cynnwys y modiwl yn amrywiol, yn berthnasol ac yn cynrychioli poblogaeth y myfyrwyr.
- Cyflwyno gwerthusiad ar lefel rhaglen sy'n cynnwys cwestiynau ar amrywiaeth a chynhwysiant cyrsiau i sicrhau bod unrhyw rwystrau dianghenraid y mae myfyrwyr wedi eu hwynebu sy’n eu hatal rhag dysgu yn cael sylw wrth adolygu a dylunio'r cwricwlwm.
- Trwy amrywio dulliau asesu gallwn osgoi gorddibynnu ar arholiadau, hyrwyddo arferion asesu arloesol a chynhwysol, ac ystod ehangach o gyfleoedd i gael adborth.

- Cyflwyno sesiynau 'gweithio mewn partneriaeth' yn rheolaidd i Gynrychiolwyr Cwrs gyda Chyfarwyddwyr Ennyn Diddordeb Myfyrwyr yr Ysgolion i gynyddu'r gefnogaeth a roddir i gynrychiolwyr cwrs ac annog amrywiaeth mewn cyfarfodydd.
- Sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu cynefino'n well i amgylchedd dysgu addysg uwch, gan ddatblygu sgiliau'r myfyrwyr fel dysgwyr annibynnol a darparu profiad wedi'i deilwra i anghenion unigol myfyrwyr.
- Datblygu dulliau sefydliadol cynhwysol i sicrhau ein bod yn parhau i ddiwallu anghenion ein holl fyfyrwyr, gan gynnwys ehangu cyfranogiad myfyrwyr, myfyrwyr hŷn, myfyrwyr anabl, a grwpiau eraill y mae risg uwch iddynt beidio â symud ymlaen.

Bydd Undeb y Myfyrwyr yn darparu hyfforddiant i fyfyrwyr sy'n ymwneud â dylunio modiwlau a gweithgareddau ail-ddilysu. Bydd yr hyfforddiant yn canolbwyntio ar sut i nodi materion sy'n ymwneud â chwricwlwm hygyrch a chynhwysol. Bydd yr Undeb yn gweithio gydag ysgolion i gynyddu cynrychiolaeth, yn enwedig o blith myfyrwyr du a lleiafrifoedd ethnig, a bydd yn sicrhau eu bod yn gefnogol wrth drafod y rhwystrau y maent yn eu hwynebu wrth gael mynediad at y cwricwlwm. Mae Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr yn cefnogi'r Undeb yn y gwaith hwn wrth iddo barhau i ymdrechu i sicrhau cwricwlwm hygyrch a chynhwysol, ac yn arbennig ostwng y bwlch cyrhaeddiad.

Mae'r Brifysgol yn cefnogi Undeb y Myfyrwyr i ddatblygu system cynrychiolwyr cwrs ledled y Brifysgol. Bydd Undeb y Myfyrwyr yn gweithio gydag Ysgolion i gael system a fydd yn sicrhau cynrychiolaeth effeithiol a symlach. Bydd Undeb y Myfyrwyr yn gweithio gydag Ysgolion i nodi bylchau mewn cynrychiolaeth, ac wedi gwneud hynny, yn cefnogi'r ysgol i ethol myfyrwyr i'r swyddogaethau hynny; er enghraifft, cynyddu cynrychiolaeth ar lefel ysgol o blith myfyrwyr rhyngwladol, pan fo'r garfan yn fawr. Bydd Undeb y Myfyrwyr hefyd yn gweithio gyda phob Ysgol i gynyddu cynrychiolaeth ymhlith myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg, fel bod gan bob Ysgol Gynrychiolydd Cwrs cyfrwng Cymraeg. Bydd Undeb y Myfyrwyr hefyd yn darparu Cyngor Cynrychiolwyr Cwrs Cymraeg.

Mae ehangu gorwelion daearyddol myfyrwyr yn rhyngwladol yn fuddiol i sefydliadau ac i fyfyrwyr er mwyn hyrwyddo *"addysg uwch sy'n rhagorol yn rhyngwladol"* (Strategaeth Gorfforaethol HEFCW 2017-2020). I fyfyrwyr, gall ehangu gorwelion daearyddol myfyrwyr yn rhyngwladol wella cyfleoedd gwaith a datblygiad personol a chynnig rhagor o gyfleoedd ar gyfer datblygiad ieithyddol. Mae myfyrwyr hefyd yn elwa oddi wrth fwy o ymwybyddiaeth ddiwylliannol a ffordd fwy byd-eang o edrych ar bethau. Bydd y Brifysgol yn parhau i hyrwyddo ehangu gorwelion daearyddol myfyrwyr ac yn gwella'r cyfleoedd sydd ar gael i bob myfyriwr astudio dramor fel rhan o raglen israddedig.

Byddwn yn parhau i ddarparu Interniaethau Ehangu Mynediad: interniaethau haf wyth wythnos (blynyddol) i fyfyrwyr sydd wedi'u cofrestru'n anabl, sydd â Gwahaniaeth Dysgu Penodol neu sydd mewn caledi ariannol. Caiff pob intern gyfrifoldeb am broject penodol mewn gwahanol adrannau ar draws y Brifysgol, gyda mentor i'w cynorthwyo i ddatblygu eu sgiliau cyflogadwyedd i'w paratoi at fyd gwaith ar ôl graddio. Mae'r cynllun yn sicrhau y caiff cyfranogwyr brofiad gwaith ar sail projectau sy'n rhoi canlyniadau clir iddynt a fydd yn cyfoethogi eu CV. Darperir y cyfan o fewn amgylchedd gwaith cefnogol a gaiff ei addasu i'w hanghenion.

Ar gyfer ein cynllun interniaeth cyffredinol i israddedigion, byddwn yn parhau i sicrhau bod myfyrwyr yn cael y gwerth mwyaf posib drwy beidio â chaniatáu i brofiad blaenorol fod yn faen prawf dewis gennym. Yn hytrach, bydd yr adran academaidd neu wasanaeth canolog sy'n cynnal y cynllun yn dewis ar sail meini prawf eraill fel y gall myfyrwyr o gefndiroedd llai breintiedig lwyddo. Bydd myfyrwyr o'r fath, fel rheol, wedi cael llai o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau a phrofiad cyn dod i Brifysgol. Bob blwyddyn, caiff y cynllun ei asesu o ran cydraddoldeb er mwyn monitro sut mae myfyrwyr o bob cefndir yn cael eu cynrychioli o ran lefelau ymgeisio a recriwtio.

Rydym yn annog myfyrwyr yn gryf i barhau â'u hastudiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, a byddwn yn parhau i bwysleisio hyn fel dewis astudio i'n myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg. Mae gallu siarad Cymraeg yn sgil werthfawr o ran cyflogadwyedd a byddwn yn parhau i sicrhau bod myfyrwyr yn gwybod sut y gallant ddefnyddio eu sgiliau iaith yn eu gyrfaoedd yn y dyfodol, a rhoi cefnogaeth a hyfforddiant iaith sy'n benodol i gyflogaeth. Byddwn yn parhau i gynnig gweithdai a hyrwyddo'r Dystysgrif Sgiliau Iaith a ddarperir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, er mwyn annog myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

## Hyrwyddo Addysg Uwch - Amcanion, Gweithgareddau a Thargedau

Mae nifer o amcanion wedi cael eu llunio i roi sylw i'r mesurau canlynol a nodir yng nghanllawiau HEFCW:

- Buddsoddi mewn gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu, yng nghyd-destun ansawdd profiad myfyrwyr
- Camau sy'n hybu addysg uwch yng Nghymru mewn modd mwy effeithiol yn rhyngwladol
- Camau sy'n gwella'r modd y caiff addysg uwch gynaliadwy ei chyflwyno
- Gweithgareddau sy'n codi ymwybyddiaeth am werth addysg uwch ymysg darpar fyfyrwyr posib
- Ymwneud mwy effeithiol gyda chyrff preifat, cyhoeddus a gwirfoddol a chymunedau yng Nghymru
- Gweithgareddau sy'n gwella cyflogadwyedd graddedigion o Gymru

### Amcan 5: Sicrhau Profiad Rhagorol a Chyson i Fyfyrwyr

Byddwn yn sicrhau y gwneir ymdrechion parhaus i gyflwyno profiad cyson a rhagorol i fyfyrwyr gan gydnabod *"amrywiaeth y profiad myfyrwyr"* (Strategaeth Gorfforaethol HEFCW 2017-2020). Parheir i wneud hyn gyda rhaglen o fuddsoddi'n barhaus yn y seilwaith addysgu trwy uwchraddio mannau addysgu ar draws y Brifysgol a buddsoddi mewn mannau dysgu cymdeithasol newydd. Byddwn yn parhau i ariannu Dirprwy Is-ganghellor (Myfyrwyr) gyda chyfrifoldebau gweithredol cyffredinol dros feysydd megis

profiad myfyrwyr, llety myfyrwyr a chyfleusterau a strategaeth chwaraeon i hybu gwelliannau i brofiad myfyrwyr.

Caiff ein hethos o bartneriaeth ei harwain gan fyfyrwyr sydd â diddordeb a staff ymroddedig, ac mae'n dod â llawer o fudd i'n cymuned yn y Brifysgol. Byddwn yn parhau i ddarparu nifer o wahanol gyfleoedd i fyfyrwyr greu cysylltiadau ar draws y Brifysgol, a sicrhau eu bod yn cael cefnogaeth addas i wneud y gorau o'r cyfleoedd hyn. Yn unol â'n hymrwymiad i bartneriaeth gynhwysol, byddwn yn adolygu yn barhaol ein gwaith yn ennyn diddordeb myfyrwyr i sicrhau y darperir cyfleoedd perthnasol a hygyrch i'r holl fyfyrwyr, a monitro yn rheolaidd pa mor effeithiol yw ein dull gweithredu. Byddwn hefyd yn sicrhau bod ffyrdd priodol o gydnabod y cyfraniad a wneir gan staff, ar bob lefel, i hyrwyddo cyfranogiad myfyrwyr.

Gyda chefnogaeth gan academyddion, gall myfyrwyr ddod â'u safbwynt unigryw a'u harbenigedd fel dysgwyr i'r broses gyffrous o ddatblygu'r cwricwlwm. Caiff ein cwricwla eang sydd wedi eu seilio ar ymchwil eu llunio gan ganolbwyntio ar fyfyrwyr. Gan weithio gyda'n cymuned academaidd, byddwn yn parhau i ddatblygu dulliau gweithredu pwnc-benodol i gynllunio'r cwricwlwm mewn partneriaeth â myfyrwyr.

Fel rhan o’n hymrwymiad parhaus i weithio mewn partneriaeth â myfyrwyr wrth gynllunio a datblygu ein gwasanaethau a'n cyfleusterau, byddwn yn parhau i hyrwyddo defnyddio profiad ac arbenigedd myfyrwyr. Byddwn yn sicrhau bod myfyrwyr yn ganolog i'r ffordd rydym yn gwerthuso, yn cynllunio ac yn cyflwyno ein gwasanaethau i fyfyrwyr trwy gynnig interniaethau â thâl o fewn gwasanaethau'r Brifysgol, cymryd rhan mewn grwpiau defnyddwyr a chynllunio strategol.

Bydd y Brifysgol hefyd yn ymrwymo i barhau i gyllido Undeb y Myfyrwyr i gefnogi projectau a gynlluniwyd fel bod Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol yn gweithio mewn partneriaeth i wella profiad myfyrwyr ymhellach: y system cynrychiolwyr cwrs i sicrhau "*bod cynrychiolaeth ddigonol i safbwyntiau myfyrwyr*" (Strategaeth Gorfforaethol HEFCW) gan gynnwys bod ag aelodau penodol o staff mewn Ysgolion i gefnogi'r gwaith hwnnw; gallu ymchwil a dadansoddi ar gyfer projectau cynrychiolaeth academaidd, gan sicrhau bod gwaith Undeb y Myfyrwyr yn cael ei wneud dan arweiniad myfyrwyr ac yn seiliedig ar dystiolaeth; Adroddiad Blynyddol Profiad Myfyrwyr (yr arferid ei alw yn Ddatganiad Blynyddol Myfyrwyr); dyddiau cynllunio gweithredu cyn yr NSS; y Gwobrau Addysgu dan Arweiniad Myfyrwyr; a chyflwyniadau myfyrwyr i'r prosesau Archwilio Ansawdd Mewnol ac ailddilysu.

Bydd y Brifysgol yn parhau i fuddsoddi yn adnoddau a chyfleusterau'r Llyfrgell i gynnal lefel uchel o adborth myfyrwyr yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr. Byddwn yn parhau i foderneiddio ein llyfrgelloedd, gan ddarparu lleoedd arloesol gyda chyfoeth o dechnoleg ynghyd â mannau astudio ar y cyd, mannau astudio unigol a distaw, mannau dysgu cymdeithasol a lleoedd neu ystafelloedd penodol i ôl-raddedigion.

- Mae'r gwaith o ddatblygu system rhestrau darllen ar-lein yn parhau, gan sicrhau bod fersiynau electronig a phapur o'r llyfrau craidd ar gael a bod gwasanaeth digido wedi'i deilwra ar gael ar gyfer erthyglau mewn cyfnodolion a phenodau mewn llyfrau.

- Mae'r Brifysgol yn ymchwilio i brynu gwerslyfrau electronig.
- Mae'r Gwasanaeth Mwy o Lyfrau yn darparu eitemau y mae myfyrwyr yn gofyn amdanynt ar-lein a fyddai'n fuddiol i'w hastudiaethau ac yn gwella casgliad y Llyfrgell.
- Bydd y Brifysgol yn parhau i gynnig gwasanaeth canolog yn trefnu benthyciadau rhwng llyfrgelloedd gan wneud hynny'n gyflymach o ganlyniad i fenter benthyca newydd ar gyfer Cymru gyfan.
- Mae'r gwaith parhaus sy'n cael ei wneud ar Chwilio'r Llyfrgell yn gwella gallu myfyrwyr i ddarganfod cyfoeth o adnoddau print, digidol ac electronig.
- Bydd y Brifysgol yn parhau i gynnig gwasanaeth Sgwrsio â'r Llyfrgell a thudalen ddwyieithog gysylltiedig lle ceir Cwestiynau Cyffredin.

Bydd y Gwasanaeth Llyfrgell yn parhau i weithio mewn partneriaeth â myfyrwyr i ddatblygu gwasanaethau ac adnoddau newydd a chael adborth amdanynt i gefnogi eu dysgu a'u haddysgu. Byddwn yn parhau i benodi Myfyrwyr sy'n Hyrwyddwyr Llyfrgell a byddant yn cymryd rhan mewn projectau i wella ymwybyddiaeth myfyrwyr o'r gwasanaethau a'r cyfleusterau y mae'r Llyfrgell yn eu cynnig, a chael adborth am ddatblygiadau posibl i'r gwasanaeth / blaenoriaethau. Mewn ymateb i adborth, mae'r Brifysgol wedi:

- Adolygu oriau agor y llyfrgelloedd er mwyn cymryd i ystyriaeth adborth gan fyfyrwyr ac ystadegau ar ddefnydd o'r llyfrgelloedd. Mae hyn wedi arwain at ymestyn yr oriau agor dros wyliau'r Pasg ac at agor Llyfrgell Deiniol 24/7 yn syth ar ôl y Pasg hyd ddiwedd y cyfnod arholiadau.
- Cynyddu nifer y llyfrau y gall myfyrwyr eu benthyca yn unrhyw un cyfnod a dyblu'r cyfnod benthyca safonol i bedair wythnos. Mae'r system adnewyddu awtomatig newydd yn adnewyddu benthyciadau am 4 wythnos arall (pan nad oes myfyriwr arall wedi galw am ddychwelyd y llyfrau)
- Newid y polisi dirwyon a rhoddir dirwy bellach dim ond am eitemau a gollwyd, eitemau sy'n hwyr ac sydd wedi eu galw'n ôl (h.y. llyfrau y mae ar fyfyrwyr eraill eu heisiau) neu eitemau benthyciad byr sy'n hwyr.
- Bellach gellir talu dirwyon ar-lein.

Mae ein buddsoddiad mewn llety myfyrwyr yn rhan o'n hymrwymiad i ddarparu llety o'r safon uchaf. Mae ein dull o ymwneud â llety myfyrwyr yn golygu mwy na datblygu'r gofod ffisegol gorau, mae hefyd yn cynnwys ymrwymiad i greu cymuned yn y neuaddau y gall pob myfyriwr fod yn rhan ohoni. Mae ein rhaglen Campws Byw yn parhau i gynnig rhaglen gymdeithasol amrywiol ddialcohol, dan arweiniad myfyrwyr, sydd am ddim i fyfyrwyr fel rhan o'n dull holistaidd o ddarparu'r profiad gorau o fyw mewn neuaddau. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn datblygu ein cymuned myfyrwyr yn y neuaddau, gan sicrhau bod ein rhaglen Campws Byw yn parhau dan arweiniad myfyrwyr, yn gynhwysol i bawb ac am ddim.

Pen draw yr ymrwymiadau hyn oedd fod Prifysgol Bangor wedi ennill nifer o wobrau'n ymwneud â llety yn 2018:

- Llety gorau yng ngwobrau What Uni Student Choice Awards
- Band eang gorau i fyfyrwyr yng ngwobrau'r National Student Housing Awards
- Rheolaeth amgylcheddol orau yng ngwobrau'r National Student Housing Awards

- Marc safon am lety i fyfyrwyr rhyngwladol yng ngwobrau'r National Student Housing Awards
- Gwobr llety Student Crowd (gwefan yw studentcrowd.com lle gall myfyrwyr gyflwyno adolygiadau ar gyfer gwahanol agweddau ar eu prifysgol).

Mae myfyrwyr rhyngwladol yn ychwanegu at gyfoeth ac amrywiaeth y myfyrwyr fel corff ac, felly, maent i'w croesawu a'u gwerthfawrogi. Byddwn cyfrannu at adeiladu "*addysg uwch sy'n rhagorol yn rhyngwladol*" (Strategaeth Gorfforaethol HEFCW 2017-2020) trwy ddarparu cwricwlwm modern a pherthnasol sydd yn lleol ac eto'n un y gellir ei gymhwyso'n rhyngwladol, a byddwn yn parhau i gynnig profiad unigryw ym Mangor sy'n ychwanegu gwerth sylweddol at ganlyniadau gyrfa pawb sy'n cael eu haddysg yma.

Er nad yw'r gwaith o recriwtio myfyrwyr rhyngwladol yn cael ei gyllido fel y cyfryw gan ffioedd israddedigion cartref, trwy wella profiad myfyrwyr yn gyffredinol ym Mangor a thrwy wella'r cwricwlwm byddwn yn gwneud Bangor yn lle mwy atyniadol i astudio ac yn sicrhau cynnydd pellach yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol ym Mangor.

## Amcan 6: Cyfrannu at Ymwneud â'r Gymuned a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Fel rhan o weithgareddau cyswllt ysgolion ac ehangu mynediad Prifysgol Bangor, bydd y brifysgol yn parhau i gynnig amrywiaeth eang o wasanaethau a gweithgareddau i ddisgyblion ysgol, myfyrwyr coleg a'r rhai sy'n eu cynghori. Rydym yn darparu cyngor ac arweiniad diduedd ar addysg uwch, cyflwyniadau ar baratoi at addysg uwch, cefnogaeth yn ystod y cyfnod pan wneir ceisiadau UCAS, cyfweliadau ffug a chynadleddau addysg uwch i ddisgyblion blwyddyn 12 ac athrawon/ymgynghorwyr gyrfaoedd. Bydd cefnogaeth pwnc-benodol megis Dosbarthiadau Meistr Mathemateg a chyrsiau/adnoddau adolygu'n parhau i gael eu darparu, ynghyd â chyfleoedd ar gyfer profiadau Addysg Uwch a chyfleoedd i ymgysylltu mewn digwyddiadau megis Ysgolion Haf a Diwrnodau Cysgodi Myfyrwyr. Bydd y digwyddiadau i athrawon ac ymgynghorwyr yn darparu diweddariadau ar ddatblygiadau mewn addysg uwch (tueddiadau UCAS, tariff mynediad, ac ati) yn ogystal â chefnogaeth ddefnyddiol i ysgolion wrth gyflwyno Bagloriaeth Cymru.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod yr angen i *"hyrwyddo system Addysg Uwch sy'n gynaliadwy yn ariannol, yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol"* (Strategaeth Gorfforaethol HEFCW 2017-2020) a byddwn yn parhau i hyrwyddo'r Lab Cynaliadwyedd fel canolbwynt corfforaethol proffil uchel sy'n arwain ar bob agwedd ar ddatblygu cynaliadwy yn y Brifysgol. Rydym yn rhannu'r weledigaeth i Gymru a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a byddwn yn dangos sut mae ein hamcanion yn ymwneud â'r ddeddf a sut mae ein gweithredoedd yn bodloni'r nodau llesiant. Rydym wedi ymrwymo i'r egwyddor o ddatblygiad cynaliadwy, a'n nod yw cael cydbwysedd rhwng ystyriaethau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol a hyrwyddo'r pum ffordd o weithio a amlinellir yn y ddeddf. Byddwn yn trafod â HEFCW a phrifysgolion sy'n bartneriaid i ni i sicrhau bod prifysgolion yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gyflwyno'r ddeddfwriaeth bwysig hon. Yn 2014, cafodd Prifysgol Bangor ardystiad ISO 14001 am ei hymrwymiad i welliannau amgylcheddol parhaus, ac mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i ddal gafael yn yr ardystiad hwn. ISO 14001 yw'r safon

ryngwladol gydnabyddedig ar gyfer sefydliadau sy'n mynd ati'n rhagweithiol i reoli eu heffaith ar yr amgylchedd yn defnyddio System Rheoli Amgylcheddol ffurfiol.

Bydd Undeb y Myfyrwyr yn parhau i weithio'n agos â'r Lab Cynaliadwyedd er mwyn sicrhau newid economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol trwy ddarparu cyfleoedd i fyfyrwyr lunio eu byd, a chyfrannu at Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd Undeb y Myfyrwyr hefyd yn parhau â'u gwaith ar gyfer Gwobr Effaith Werdd Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr ac yn ymdrechu i sicrhau y byddant yn parhau i gael eu cydnabod fel un o'r Undebau Myfyrwyr gorau yn y Deyrnas Unedig o ran cynaliadwyedd.

Trwy ddatblygu gwasanaethau a phrojectau perthnasol, byddwn yn parhau i gefnogi myfyrwyr sy'n byw ym Mangor i ddod yn aelodau llawn o'r gymuned ac yn gymdogion ystyriol, sy'n parchu eu hamgylchedd ac yn cymryd rhan gadarnhaol ym mywyd myfyrwyr ac mewn bywyd dinesig.

Bydd gweithio mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr yn ganolog i ddull y Brifysgol o ymdrin â phroblemau y mae myfyrwyr a'r gymuned leol yn eu hwynebu. Bydd y Brifysgol yn ymrwymo i barhau i ariannu Undeb y Myfyrwyr er mwyn cefnogi cynllun Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor er mwyn bodloni'r galw uwch a hyrwyddo cysylltiad rhwng myfyrwyr a'r gymuned. Mae'r cynllun yn cynnig cyfleoedd newydd bob blwyddyn. Mae capasiti projectau cymdeithasol sy'n gweithio ym maes iechyd meddwl wedi cynyddu, a datblygwyd mwy o brojectau sy'n seiliedig ar chwaraeon, gan gyfrannu at eu nod o sicrhau bod yr arlwy o brojectau yn fwy cynrychioliadol o'r mathau o gyrsiau a gynigir ym Mangor. Mae gwaith hefyd wedi dechrau mewn partneriaeth â grwpiau dementia lleol, ac mae rhagor o hyfforddiant a phrojectau myfyrwyr wedi'u cynllunio yn y flwyddyn nesaf. Bydd Undeb y Myfyrwyr yn ehangu ar eu gwaith gyda'r gymuned yn ehangach yng Ngogledd Cymru ac yn creu cyfleoedd i fyfyrwyr gefnogi a datblygu elusennau a sefydliadau lleol.

Bydd Undeb y Myfyrwyr yn parhau i ddatblygu partneriaethau a chyfleoedd o fewn y gymuned fel y gall myfyrwyr ddylanwadu ar eu cymuned leol a chyfrannu ati a sicrhau fod myfyrwyr yn parhau i ychwanegu gwerth a chefnogi datblygiadau lleol a rhanbarthol. Rhoddir i'r myfyrwyr fodd o ymwneud â grwpiau cymunedol lleol i ddatblygu projectau a mentrau newydd, gan alluogi parhad a datblygiad gweithgareddau a datblygu cysylltiadau tymor hir gyda budd-ddeiliaid allweddol yn y gymuned. Mae Swyddfa Tai Myfyrwyr y Brifysgol mewn cydweithrediad ag Undeb y Myfyrwyr, y Cyngor Sir a Chyngor y Ddinas, ynghyd â busnesau a landlordiaid allanol, yn gweithio ar ddatblygu cysylltiadau rhwng cymuned y myfyrwyr a'r gymuned barhaol ym Mangor. Mae hyn yn helpu i roi sylw i faterion cyffredin megis safon tai, sbwriel ac ailgylchu, gwasanaethau cyhoeddus lleol a llawer mwy.

Sefydlwyd Canolfan Ehangu Mynediad y Brifysgol i ddarparu cysylltiadau hanfodol â chymunedau lleol trwy sianelu adnoddau ac arbenigedd y Brifysgol mewn ffyrdd sy'n helpu i godi dyheadau unigolion o bob oed, sydd ag ychydig neu ddim profiad o addysg uwch. Defnyddir ein hadnoddau ehangu mynediad i helpu i hwyluso cysylltiadau cymunedol, ac mae'r Ganolfan wedi sefydlu Fforwm Ehangu Mynediad Gogledd Orllewin Cymru sy'n cynnwys ystod eang o bobl sy'n weithgar yn eu cymunedau unigol. Mae'r

fforwm yn ddull cyfathrebu dwy ffordd y bydd ystod eang o fudd-ddeiliaid cymunedol yn y rhanbarth yn elwa arno.

Yn ystod 2020/21 bydd Canolfan Ehangu Mynediad y Brifysgol yn adeiladu ymhellach ar nifer o bartneriaethau cymunedol: ysgolion anghenion arbennig yn y rhanbarth; Cyfiawnder Ieuenctid; Gardd Fotaneg Treborth, gan gynnig cyfleoedd i amrywiaeth o oedolion sy'n agored i niwed a phobl hŷn sy'n delio ag unigrwydd; Canolfannau Teulu Conwy; Project Ieuenctid Shedz (Blaenau Ffestiniog).

## Amcan 7: Cryfhau Cyflogadwyedd Graddedigion

Mae'r Brifysgol yn cyfrannu at *"Gymru ffyniannus ... sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n creu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth"* (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015). Mae cyflogadwyedd ein graddedigion yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac rydym yn mabwysiadu dull prifysgol gyfan wrth ddatblygu'n barhaus ein darpariaeth a'n cefnogaeth i lwyddiant ein myfyrwyr.

Mae Undeb y Myfyrwyr wedi cydweithredu â'r Brifysgol i ddatblygu Strategaeth Addysgu a Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr sy'n nodi sut y bydd cwricwlwm y Brifysgol yn gwella cyflogadwyedd ein graddedigion trwy'r ymrwymiadau canlynol:

- Darparu cyfleoedd, wedi'u hymgorffori yn y cwricwlwm, i fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau, eu profiadau a'u hyder i gyflawni eu nodau, gan gynnwys cynyddu nifer y cyfleoedd i fyfyrwyr ennill profiad sy'n berthnasol i'w gyrfaoedd a'u huchelgais.
- Canolbwyntio ar fynd ati'n weithredol i hyrwyddo'r Gymraeg fel mantais o ran cyflogadwyedd, gan ddatblygu sgiliau trwy gyfleoedd astudio cyfrwng Cymraeg amrywiol ac arloesol.
- Ehangu cyfraniadau staff a chyflogwyr at ddatblygu'r cwricwlwm, gan sicrhau ein bod yn manteisio ar amrywiaeth eang o farn a phrofiad.
- Ymgorffori cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau graddedigion trwy arferion asesu (e.e. cyflwyniadau) ym mhob lefel o'r cwricwlwm.

Mae ein hymrwymiad i ymgysylltu â chyflogwyr wrth gyflawni ein darpariaeth cyflogadwyedd yn parhau wrth i ni gydnabod ein cyfrifoldeb i *"gyfrannu at yr economi ac at gymdeithas ... trwy ddarparu sgiliau perthnasol i waith ar bob lefel."* (Yr Athro Syr Ian Diamond: Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru, Medi 2016). Byddwn yn parhau i gynnal dealltwriaeth sefydliadol o ofynion sgiliau cyflogwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, a meithrin cydweithredu â chyflogwyr, yn cynnwys ysgoloriaethau a lleoliadau gwaith mewn diwydiant i ddatblygu cyflogadwyedd ein graddedigion.

Bydd y blaenoriaethau parhaus yn cynnwys:

- Datblygu cysylltiadau strategol allweddol yn barhaus gyda chyflogwyr a phartneriaid rhanbarthol, gweithredu dull sectoraidd rhanbarthol o ymdrin â chyflogwyr sydd wedi ei lywio gan y sectorau economaidd y mae Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth iddynt ac sy'n gysylltiedig â chwmnïau angori a chwmnïau o bwys rhanbarthol a leolir yn y rhanbarth.

- Datblygu perthynas gydweithredol newydd â chyflogwyr graddedigion yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.
- Hwyluso rhwydwaith i gyflogwyr o bwys strategol yn cynnwys digwyddiadau ar lefel uchel i rannu syniadau ac atgyfnerthu cysylltiadau.
- Cefnogi gweithgareddau cyswllt presennol gyda chyflogwyr a mentrau trwy roi gwybod i fusnesau bach a chanolig a phrif gyflogwyr graddedigion am yr amrywiaeth o weithgareddau y gallant fanteisio arnynt i ymgysylltu â myfyrwyr ar y campws.
- Defnyddio cysylltiadau â chyflogwyr strategol i wella'r ddarpariaeth trwy nodi swyddi ac interniaethau ychwanegol i raddedigion yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Mae ein dull sefydliadol o ddatblygu cyflogadwyedd ein myfyrwyr yn troi o amgylch ymrwymiad parhaus i'n fframwaith cyflogadwyedd, sydd wedi ei wreiddio ym mhob agwedd o brofiad y myfyrwyr, a defnyddio ein Canolfan Gyflogadwyedd ar-lein a'r Adroddiad Cyrhaeddiad Addysg Uwch (HEAR), fel yr amlinellir yn adran Cyflogadwyedd Datganiad Polisi Llywodraeth Cymru.

Mae'r Ganolfan Cyflogadwyedd yn darparu cyfleuster ar-lein i'n holl fyfyrwyr i ddilysu gweithgareddau allgyrsiol a phrofiad gwaith er mwyn eu cynnwys yn adran 6 yr Adroddiad Cyrhaeddiad Addysg Uwch (HEAR). Mae'r cyfleuster hwn yn cynnwys yr ystod ehangaf bosibl o weithgareddau gan gynnwys rhaglenni gwirfoddoli Undeb y Myfyrwyr, clybiau a chymdeithasau a'r system cynrychiolwyr cwrs, fel bod gan bob myfyriwr gyfle i wella eu Hadroddiad Cyrhaeddiad Addysg Uwch (HEAR) trwy gynnwys unrhyw weithgaredd allgyrsiol sy'n berthnasol i gyflogadwyedd.

Rydym wedi ymgorffori cyflogadwyedd trwy sefydlu sesiynau sy'n gysylltiedig â chyflogadwyedd ym mhob ysgol academaidd a byddwn yn parhau i ddarparu sesiynau cyflogadwyedd wedi eu hamserlennu ynghyd â digwyddiadau cyd-gwricwlaidd a digwyddiadau ar lefel ysgolion a cholegau sydd wedi eu cynllunio i gynnig cyfleoedd a gwella datblygiad personol.

Mae'r Brifysgol yn gweithio tuag at roi cyfle i bob myfyriwr wneud lleoliad gwaith fel rhan o'u rhaglen radd, ac rydym yn addasu ein darpariaeth cyflogadwyedd ar lefel ysgolion i gyd-fynd â'r datblygiad newydd hwn. Byddwn yn teilwra ein darpariaeth ar lefel ysgolion er mwyn paratoi myfyrwyr ar gyfer eu lleoliad gwaith a'u helpu i wneud y mwyaf o'r cyfle trwy adfyfyrio a chael hyfforddiant ar sut i ddangos pa mor fuddiol yw'r lleoliad gwaith i gyflogwyr yn y dyfodol.

Mae Prifysgol Bangor wedi rhoi system newydd ar waith sy'n rhoi sylw i swyddi gweigion gan gyflogwyr ac sydd hefyd yn darparu cyfleusterau archebu, gwerthuso ac adrodd ar gyfer pob agwedd o'r ddarpariaeth cyflogadwyedd, gan gynnwys cofrestriad awtomatig i fyfyrwyr yn defnyddio manylion mewngofnodi'r Brifysgol. Bydd y cofrestriad awtomatig a gwell profiad i ddefnyddwyr yn codi proffil y ddarpariaeth cyflogadwyedd ymhlith ein myfyrwyr ac yn rhoi mynediad iddynt i swyddi rhan amser, interniaethau, profiad gwaith, cyfleoedd gwirfoddoli, lleoliadau diwydiannol a chyfleoedd i raddedigion yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae ymgysylltu â chyflogwyr yn ganolog i'r gwaith o

ddatblygu cyflogadwyedd ac mae'r system TARGETconnect@bangor.ac.uk yn galluogi cyflogwr i hysbysebu swyddi i fyfyrwyr, a chymryd rhan mewn digwyddiadau cyflogadwyedd. Bydd y swyddogaeth adrodd o fewn y system yn ein galluogi i ddadansoddi faint o'n myfyrwyr sy'n manteisio ar gyfleoedd ac i dargedu ein hadnoddau'n strategol ar sail yr wybodaeth y mae'r system yn ei darparu. Bydd y system hefyd yn hwyluso ac yn cefnogi'r cyfleoedd lleoliad gwaith a gynigir i fyfyrwyr fel rhan o'u rhaglenni gradd.

Rydym yn parhau i gydweithredu â chyflogwyr i gynyddu nifer ac amrywiaeth y cyfleoedd datblygu sydd ar gael i fyfyrwyr trwy ddigwyddiadau, gweithdai, cystadlaethau, interniaethau a lleoliadau. Dyma enghreifftiau:

- Parhau i weithio'n agos gyda Santander Universities sy'n darparu cyllid ar gyfer cynnal cynllun interniaethau yr ydym yn ei redeg ar eu rhan sy'n darparu dros hanner cant o leoliadau gwaith wedi'u hariannu.
- Sesiynau gwybodaeth a gweithdai cynllunio gyrfa i fyfyrwyr gyda sefydliadau partner megis y GIG, Virgin Media, Virgin Start-up, Santander, Siemens, Civil Service Fast Stream, Aldi, ac Enterprise Rent-A-Car.
- Project a ariennir gan Gronfa Treftadaeth y Loteri, mewn partneriaeth ag Eglwys Gadeiriol Llanelwy, yn gweithio gyda Phrifysgol Bangor ar broject a fydd yn darparu lleoliadau gwaith i fyfyrwyr Hanes, Athroniaeth a Chrefydd, Cymraeg, Busnes a Marchnata. Bydd y project partneriaeth hwn gyda'r Brifysgol yn darparu profiad gwaith pwnc-benodol a sgiliau ymchwil i fyfyrwyr Prifysgol Bangor yn ogystal â chefnogi datblygiad sgiliau arbenigol sy'n berthnasol i gyflogwyr yn y rhanbarth.
- Parhau i ymestyn ein portffolio o leoliadau gwaith a datblygu'r gadwyn sy'n cyflenwi gweithwyr: gweithio gyda chyflogwyr lleol megis Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, M-SParc, Cyfoeth Naturiol Cymru, North Wales Magazine, Prince's Trust, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, a Chynllun Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff, Cyngor Ynys Môn.
- Rhagor o gefnogaeth i fentergarwch ac entrepreneuriaeth: mwy o fentora busnes un-i-un a sesiynau cyd-gwricwlaidd, cefnogaeth barhaus i gymdeithas Enactus sy'n hyrwyddo mentrau cymdeithasol, gan ddarparu cyfleoedd a chyllid i brofi masnach a chynnal ymchwil i'r farchnad, prototeipio trwy Arloesi Pontio, darparu man deori am ddim yn M-SParc a chyfleoedd i rwydweithio, cynnig syniadau a chymryd rhan mewn ystod eang o gystadlaethau mentergarwch mewnol ac allanol.
- Arddangos cyflogadwyedd ein myfyrwyr: mae'r Digwyddiad Dathlu Cyflogadwyedd blynyddol yn dwyn ynghyd gyflogwyr, staff academaidd a myfyrwyr am noson o gyflwyno Gwobrau Rhagoriaeth Cyflogadwyedd i fyfyrwyr (a noddir gan un o'r cyflogwyr sy'n bartneriaid i ni).
- Bydd cynllun interniaethau Prifysgol Bangor yn parhau i gynnig dros 65 o interniaethau gyda thâl mewn ystod eang o ysgolion academaidd ac adrannau gwasanaeth yn y Brifysgol. Mae un o'r ddau gynllun yn benodol er mwyn ehangu mynediad, fodd bynnag, mae'r ddau gynllun yn darparu amgylchedd cefnogol ar gyfer profiad gwaith i raddedigion. Yn ogystal â chynnig amrywiaeth o brofiadau gwaith â thâl, mae'r cynllun hefyd yn cynorthwyo myfyrwyr i reoli eu gyrfa broffesiynol a phersonol, hyd yn oed os nad yw eu cais am interniaeth yn

llwyddiannus. Mae pob myfyriwr yn cael adborth a chyngor ynglŷn ag ansawdd eu cais, eu techneg cyfweld ac, os cânt eu dewis am interniaeth, byddant yn cael eu mentora ynglŷn â sut i farchnata'r profiad o wneud interniaeth i ddarpar gyflogwyr.

Mae'r Gwasanaeth Sgiliau a Chyflogadwyedd yn parhau i gynyddu ystod a nifer y digwyddiadau a'r gweithdai canolog a gynhelir, gan weithio gyda chyflogwyr a chyn-fyfyrwyr sy'n darparu sesiynau sy'n hyrwyddo eu sefydliadau ond sydd hefyd yn rhoi cipolwg i'n myfyrwyr o ddisgwyliadau a meini prawf cyflogwyr graddedigion. Mae cyngor unigol ar gael i gefnogi myfyrwyr i gynllunio eu gyrfa.

Rydym yn parhau i weithio gyda HEFCW i weithredu project Go Wales: Cyflawni drwy Brofiad Gwaith sy'n ategu'r cyfleoedd a ariennir gan Brifysgol Bangor sy'n cael eu darparu i'n myfyrwyr:
https://www.hefcw.ac.uk/policy_areas/business_and_communities/go_wales_cy.aspx.

Mae'r cyllid hwn yn darparu adnoddau ychwanegol i wneud gwaith i wella cyflogadwyedd myfyrwyr ifanc sy'n wynebu rhwystrau i gyflogaeth ac a ystyrir fel rhai sydd mewn perygl o beidio â bod mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant ar ôl cwblhau eu hastudiaethau.

Gall y project weithio gyda myfyrwyr sydd dan 25 oed, mewn addysg llawn amser ac sy'n cwrdd ag un neu ragor o'r meini prawf canlynol:

- Meddu ar anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, gan gynnwys cyflyrau iechyd meddwl;
- Wedi gadael gofal
- Cyfrifoldebau gofalu/gofal plant
- O gefndir Du, Asiaidd neu leiafrif ethnig;
- O gymdogaethau cyfranogiad isel yn y Deyrnas Unedig.

Trwy weithio tuag at dargedau a osodwyd gan HEFCW, gall Cynghorwyr y Project gefnogi myfyrwyr cymwys, yn ymarferol ac yn ariannol, trwy ganfod a threfnu cyfleoedd profiad gwaith hyblyg ac wedi eu teilwra gyda chwmnïau lleol. Mae'r ymyrraeth hon yn galluogi cyfranogwyr i feithrin sgiliau a gwybodaeth hanfodol yn y gweithle ochr yn ochr â'u hastudiaethau academaidd.

Caiff eu cynnydd ei fonitro a'i asesu er mwyn sicrhau bod sgiliau cyflogadwyedd allweddol yn cael eu datblygu er mwyn gwella eu rhagolygon gyrfa yn ddigonol, gan eu cyfeirio at ddarpariaeth gwasanaeth gyrfaoedd prif-ffrwd pan fo angen. Mae'r project yn ychwanegiad gwerthfawr i'r Gwasanaethau Myfyrwyr trwy gysylltu gofal bugeiliol a chefnogaeth gyda chyflogadwyedd, er mwyn helpu i hwyluso pontio o Addysg Uwch i fyd gwaith.

Mae cysylltiadau da â chyflogwyr wedi'u meithrin mewn nifer o sectorau, gan gynnig cyfleoedd penodol i fyfyrwyr yn seiliedig ar eu diddordebau gyrfa a'u hargaeledd. Mae'r project hefyd yn gweithio ar y cyd â phartneriaid mewnol ac allanol i gyflawni rai o brif raglenni Llywodraeth Cymru megis Ehangu Mynediad, Sectorau Blaenoriaeth Economaidd

a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan roi pwyslais ar greu gweithlu cynaliadwy ac amrywiol.

Mae Undeb y Myfyrwyr yn parhau i ddarparu cyfleoedd wedi eu strwythuro i ddatblygu arweinyddiaeth myfyrwyr sy'n arweinwyr gan gynnwys cynhadledd arweinyddiaeth flynyddol i fyfyrwyr gyda'r bwriad o roi cyfle iddynt ddatblygu sgiliau newydd a gwella eu cyflogadwyedd a'u grymuso i ddeall sut y gellir trosglwyddo'r sgiliau y maent yn eu meithrin trwy fod yn arweinydd myfyrwyr i'r byd gwaith.

Bydd y Brifysgol yn parhau i gynnal rhaglen 'Ieithoedd i Bawb' sy'n cynnig ystod o ddosbarthiadau nos mewn chwe iaith: Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Sbaeneg, Tsieinëeg (Mandarin) a Chymraeg. Mae’r cyrsiau 12 wythnos hyn wedi eu llunio i ddarparu ar gyfer amryw o lefelau, o ddechreuwyr hyd at ddysgwyr uwch ac mae'r cynllun - a ariennir gan y Brifysgol a chan Erasmus+ – yn galluogi pob myfyriwr i gofrestru ar un modiwl pob semester, am ddim.

Mae cynyddu nifer y sesiynau sgiliau gwybodaeth a sgiliau digidol i fyfyrwyr yn parhau yn rhan allweddol o strategaeth newydd y Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau; mae gan y gwasanaeth hefyd raglen i wirfoddolwyr yn yr Archifau a Chasgliadau Arbennig lle gall myfyrwyr ennill sgiliau trosglwyddadwy a phrofiad gwerthfawr.

## Monitro a Gwerthuso Cynlluniau Ffioedd a Mynediad

Ers cyflwyno'r cynllun ffioedd cyntaf, mae pob fersiwn ddilynol wedi cynnwys trafodaeth fanwl yn ymwneud â naratif, lefelau gwariant a thargedau sydd wedi cynnwys Undeb y Myfyrwyr, uwch reolwyr, a rheolwyr gwasanaethau proffesiynol allweddol sydd â chyfrifoldeb dros y meysydd hynny sy'n cael eu datblygu fel rhan o'r ymrwymiadau a nodir yn y cynlluniau. Mae'r Grŵp Cynllun Ffioedd a Mynediad, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-Ganghellor (Myfyrwyr), yn goruchwylio'r gwaith blynyddol o fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd cynlluniau ffioedd a mynediad y Brifysgol, yn ychwanegol at y monitro interim sy'n ofynnol. Dyma gylch gorchwyl y grŵp:

1. Comisiynu rhaglen werthuso dreigl ar gyfer yr holl weithgareddau sy'n ymwneud â'r cynllun ffioedd a mynediad er mwyn llywio gwaith cynllunio yn y dyfodol
2. Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion cyffredinol cynllun ffioedd a mynediad y Brifysgol.
3. Monitro cydymffurfiaeth â'r lefelau ffioedd a bennwyd yng nghynllun ffioedd a mynediad y Brifysgol.
4. Monitro perfformiad yn erbyn yr amcanion a nodwyd yng nghynllun ffioedd a mynediad y Brifysgol.
5. Rhoi crynodeb blynyddol o'r broses flynyddol o fonitro a gwerthuso i'r corff Llywodraethu neu, trwy ddirprwyo, i un o'i Bwyllgorau.
6. Adrodd i'r corff Llywodraethu neu, trwy ddirprwyo, i un o'i Bwyllgorau yn flynyddol (neu trwy eithriad) yn unol â'r weithdrefn monitro flynyddol.

Mae corff llywodraethu'r Brifysgol, y Cyngor, yn dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau, sy'n adolygu pob cynllun ffioedd a mynediad, gan gynnwys gwerthuso cynnydd yn erbyn cynlluniau blaenorol, a chrynodeb o'r broses fonitro a gwerthuso flynyddol a wneir gan y Grŵp Cynllun Ffioedd a Mynediad. Trwy dderbyn yr adroddiad hwn (cyn ei gyflwyno i HEFCW), mae'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau, gan gynnwys y gynrychiolaeth o Undeb y Myfyrwyr, yn sicrhau bod cydymffurfiaeth yn cael ei monitro ar ran y corff llywodraethu.

Mae'r Cyngor yn derbyn adroddiad blynyddol sy'n meincnodi dangosyddion perfformiad allweddol yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr, sy'n rhoi sylw i bob dangosydd perfformiad allweddol yng Nghynllun Strategol y Brifysgol, ac yn nodi sut mae perfformiad yn cymharu â thargedau yn y cynllun ffioedd a mynediad, lle maent yn ffurfio rhan o dargedau perfformiad allweddol y Brifysgol. Mae swyddogion Undeb y Myfyrwyr hefyd yn aelodau o Gyngor y Brifysgol ac yn cymryd rhan yn y broses fonitro hon ar y lefel honno hefyd.

O 2019/20, bydd gwaith y Grŵp Cynllun Ffioedd a Mynediad yn cynnwys paratoi rhaglen werthuso dreigl ar gyfer holl weithgareddau'r cynllun ffioedd a mynediad er mwyn llywio gwaith cynllunio yn y dyfodol.

# ATODIAD: Adolygiad Strategol o Gynlluniau Blaenorol

## 1. Ehangu Mynediad i Addysg Uwch

Mae Rhaglen Dawn a Chyfle Bangor wedi parhau i weithio gydag ysgolion uwchradd yng nghyn-ddalgylchoedd Cymunedau yn Gyntaf a wardiau cyfranogiad isel i godi dyheadau addysgol ac ymwybyddiaeth o addysg uwch ymysg grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Cyrhaeddwyd 2228 o ddisgyblion yn 2017/18, ychydig yn brin o'r targed o 2500; cafodd cyfyngiadau amser a staffio mewn ysgolion unigol, ynghyd â pheidio ag ymestyn i'r ysgol ychwanegol yn ôl y bwriad, effaith ar nifer y disgyblion a ddewiswyd i gymryd rhan yn y rhaglen, gan effeithio ar y targed cyffredinol. Fodd bynnag, yn gyffredinol cafwyd llwyddiant yn y maes hwn (gyda thargedau 9, 12, 22 a 23), a thrwy weithgareddau ategol yn cynnwys hwyluso ymweliadau gan ddisgyblion ysgolion cynradd a rhieni o gyn-ddalgylchoedd Cymunedau yn Gyntaf, a chefnogi gweithgareddau yn y gymuned er mwyn targedu pobl ifanc y tu allan i'r ysgol. Daeth 20 yn fwy o gydlynwyr Bagloriaeth Cymru a bron i 400 yn fwy o ddisgyblion blwyddyn 12 na'r disgwyl i gynadleddau a drefnwyd gan y Brifysgol.

Parhaodd y Brifysgol i drefnu ystod o weithgareddau blasu addysg uwch, gan gynnwys tridiau o Ysgol Haf breswyl wedi'i hanelu at ddisgyblion blwyddyn deuddeg heb gefndir teuluol o addysg uwch. Mynychodd 50 yn 2017/18; sef deg uwchlaw'r targed. Hefyd, cynhaliwyd diwrnodau cysgodi myfyrwyr i gyflwyno disgyblion blwyddyn deuddeg i feysydd pwnc penodol er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r pwnc, yn ogystal â dysgu mwy am addysg uwch a'r hyn y gall ei gynnig.

Mae'r Brifysgol wedi parhau i gynhyrchu cyfres o adnoddau adolygu TGAU a TAU (lefel UG) Gwyddoniaeth. Dosberthir canllawiau adolygu i holl ysgolion Cymru ac maent ar gael ar-lein: Mae'r Brifysgol wedi parhau i ddarparu ap adolygu gwyddoniaeth dwyieithog i gynorthwyo disgyblion blwyddyn 10 ac 11 ledled Cymru gyda'u hadolygu at arholiadau TGAU Gwyddoniaeth. Hefyd, mynychodd cyfanswm o 651 o ddisgyblion y cyrsiau adolygu Gwyddoniaeth UG a TGAU ar gyfer disgyblion blynyddoedd 10, 11 a 12 a gynhaliwyd yn y Brifysgol yn ystod y Pasg 2018, gan ragori ar y targed o 550. Mae'r Brifysgol hefyd wedi parhau i drefnu ystod o weithgareddau blasu addysg uwch, gan gynnwys seminarau pwnc-benodol a chynadleddau addysg uwch gyda'r nod o gyflwyno disgyblion blwyddyn deuddeg i feysydd pwnc penodol.

Mae'r Brifysgol wedi parhau â'i gweithgareddau i ennyn diddordeb mewn gwyddoniaeth gyda'r nod o annog rhagor o ferched i ddilyn cyrsiau a gyrfaoedd STEM. Cynigiodd Gŵyl Wyddoniaeth Bangor ystod o ddigwyddiadau yn hyrwyddo gwyddoniaeth fel gyrfa, a threfnodd y Brifysgol ymweliadau a chyflwyniadau gan gyn-fyfyrwyr benywaidd o Brifysgol Bangor sy'n dilyn gyrfa ym maes STEM; roedd hyn yn cynnwys sgyrsiau i fyfyrwyr ar Ddiwrnod Cenedlaethol Merched mewn Peirianneg. Hefyd, mae merched 14 oed o ysgolion ledled Gwynedd, Môn a Chonwy wedi ymweld ag adrannau gwyddoniaeth y Brifysgol i gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'r nod o annog disgyblion benywaidd i astudio pynciau STEM yn y dyfodol.

Mae'r Brifysgol wedi parhau i ariannu sesiynau i rieni a hwyluswyd gan GwE fel rhan o'r rhaglen Headsprouts ac mae hefyd wedi gweithio gyda RWP ar brojectau sy'n bodoli eisoes: Bright Sparks, a'r STEM Family Challenge. Parhau wnaeth yr ymwneud â chyn-ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn Ynys Môn, Bangor, Caernarfon a Dyffryn Nantlle, gan ymestyn y gwaith i gymunedau yng ngogledd ddwyrain Cymru.

Mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a'r asiantaethau a'r sefydliadau perthnasol bydd y Brifysgol yn parhau i gefnogi'r rhai sy'n gadael gofal a myfyrwyr sy'n ofalwyr drwy gynnal digwyddiadau i godi eu dyheadau ynghylch addysg uwch. Bydd y gefnogaeth yn cynnwys canllawiau cyn fynediad yn ystod proses ymgeisio a derbyn y Brifysgol, yn cynnwys cymorth gyda cheisiadau am gyllid myfyrwyr. Mae cynghorwr penodol yn parhau i fod ar gael i roi cefnogaeth gyfrinachol drwy gydol y rhaglen radd. Darparodd y Brifysgol wybodaeth am ddarpariaeth a chefnogaeth i Dimau Gadael Gofal mewn Awdurdodau Lleol ar hyd a lled y wlad. Yn dilyn cynnal y digwyddiad preswyl cyntaf i ofalwyr ifanc yn 2017, a oedd yn llwyddiant mawr, mae'r Brifysgol wedi parhau i gynnal digwyddiad blynyddol i ddarpar fyfyrwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu, gan ddenu 10 yn rhagor na'r targed o 40. Hefyd, mae'r Brifysgol wedi parhau i weithio gydag Undeb y Myfyrwyr i hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli i fyfyrwyr yn mentora myfyrwyr sy'n ofalwyr a'r rhai sy'n gadael gofal, yn ogystal â darpar fyfyrwyr iau o gefndiroedd gofal neu rai â dyletswyddau gofalu.

Mae Canolfan Ehangu Mynediad y Brifysgol wedi parhau i godi ymwybyddiaeth am ehangu cyfranogiad, gan weithio'n agos gydag amrywiol bartneriaethau cymunedol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys parhau i gynnal Fforwm Ehangu Mynediad Gogledd Orllewin Cymru, sy'n cynnwys aelodau o staff y Brifysgol, y Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach, cyn-ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, ac aelodau o sefydliadau sy'n gwneud gwaith ymgysylltu cymunedol a chodi dyheadau. Ochr yn ochr ag ysgolion academaidd y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr mae'r Ganolfan wedi bod yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu: projectau ymchwil ehangu mynediad a gweithgareddau ymchwil wedi eu hariannu trwy KESS yn edrych ar effeithiolrwydd gweithgareddau ymgysylltu cyfrwng Cymraeg trwy'r Sefydliad Cydweithredol dros Ymchwil Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI) yn y Brifysgol; gwaith ymgysylltu cymunedol; a phrojectau dan arweiniad myfyrwyr i gefnogi darpar fyfyrwyr i ddod i'r Brifysgol. Trwy'r Ganolfan Ehangu Mynediad, mae'r Brifysgol wedi parhau i weithio mewn partneriaeth â GwE i ddatblygu'r Llofnod Dysgu Teulu ymhellach gyda'r bwriad o ddarparu ymyriadau a nodwyd gan deuluoedd i godi dyheadau a chael gwared ar rwystrau i astudiaethau pellach.

Cynhaliodd y Ganolfan Ehangu Mynediad yr ail ddigwyddiad preswyl i Ofalwyr Ifanc ym mis Ebrill 2018 ac roedd 47 o unigolion yn bresennol. Cynhaliwyd y digwyddiad hwn mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru gyda chefnogaeth Gweithredu dros Blant, a CREDU - WCD. Fel rhan o'r digwyddiad cynhaliwyd rhaglen o sesiynau blasu gydag aelodau staff academaidd, yn ogystal â gweithgareddau cymdeithasol mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr a Chanolfan Chwaraeon Brailsford. Arweiniodd Partneriaeth Ymestyn yn Ehangach Gogledd a Chanolbarth Cymru ar y gwaith gyda phobl sy'n gadael gofal, gan ddarparu cefnogaeth hyfforddi trwy'r project “Beth Amdanaf i?", sy'n cael ei ariannu ganddynt. Ariannwyd rhai gweithgareddau yn benodol ar gyfer Rhai sy'n Gadael Gofal, er enghraifft y fenter Ysgolion Coedwig, ac mae cefnogaeth ariannol ar ffurf bwrsariaeth o £1000 ar gael i bob myfyrwyr sy'n ofalwr sy'n cwrdd â'r meini prawf.


Mae'r Brifysgol wedi parhau i gynnig rhaglen Mynediad 60 credyd trwy bartneriaeth sy'n cynnwys y Brifysgol Agored, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch a Phartneriaeth Ymestyn yn Ehangach Gogledd a Chanolbarth Cymru. Mae'r rhaglen yn darparu lleoedd am ddim i fyfyrwyr o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, wedi'u hariannu gan Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach Gogledd a Chanolbarth Cymru. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gynnig cyfweliad i unrhyw fyfyriwr sydd wedi llwyddo ym modiwl lefel Mynediad y Brifysgol Agored.

Gweithiodd y Brifysgol mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol gyda'r sector ysgolion cynradd, gan godi dyheadau disgyblion sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig yn achos gofalwyr ifanc, gan gynnal gweithdai codio mewn ysgolion prif ffrwd ac ysgolion AAA.

Gweithiodd y Brifysgol gyda Grŵp Llandrillo Menai i ehangu darpariaeth Iaith Arwyddion Prydain, a chefnogi 'Clust i Wrando' sef y gynhadledd undydd flynyddol i godi ymwybyddiaeth am fyddardod.

Talwyd bwrsariaethau yn seiliedig ar brawf modd o £3.1m i 3,363 o fyfyrwyr israddedig newydd a myfyrwyr sy'n parhau yn 2017/18, gan ragori ar y niferoedd a gafodd eu rhagweld, ond gan wario llai na'r disgwyl oherwydd yr incwm ffioedd is a gafwyd trwy recriwtio. Mae'r Brifysgol yn parhau i gefnogi'r rhai sy'n gadael gofal gyda bwrsariaeth o £1,000 a thrwy ddarparu ymgynghorydd penodol yn y Gwasanaethau Cefnogi Myfyrwyr. Yn 2017/18, roedd 20 o fyfyrwyr a oedd wedi gadael gofal wedi eu cofrestru ym Mangor a dewisodd un myfyriwr arall a oedd wedi gadael gofal i dynnu allan o'i astudiaeth oherwydd rhesymau iechyd. Mae'r Gwasanaethau Cefnogi Myfyrwyr yn parhau i weithio gyda Chanolfan Ehangu Mynediad Bangor i annog pobl sy'n gadael gofal i ystyried Addysg Uwch. Mae'r Brifysgol yn parhau i ddarparu cronfa galedi i fyfyrwyr sy'n wynebu caledi ariannol annisgwyl yn ystod eu hastudiaethau. Bu tanwariant o 30% yn y gronfa o £200k yn 2017/18, ond, gan mai ymateb i'r galw a wneir, mae'n anodd rhagweld maint y galw.

Bu cynnydd ar niferoedd 2016/17 ymhlith myfyrwyr sy'n hanu o wardiau cwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru neu o ardaloedd clwstwr Cymunedau yn Gyntaf yn 2017/18. Er i'r niferoedd gwympo ychydig yn is na'r targed a ragwelwyd, cafodd y ganran ei phasio. Yn yr un modd, yn achos myfyrwyr israddedig llawn amser newydd sy'n hanu o'r Deyrnas Unedig (UKPI T1b, isod), roedd y nifer ychydig yn is na'r targed, ond cafodd y ganran ei chyrraedd ac rydym wedi mynd heibio'r meincnod gan berfformio'n well na Chymru a'r Deyrnas Unedig yn gyson.




**T1b: Myfyrwyr newydd ifanc o gymdogaethau cyfranogiad isel (Methodoleg newydd, POLAR3) sy'n dechrau ar radd gyntaf israddedig llawn amser**

Mae'r Brifysgol yn cyflawni'r amcan hwn ac mae angen iddi gynnal buddsoddiad yn y maes hwn er mwyn cadw perfformiad yn gyson â'r meincnod.

## 2. Ehangu Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg

Mae'r Brifysgol yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru yn y strategaeth 'Cymraeg 2050' (2017) ac mae'n gwbl ymrwymedig i chwarae ei rhan wrth wireddu nod Llywodraeth Cymru o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050. Cafodd llwyddiant y Brifysgol yn y maes hwn ei gydnabod yn 2018 yn yr Adolygiad Gwella Ansawdd, a gynhaliwyd gan yr ASA, a gymeradwyodd "y dwyieithrwydd sydd wedi gwreiddio'n ddwfn ym mhob agwedd ar fywyd y brifysgol ac sy'n cael effaith gadarnhaol ar brofiad myfyrwyr".

Roedd cynllun bwrsariaeth yn parhau i gael ei ddefnyddio i gymell myfyrwyr i wneud mwy na 40 credyd o'u hastudiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ychwanegol at gynllun ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a gyllidir ar wahân. Mae'r cynllun bwrsariaeth hwn wedi rhagori ar y targed ar gyfer 2017/18 gan 130 o fyfyrwyr, gan wneud yn iawn i ryw raddau am y cwymp cymharol o 114 (o'i gymharu â'r targed a gafodd ei ragweld) yn y rhai sy'n astudio 5 credyd neu fwy.

Mae'r Brifysgol wedi parhau i gynhyrchu amrywiaeth lawn o ddeunyddiau marchnata cyfrwng Cymraeg, gyda'r bwriad o ategu'r gwaith mwy cyffredinol a wneir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol o ran tynnu sylw at fanteision addysg uwch cyfrwng Cymraeg. Menter hyrwyddo arbennig o bwysig sydd wedi'i anelu at fyfyrwyr sydd newydd eu recriwtio yw cynhyrchu blwyddlyfr lliw llawn o'r holl fodiwlau cyfrwng Cymraeg yn y flwyddyn gyntaf a chaiff ei ddosbarthu i bob myfyriwr sy'n byw yng Nghymru cyn yr Wythnos Groeso. Anogir y myfyrwyr hyn hefyd i fynychu digwyddiad cyfrwng Cymraeg penodol yn ystod yr Wythnos Groeso; yn y digwyddiad hwn, gall myfyrwyr gwrdd â darlithwyr sy'n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â dysgu mwy am y modiwlau cyfrwng Cymraeg / dwyieithog sydd ar gael iddynt. Caiff myfyrwyr eu hatgoffa hefyd am fwrsariaethau cyfrwng Cymraeg y Brifysgol, yn ogystal ag ysgoloriaethau ychwanegol y Coleg Cymraeg sydd ar gael mewn meysydd pwnc penodol.

Cynyddodd y Brifysgol, yn ganolog a thrwy adrannau academaidd, nifer y myfyrwyr chweched dosbarth Cymraeg sy'n mynychu diwrnodau adolygu/astudio cyfrwng Cymraeg o'r rhanbarthau hynny yng Nghymru sy'n cael eu targedu, gan ddenu 80 o unigolion yn uwch na'r targed.

Mae myfyrwyr yn parhau i gael eu hannog i gydnabod eu sgiliau Cymraeg trwy Wobr Cyflogadwyedd Bangor a dywedir wrthynt sut y gallant gymhwyso eu sgiliau iaith i'w gyrfaoedd yn y dyfodol. Yn 2015 cyflwynwyd Ffair Swyddi Cymraeg, lle daw llu o gyflogwyr sy'n recriwtio personél dwyieithog, ac mae wedi parhau i gael ei chynnal yn flynyddol fel modd o amlygu'r cysylltiad rhwng cyflogadwyedd a datblygu lefel uchel o sgiliau Cymraeg.

Mae'r Brifysgol yn cyflawni'r amcan hwn ac mae angen iddi gynnal buddsoddiad yn y maes hwn er mwyn cadw perfformiad yn gyson â'r meincnod.

## 3. Rhoi Cefnogaeth Academaidd o Ansawdd Uchel i Gynyddu Cyfraddau Dal Gafael a Chwblhau ymhlith Grwpiau Sydd Heb Gynrychiolaeth Ddigonol

Mae Prifysgol Bangor wedi parhau i ailddatgan ei hymrwymiad i wella cyfraddau dal gafael ar fyfyrwyr. Mae dal gafael ar fyfyrwyr a ddaeth i mewn yn 2015/16 (a fesurir drwy ddangosydd perfformiad y Deyrnas Unedig am ddiffyg parhad yn dilyn y flwyddyn fynediad) wedi rhagori ar darged cynllun ffioedd y brifysgol ac mae'r duedd tymor hir yn parhau i ddangos gwelliant amlwg gan wella ynghynt na meincnod y Brifysgol. Mae'r ffigyrau cyhoeddedig diweddaraf yn dangos bod Prifysgol Bangor yn gwneud yn well na meincnod diwygiedig y sector, a chyfartaleddau Cymru a'r Deyrnas Unedig, am y drydedd flwyddyn yn olynol.

Gyda chytundeb i gydweithio â Jisc, defnyddio dadansoddeg dysgwyr i wella cefnogaeth i fyfyrwyr a chanlyniadau dysgwyr, yn 2017/18, cyflwynodd y Brifysgol system dadansoddeg dysgu fewnol, yn dilyn gwaith ar y cyd gan staff o'r Gwasanaethau TG, yr Ysgol Cyfrifiadureg a'r Uned Ennyn Diddordeb Myfyrwyr. Ar sail egwyddorion creu system sy'n gefnogol, clir a hawdd ei defnyddio, mae'r llwyfan newydd bellach yn cael ei ddefnyddio i gefnogi staff academaidd i roi ymyriadau cynnar ar waith gyda myfyrwyr sy'n ymddangos fel pe baent yn cael trafferth, gyda'r bwriad o gefnogi'r myfyriwr i ymgysylltu o'r newydd mor fuan â phosibl. Mae'r system yn golygu bod myfyrwyr yn gallu gweld eu patrymau presenoldeb ac i ba raddau y maent wedi ymwneud â'u cwrs.

Yn sylfaen i'r dechnoleg mae system o gefnogaeth gan staff. Mae'r ymdrech hon gan y Brifysgol gyfan wedi cael ei chydlynu gan CELT a'r Uned Ennyn Diddordeb Myfyrwyr ac mae wedi cynnwys pob ysgol academaidd, ac mae'n ategu'r dull o fonitro presenoldeb yn ganolog. Caiff graffiau ymgysylltu'r myfyrwyr eu gwirio'n rheolaidd (yn wythnosol ar ddechrau'r semester) gan Gyfarwyddwyr Ennyn Diddordeb Myfyrwyr yr Ysgolion ac Uwch Diwtoriaid, sy'n penderfynu ar y strategaethau gorau i fynd i'r afael â myfyrwyr sy'n colli diddordeb. Yn 2017/18 pan beilotwyd hyn, mae'r ymdrechion wedi canolbwyntio'n arbennig ar fyfyrwyr blwyddyn gyntaf, gan sicrhau eu bod yn derbyn cefnogaeth briodol i bontio at astudiaethau addysg uwch. Mae Cyfarwyddwyr Ennyn Diddordeb Myfyrwyr wedi bod yn gwerthuso'r dull gweithredu, a bydd y Brifysgol yn adeiladu ar gasgliadau'r cynllun peilot


hwn ar ddiwedd y flwyddyn academaidd bresennol. Mae cynllun i ddatblygu offer pellach i chwilio'r data am dueddiadau ymddygiad.

Mae'r Gwasanaeth Gadael Astudiaethau Dros Dro wedi ei leoli o fewn y Gwasanaethau Myfyrwyr ac mae'n cefnogi myfyrwyr sy'n ystyried tynnu'n ôl yn wirfoddol o'u Rhaglen. Mae'r Gwasanaeth Gadael Astudiaethau Dros Dro yn cefnogi myfyrwyr i wneud dewis gwybodus am eu dyfodol. Mae staff y gwasanaeth yn cwrdd â myfyrwyr yn unigol ac yn trafod y gwahanol opsiynau sydd ganddynt. Mae'r tabl isod yn dangos effeithiolrwydd y gwasanaeth hwn wrth gynorthwyo myfyrwyr i barhau â'u hastudiaethau:

| | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|
| Myfyrwyr y mae'r gwasanaeth wedi eu gweld | 294 | 421 | 378 | 278 | 289 |
| % y myfyrwyr sy'n parhau â'u hastudiaethau yn dilyn cael cefnogaeth | 42% | 49% | 44% | 35% | 37% |

**Nifer y myfyrwyr sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Gadael Astudiaethau Dros Dro, 2013/14 - 2017/18**

Mae'r dangosydd perfformiad cenedlaethol sylfaenol ar gyfer peidio â pharhau ag astudiaethau, a gyhoeddir yn flynyddol gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), yn dangos tuedd ostyngol barhaus (h.y. gwelliant) ym Mangor (fel y dangosir yn y siart isod). Mae ychwanegu llinell duedd at ddata Prifysgol Bangor a'r meincnod yn amlygu'r duedd ostyngol barhaus hon (h.y. gwelliant) dros nifer o flynyddoedd, ond mae hefyd yn dangos tuedd ym Mhrifysgol Bangor sy'n perfformio'n well, ac yn gwella ar gyfradd gyflymach, na meincnod y Brifysgol.




**Dangosyddion Perfformiad y Deyrnas Unedig mewn Addysg Uwch**
**T3a: Peidio â pharhau yn dilyn blwyddyn fynediad: rhai'n dechrau'n llawn-amser ar radd gyntaf**

Ystyrir bod buddsoddiad parhaus y Brifysgol yn y Ganolfan Sgiliau Astudio er mwyn cefnogi dal gafael ar fyfyrwyr a chynnydd academaidd o werth parhaus i'n myfyrwyr; dangosodd adborth o 2016/17 fod boddhad yn uwch na 90% ar draws pob agwedd o'r gwasanaeth, a dywedodd dros 80% o'r myfyrwyr a atebodd bod eu graddau wedi gwella yn sgil apwyntiadau sgiliau astudio ac apwyntiadau mathemateg/ystadegau. Mae'r ddarpariaeth sgiliau astudio bellach wedi ei hymgorffori mewn ysgolion academaidd ac wrth werthuso'r

cam hwnnw yn ddiweddar gwelwyd bod effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad myfyrwyr yn y tasgau asesu cysylltiedig o gymharu â blynyddoedd blaenorol pan nad oedd darpariaeth Sgiliau Astudio ar gael. Mae'r effaith gadarnhaol hon wedi arwain at gynnydd mewn cyrhaeddiad uchel yn ogystal â lleihad yn nifer y myfyrwyr sy'n methu'r tasgau asesu. Rhannwyd y dystiolaeth hon o werth gwaith y Ganolfan Sgiliau Astudio gyda disgyblaethau unigol trwy Grŵp Tasg Addysgu a Dysgu'r Brifysgol er mwyn annog rhagor o ysgolion academaidd i fanteisio ar y ddarpariaeth. Mae pob ysgol academaidd ac eithrio tair wedi manteisio ar y cyfle hwn, ac mae'r ailstrwythuro sefydliadol diweddar yn golygu bod 2 o'r 3 ysgol bellach wedi eu huno ag ysgolion sydd eisoes yn gwneud hyn, a dylai hynny olygu y bydd ymgysylltiad yn gwella yn y dyfodol.

Yn 2017/18 roedd Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau'r Brifysgol yn parhau i ddarparu rhagor o gefnogaeth sgiliau gwybodaeth. Mae Llyfrgellwyr Cefnogaeth Academaidd yn cyflwyno sesiynau unigol ac yn ymgorffori sesiynau sgiliau ar draws pob maes pwnc; mae'r rhain yn cynnwys llythrennedd digidol, cyfeirnodi, gwerthuso dysgu, addysgu ac adnoddau ymchwil. Mae'r gwasanaeth hefyd yn datblygu amrywiaeth o wasanaethau cefnogi a thaflenni i fyfyrwyr sy'n defnyddio'r Ystafelloedd Technoleg Gynorthwyol yn y llyfrgelloedd, yn ogystal â darparu dogfennau a chopïau o erthyglau mewn cyfnodolion a phenodau o lyfrau mewn fformat amgen.

Yn dilyn cais llwyddiannus gan y Brifysgol yn 2015/16 i sicrhau cyllid trwy raglen ymgysylltu strategol “Pontio, Cadw Myfyrwyr a Chyrhaeddiad” yr Academi Addysg Uwch, er mwyn datblygu dadansoddeg dysgwyr a chynllunio asesu atodol, mae rhaglen beilot lwyddiannus wedi'i chyflwyno ledled y Brifysgol ar gyfer myfyrwyr sy'n methu â symud ymlaen oherwydd iddynt fethu un neu ragor o fodiwlau. Er mwyn cefnogi ail-gyflwyno’n llwyddiannus, gwahoddir myfyrwyr i gyflwyno gwaith ychwanegol ar ôl iddynt ddilyn rhaglen gefnogi strwythuredig a gynhelir ar ddechrau'r haf. Ymhellach, caiff myfyrwyr y gwelir eu bod mewn perygl o fethu ar sail asesiadau cynnar yn Semester 1, eu cyfeirio at y Ganolfan Sgiliau Astudio ac i gael trafodaeth gyda'u Tiwtor Personol. Rhoddir gwybod i fyfyrwyr sydd wedi methu'r flwyddyn am ddewisiadau sydd ar gael iddynt i newid cyfeiriad, megis newid eu gradd o fewn eu hysgol bresennol, trosglwyddo i radd newydd y tu allan i'r ysgol, neu opsiynau addas eraill.

Er mwyn asesu effaith apwyntiadau ar gyrhaeddiad, cynhaliwyd arolwg ar-lein o bob myfyriwr a oedd wedi manteisio ar yr apwyntiadau Sgiliau Astudio. Nododd 82.3% o'r ymatebwyr fod eu hapwyntiadau wedi eu helpu i wella eu hysgrifennu, a nododd 82% o'r rhai a oedd wedi derbyn graddau yn dilyn eu hapwyntiad fod eu graddau wedi codi.

O'r mesurau effaith y mae myfyrwyr wedi adrodd amdanynt mae 71% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y Gwasanaethau Anabledd wedi bod yn ffactor arwyddocaol o ran parhau yn y brifysgol. Dywedodd 72% o'r ymatebwyr y Gwasanaethau Anabledd wedi eu helpu i gyflawni eu nodau dysgu.

Yn ôl gwerthusiad y Gwasanaeth Cwnsela dywedodd 82% o'r myfyrwyr a ymatebodd fod cwnsela wedi bod yn ffactor bwysig o ran gwella eu profiad cyffredinol yn y brifysgol; dywedodd 64% ei fod wedi bod yn ffactor sylweddol o ran gwneud yn well yn eu gwaith academaidd, a nododd 64% ei fod wedi bod yn ffactor sylweddol o ran aros yn y brifysgol.

Mae'r Uned Cefnogaeth Ariannol hefyd yn cyfrannu at gyfraddau cwblhau a dal gafael ar fyfyrwyr. Aethom ati i asesu effaith y cronfeydd caledi trwy ofyn i fyfyrwyr am y gwahaniaeth y mae'r arian wedi'i wneud i'w profiad yn y brifysgol. Yn 2017/18, rydym yn gwybod o'n harolwg na fyddai 29% o'r myfyrwyr a ymatebodd wedi parhau â'u hastudiaethau pe na baent wedi derbyn cymorth ariannol, a dywedodd 50% na fyddent wedi gwneud cystal yn eu hastudiaethau heb y gefnogaeth ariannol. Dywedodd 79% fod yr arian wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i ansawdd eu bywyd fel myfyriwr, a nododd y 21% arall ei fod wedi gwneud rhywfaint o wahaniaeth.

| |
|---|
| Mae'r Brifysgol yn cyflawni'r amcan hwn ac mae angen iddi gynnal buddsoddiad yn y maes hwn er mwyn cadw perfformiad yn gyson â'r meincnod. |

## 4. Darparu Cefnogaeth Lles o Ansawdd Uchel i Wella Profiad Grwpiau Sydd Heb Gynrychiolaeth Ddigonol

Mae'r Brifysgol yn parhau i flaenoriaethu buddsoddiad yn y meysydd hynny sy'n cefnogi cyfle cyfartal, a myfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch. Gan gydnabod yr ymdrechion ychwanegol sylweddol a wneir i ddenu darpar fyfyrwyr sy'n "anodd eu cyrraedd" a'r gefnogaeth academaidd a lles ychwanegol y mae ei hangen i sicrhau amgylchedd a chwricwlwm cynhwysol ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch, mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddyrannu buddsoddiad trwy'r cynllun ffioedd a mynediad i gefnogi'r meysydd hyn.

Mae'r Brifysgol wedi parhau i ddarparu buddsoddiad ychwanegol yn y Gwasanaethau Myfyrwyr er mwyn gallu cwrdd ag anghenion nifer gynyddol o fyfyrwyr anabl. Mae wedi datblygu'r rhaglen Llygaid Cymdeithasol ymhellach sy'n cefnogi myfyrwyr awtistig; mae'r rhaglen bellach yn cynnwys nid yn unig sgiliau cymdeithasol ond hefyd ymwybyddiaeth ofalgar a therapi ymddygiad gwybyddol mewn ffyrdd sy'n ddefnyddiol i anghenion myfyrwyr. Yn ogystal â chynnal lefelau uchel o gefnogaeth ganolog i fyfyrwyr anabl, mae'r Brifysgol yn parhau i ddatblygu ei harfer cynhwysol o fewn ysgolion academaidd trwy wrando ar adborth myfyrwyr ac ymgynghori â staff arbenigol yn y Gwasanaethau Anabledd.

Mae'r Brifysgol wedi parhau i ddatblygu ac ymestyn ei darpariaeth i sicrhau dull cyfannol prifysgol-gyfan o ymdrin â lles meddyliol, sy'n ceisio hybu gwytnwch, adferiad, perchnogaeth a grymuso. Bydd y Cynghorwyr Iechyd Meddwl yn cynnal sesiynau galw heibio gydag Undeb y Myfyrwyr i godi ymwybyddiaeth ac annog myfyrwyr i fanteisio ar y gefnogaeth sydd ar gael. Gwneir defnydd da iawn ohonynt gan fyfyrwyr. Mae cyflwyno ffurflen hunanasesu lle mae Cynghorwyr Iechyd Meddwl yn brysbennu myfyrwyr yn fwy priodol wedi rhyddhau rhagor o apwyntiadau ac wedi helpu i flaenoriaethu amser cynghorwyr yn well.


Mae'r Brifysgol hefyd, mewn cydweithrediad â'r Undeb Myfyrwyr, wedi buddsoddi mewn pecyn cymorth 24/7 i fyfyrwyr: Big White Wall (www.bigwhitewall.com) Mae aelodau'r Grŵp Strategaeth Iechyd Meddwl Myfyrwyr hefyd yn gweithio'n strategol ar lefelau sefydliadol a chenedlaethol i ddylanwadu ar wneuthurwyr polisi yng Nghynulliad Cymru i

gydnabod pwysigrwydd darparu systemau a gwasanaethau iechyd meddwl digonol trwy gyfrwng y Gymraeg, ac i ymateb i gynigion polisi cenedlaethol diweddar.

Mae'r Gwasanaeth Cwnsela wedi amrywio'r gefnogaeth y mae'n ei rhoi fel bod sesiynau grŵp, hyfforddiant ymwybyddiaeth ofalgar ac adnoddau ar-lein yn rhan o ddarpariaeth y gwasanaeth. Cafodd sesiwn hyfforddi seico-addysgol ar 'Adeiladu Gwytnwch Emosiynol' ei datblygu fel man cychwyn defnyddiol i fyfyrwyr sydd eisiau datblygu strategaethau effeithiol i ddelio â phroblemau bob dydd. Mewn cydweithrediad â'r adran Seicoleg Glinigol yn y Brifysgol, mae cyrsiau hyfforddi ar reoli'r emosiynau yn defnyddio Therapi Ymddygiadol Ddialectig wedi cael eu datblygu fel sesiwn grŵp ac mae defnyddwyr presennol y gwasanaeth yn cael eu gwahodd i fynychu, ar sail eu haddasrwydd ar gyfer y gefnogaeth ychwanegol hon. Mae'r grŵp wedi sicrhau gwell canlyniadau clinigol i rai o'n myfyrwyr mwyaf cymhleth ac sydd fwyaf mewn perygl, ac felly mae grwpiau ychwanegol wedi cael eu cynnal.

Mae CCAPs, y fethodoleg a ddefnyddir i fesur gwelliant sy'n ddibynadwy yn glinigol ymhlith cleientiaid gwasanaethau cwnsela prifysgol, wedi newid sut y maent yn adrodd am ganlyniadau. Yn hytrach na defnyddio cyfartaledd cenedlaethol, maent bellach yn cyflwyno data meincnodi yn ôl safle. Yn 2017/18 roedd Bangor yn y 93ain ganradd (yn y 7% uchaf) ar gyfer canlyniadau clinigol i brifysgolion sy'n defnyddio'r fethodoleg. Targed y Brifysgol ar gyfer y blynyddoedd nesaf yw cynnal ei safle o fewn y 25% uchaf ar gyfer canlyniadau clinigol.

Roedd y ganran ar gyfer cyfranogiad myfyrwyr israddedig llawn amser sy'n derbyn y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (UKPI T7, isod) yn is na'r swm a gafodd ei ragweld. Fodd bynnag, y targed oedd cynnal perfformiad uwchlaw'r meincnod; y meincnod diwethaf i gael ei gyhoeddi (16/17) oedd 7.2%, a rhagorwyd ar hynny gyda chyfranogiad o 9.8%.




**T7: Cyfranogiad myfyrwyr sy'n derbyn y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (israddedigion llawn amser)**

Mae'r Brifysgol yn cyflawni'r amcan hwn ac mae angen iddi gynnal buddsoddiad yn y maes hwn er mwyn cadw perfformiad yn gyson â'r meincnod.

## 5. Hybu Amgylchedd Cynhwysol

Parhawyd i feithrin cydraddoldeb a chyfle i'r holl fyfyrwyr drwy fuddsoddi mewn rhoi mynediad i holl glybiau chwaraeon, cymdeithasau a gweithgareddau gwirfoddoli Undeb y Myfyrwyr yn rhad ac am ddim, waeth beth fo eu gallu i dalu. Mae cyllid parhaus wedi sicrhau bod gan glybiau a chymdeithasau gyfleusterau ac offer sy'n addas at y diben i gynnal gweithgareddau'r clwb ac mae hyn wedi eu galluogi i brynu eitemau offer unigryw a mwy eu maint. Mae cyllid wedi parhau i fod ar gael hefyd i brynu'r yswiriant gorau posib i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â gweithgareddau trwy Undeb y Myfyrwyr.

Mae'r Brifysgol wedi parhau i gefnogi Cymdeithas Llywelyn, sef cymdeithas y dysgwyr Cymraeg, a bydd yn sicrhau bod y rhwydwaith hwn i fyfyrwyr yn cael ei hyrwyddo'n dda, gan ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr Cymraeg ymarfer a defnyddio'r iaith tu allan i'r dosbarth. Mae'r Brifysgol yn cynnig dosbarthiadau Cymraeg am ddim i fyfyrwyr fel rhan o raglen "Ieithoedd i Bawb" y Brifysgol, ochr yn ochr ag ieithoedd Ewropeaidd ac Asiaidd eraill.

Mae'r Brifysgol wedi darparu aelod penodol o staff i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cymuned gynhwysol yn y Brifysgol. Bydd y Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr yn rhoi dull gweithredu strategol ar waith ar draws y brifysgol i sicrhau bod yma gampws diogel a chynhwysol yn unol ag argymhellion diweddar Tasglu UUK ar droseddau casineb, aflonyddu a thrais yn erbyn menywod. Mae hon yn swydd llawn amser. Gall y Swyddog roi cymorth unigol i fyfyrwyr sy'n rhoi gwybod am achosion o aflonyddu, troseddau casineb neu drais rhywiol, ac mae'n cydweithio â gwasanaethau cefnogi eraill, staff academaidd, swyddogion disgyblu ac asiantaethau allanol i ddarparu un pwynt cyswllt i fyfyrwyr sy'n rhoi gwybod am ddigwyddiadau o'r fath. Mae'r swydd hefyd yn cynnwys rhoi cyngor i staff ar sut orau i gefnogi'r myfyrwyr sydd wedi cael profiad o aflonyddu, troseddau casineb neu drais rhywiol, a gweithio gyda'r grwpiau tasg perthnasol yn y Brifysgol i ddatblygu polisïau, hyfforddiant staff a chyngor a gwybodaeth i sicrhau bod gan y sefydliad ddull cyson o ymdrin â'r materion hyn.

Mae'r Brifysgol wedi adeiladu ar lwyddiannau blaenorol ac wedi parhau i nodi camau pellach o Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol 2016-2020: Mae Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn sicrhau bod dogfennaeth yn parhau i fod yn gyfredol ac yn addas at y diben a bod prosesau hyfforddi ac adolygu priodol ar waith; penodi a hyfforddi Hyrwyddwyr Cydraddoldeb mewn Colegau ac Adrannau i rannu problemau ac arferion gorau ledled y Brifysgol; adolygiad o fodiwl hyfforddiant cydraddoldeb ar-lein y Brifysgol a pharhad y cwrs Cydraddoldeb i Reolwyr, gan ddefnyddio darparwr allanol; datblygu sesiynau briffio cydraddoldeb y Pwyllgor Gweithredu a'u hehangu i gynnwys Cyngor y Brifysgol; darparu hyfforddiant wedi'i deilwra'n briodol ar gyfer staff rheng flaen a swyddogion sabothol undeb y myfyrwyr; a pharhau i flaenoriaethu materion a nodwyd gan Weithgor Mynediad Corfforol y Brifysgol.

Bydd Undeb y Myfyrwyr yn parhau i gefnogi nifer o weithgareddau sy'n cyd-fynd ag ymrwymiad y Brifysgol i gyflawni ei dyletswyddau cydraddoldeb: Anabledd (lobïo ynglŷn â materion mynediad i bobl anabl, ymgyrchu i gael mynediad allwedd radar i doiledau anabl, hyrwyddo hyfforddiant cynhwysedd anabledd mewn chwaraeon); LHDTC+ (hyfforddiant ymwybyddiaeth, ymgyrch i gael toiledau sy'n niwtral o ran rhywedd; ymgyrch "Allan mewn Chwaraeon" i ddileu homoffobia mewn chwaraeon); gweithio ar y Llw Iechyd Meddwl i

ddileu stigma yn y maes hwn; hyrwyddo'r Polisi Goddef Dim Aflonyddu, yn arbennig mewn perthynas â "diwylliant llanciau"; gweithio ar sut i sicrhau profiad dysgu mwy amrywiol a chynhwysol i fyfyrwyr o leiafrifoedd ethnig.

| |
|---|
| Mae'r Brifysgol yn parhau i fod yn ymrwymedig i gynhwysoldeb ac felly bydd yn cadw'r amcan hwn. |

## 6. Datblygu a Chyflwyno Cwricwlwm Cynhwysol

Mae'r themâu sy'n ymwneud â gweithio mewn partneriaeth â'n myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr wedi parhau i ddatblygu ymhellach gan ddangos sut mae'r ymrwymiadau hyn wedi parhau i ddatblygu a sut maent yn parhau i fod yn rhan greiddiol o'r hyn y mae'r brifysgol yn cynnig ei wneud er mwyn sicrhau parhad yn y lefelau uchel o foddhad myfyrwyr. Cafwyd tystiolaeth benodol o hyn wrth ddatblygu Strategaeth Addysgu a Dysgu Dan Arweiniad Myfyrwyr, a ysgrifennwyd mewn partneriaeth rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr ac arweinwyr myfyrwyr. Mae'r Strategaeth yn nodi sut y bydd cwricwlwm y Brifysgol yn hyrwyddo amgylchedd cefnogol, amlddiwylliannol, gan ymgorffori cynhwysiant trwy'r ymrwymiadau canlynol:

- Parhau i ymgorffori amrywiaeth a chynwysoldeb yn y cwricwlwm, er mwyn sicrhau bod pob myfyriwr yn teimlo'n gwbl abl i gyfrannu ac ymgysylltu â'u dysgu
- Cyflwyno gwerthusiad ar lefel rhaglen sy'n cynnwys cwestiynau ar amrywiaeth a chynhwysoldeb cyrsiau i sicrhau bod unrhyw rwystrau dianghenraid rhag dysgu y mae myfyrwyr wedi eu hwynebu yn cael sylw wrth adolygu a dylunio'r cwricwlwm.
- Amrywio dulliau asesu er mwyn osgoi gorddibynnu ar arholiadau, hyrwyddo arferion asesu arloesol a chynhwysol, ac ystod ehangach o gyfleoedd i gael adborth
- Cyflwyno sesiynau 'gweithio mewn partneriaeth' yn rheolaidd i Gynrychiolwyr Cwrs gyda Chyfarwyddwyr Ennyn Diddordeb Myfyrwyr yr Ysgolion i gynyddu'r gefnogaeth a roddir i gynrychiolwyr cwrs ac annog amrywiaeth mewn cyfarfodydd
- Sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu cynefino'n well i amgylchedd dysgu addysg uwch, gan ddatblygu sgiliau'r myfyrwyr fel dysgwyr annibynnol a darparu profiad wedi'i deilwra i anghenion unigol myfyrwyr
- Datblygu dulliau sefydliadol cynhwysol i ddiwallu anghenion yr holl fyfyrwyr, gan gynnwys ehangu cyfranogiad myfyrwyr, myfyrwyr hŷn, myfyrwyr anabl, a grwpiau eraill y mae risg uwch iddynt beidio â symud ymlaen.


Cafodd llwyddiant y Brifysgol ei gydnabod yn y maes hwn hefyd yn 2018 drwy'r Adolygiad Gwella Ansawdd, a gynhaliwyd gan yr ASA, a ganmolodd "y bartneriaeth eang gyda myfyrwyr a werthfawrogir yn ddiwylliannol, sy'n treiddio i bob agwedd ar fywyd y brifysgol".

Mae'r Brifysgol wedi parhau i ddarparu Interniaethau Ehangu Mynediad: interniaethau haf wyth wythnos o hyd i fyfyrwyr sydd wedi'u cofrestru'n anabl, sydd â Gwahaniaeth Dysgu Penodol neu sydd mewn caledi ariannol. Caiff pob intern gyfrifoldeb am broject penodol mewn gwahanol adrannau ar draws y Brifysgol, gyda mentor i'w cynorthwyo i ddatblygu eu

sgiliau cyflogadwyedd i'w paratoi at fyd gwaith ar ôl graddio. Mae'r cynllun yn sicrhau y caiff cyfranogwyr brofiad gwaith ar sail projectau sy'n rhoi canlyniadau clir iddynt a fydd yn cyfoethogi eu CV. Darperir y cyfan o fewn amgylchedd gwaith cefnogol a gaiff ei addasu i'w hanghenion.  Cynyddodd nifer yr interniaethau i 15 yn 2017/18, gan ragori ar y targed o 12.

Mae Cynllun Interniaethau Israddedig y Brifysgol yn parhau i sicrhau fod y gwerth gorau posibl yn cael ei ddarparu trwy beidio â chaniatáu i brofiad blaenorol fod ymhlith y meini prawf dewis. Yn hytrach, bydd yr adran academaidd neu wasanaeth canolog sy'n cynnal y cynllun yn dewis ar sail meini prawf eraill fel y gall myfyrwyr o gefndiroedd llai breintiedig lwyddo. Bydd myfyrwyr o'r fath, fel rheol, wedi cael llai o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau a phrofiad cyn dod i Brifysgol. Bob blwyddyn, caiff effaith y cynllun ar gydraddoldeb ei asesu er mwyn monitro sut mae myfyrwyr o bob cefndir yn cael eu cynrychioli o ran lefelau ymgeisio a recriwtio.

Mae'r Strategaeth Addysg Ryngwladol wedi parhau i sicrhau bod Bangor yn darparu cwricwlwm modern perthnasol sydd wedi'i leoli'n lleol ond sy'n berthnasol yn fyd-eang. Mae hyn wedi cynnwys: rhyngwladoli ein cwricwla; sicrhau bod ein dulliau addysgu a dysgu'n sicrhau datblygiad deallusol myfyrwyr cartref a myfyrwyr rhyngwladol fel ei gilydd; ac annog a chefnogi myfyrwyr i ehangu eu gorwelion daearyddol a rhoi profiad rhyngwladol i fyfyrwyr y Deyrnas Unedig. Yn 2017/18, roedd nifer y myfyrwyr tramor yn y Brifysgol yn is na'r disgwyl, ond mae'r duedd hirdymor yn perfformio'n llawer gwell na'r sector yn y Deyrnas Unedig, sef yr hyn y seiliwyd y targed arno, fel y dangosir yn y siart a ganlyn:




Mae'r Brifysgol yn parhau i fod yn ymrwymedig i gynhwysoldeb ac felly bydd yn cadw'r amcan hwn.

## 7. Sicrhau Profiad Rhagorol a Chyson i Fyfyrwyr

Mae'r Brifysgol wedi parhau i ariannu Dirprwy Is-ganghellor (Myfyrwyr) gyda chyfrifoldebau gweithredol cyffredinol yn ymwneud â meysydd megis profiad myfyrwyr, llety myfyrwyr a chyfleusterau a strategaeth chwaraeon i hybu gwelliannau i brofiad myfyrwyr.

Mae'r Brifysgol hefyd wedi parhau i ariannu Undeb y Myfyrwyr i gefnogi projectau a gynlluniwyd fel partneriaeth rhwng yr Undeb a'r Brifysgol i wella profiad myfyrwyr ymhellach, gan gynnwys: sicrhau bod gwaith Undeb y Myfyrwyr yn cael ei arwain gan fyfyrwyr ac yn seiliedig ar dystiolaeth; y Datganiad Myfyrwyr Blynyddol; diwrnodau cynllun gweithredu'r Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr; y system cynrychiolwyr cwrs; y Gwobrau Addysgu dan Arweiniad Myfyrwyr; a chyflwyniadau myfyrwyr i'r prosesau Archwilio Ansawdd Mewnol ac ail-ddilysu.

Cafodd Prifysgol Bangor sgôr boddhad cyffredinol o 88% yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr yn 2017/18, gan ostwng ychydig ers y flwyddyn flaenorol, a 2% yn brin o'r targed o 90%, ond gan gynnal ei statws ymhlith y 10 uchaf yn y Deyrnas Unedig a 3ydd yng Nghymru. Mae pum maes pwnc yn y safle cyntaf yn y Deyrnas Unedig o ran boddhad myfyrwyr, cafodd cyfanswm o naw rhaglen foddhad o 100%, a gosodwyd 22 pwnc ymhlith yr 20 uchaf y Deyrnas Unedig. Llwyddiant y Brifysgol yn y maes hwn oedd i gyfrif am drydydd canmoliaeth a gafwyd yn 2018 trwy'r Adolygiad Gwella Ansawdd, a gynhaliwyd gan yr ASA: "casglu a defnyddio data am berfformiad ac ymgysylltiad myfyrwyr mewn modd systematig i lywio a gwella'r gefnogaeth i fyfyrwyr a chynnydd academaidd". Roedd hyn 85% yn uwch na'n meincnod, yn unol â'r targed.

Mae'r Brifysgol wedi parhau i foderneiddio ei llyfrgelloedd, gan ddarparu lleoedd arloesol gyda chyfoeth o dechnoleg ynghyd â mannau astudio ar y cyd, mannau astudio unigol a distaw, mannau dysgu cymdeithasol a lleoedd neu ystafelloedd penodol i ôl-raddedigion. Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell wedi parhau i weithio mewn partneriaeth â myfyrwyr i ddatblygu a chael adborth ar wasanaethau ac adnoddau newydd i gefnogi eu dysgu a'u haddysgu. Mae Myfyrwyr sy'n Hyrwyddwyr Llyfrgell wedi parhau i gymryd rhan mewn projectau i wella ymwybyddiaeth myfyrwyr o'r gwasanaethau a'r cyfleusterau y mae'r Llyfrgell yn eu cynnig, a chael adborth am ddatblygiadau posibl i'r gwasanaeth a'i flaenoriaethau. Yn seiliedig ar adborth a gafwyd, mae'r Brifysgol wedi: adolygu amseroedd agor y llyfrgelloedd, gan arwain at fod ar agor am ragor o oriau dros wyliau'r Pasg, ac agor Llyfrgell Deiniol 24/7 yn syth ar ôl gwyliau'r Pasg tan ddiwedd cyfnod yr arholiadau; cynyddu nifer y llyfrau y gall myfyrwyr eu benthyg ar unrhyw un adeg a dyblu'r cyfnod benthyca safonol i bedair wythnos; diwygio'r polisi dirwyon a bellach dim ond am y canlynol y ceir dirwy: eitemau sydd ar goll, eitemau a alwyd yn ôl ac sy'n hwyr (h.y. llyfrau y mae ar fyfyrwyr eraill eu heisiau) neu eitemau benthyciad byr sy'n hwyr.

Mae'r rhaglen Campws Byw wedi parhau i gynnig rhaglen gymdeithasol amrywiol ddi-alcohol, dan arweiniad myfyrwyr, sydd am ddim i fyfyrwyr fel rhan o'n dull cyfannol o ddarparu'r profiad gorau o fyw mewn neuaddau. Mae'r Brifysgol wedi parhau i fuddsoddi mewn datblygu cymuned y myfyrwyr yn y neuaddau, gan sicrhau bod ein rhaglen Campws Byw yn parhau dan arweiniad myfyrwyr, yn gynhwysol i bawb ac am ddim. Mae'r ymrwymiadau hyn wedi arwain at Brifysgol Bangor yn ennill gwobr What Uni 2016 am y llety prifysgol gorau.

| |
|---|
| Mae'r Brifysgol yn cyflawni'r amcan hwn ac mae angen iddi gynnal buddsoddiad yn y maes hwn er mwyn cadw perfformiad yn gyson â'r meincnod. |

## 8. Cyfrannu at Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Fel rhan o waith Cyswllt Ysgolion ac Ehangu Mynediad y Brifysgol, mae'r Brifysgol wedi parhau i gynnig ystod eang o wasanaethau a gweithgareddau i ddisgyblion ysgol, myfyrwyr coleg, ac i'r rhai sy'n eu cynghori, gan gynnwys cyngor ac arweiniad diduedd am addysg uwch, cyflwyniadau ar baratoi ar gyfer addysg uwch, cefnogaeth yn ystod cyfnod ymgeisio UCAS, ffug gyfweliadau, a chynadleddau addysg uwch ar gyfer disgyblion blwyddyn 12 ac athrawon/cynghorwyr gyrfa, a rhagor o gefnogaeth i ysgolion mewn perthynas â darparu'r Bagloriaeth Cymru sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd. Daeth 20 yn fwy o gydlynwyr Bagloriaeth Cymru a bron i 400 yn fwy o ddisgyblion blwyddyn 12 na'r disgwyl i gynadleddau a drefnwyd gan y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol wedi parhau i hyrwyddo'r Lab Cynaliadwyedd fel canolbwynt corfforaethol proffil uchel i arwain ar ddatblygu cynaliadwy yn y brifysgol. Llwyddodd y Brifysgol i ennill ardystiad ISO 14001 (y safon rhyngwladol cydnabyddedig i sefydliadau sy'n rheoli eu heffaith ar yr amgylchedd yn rhagweithiol yn defnyddio System Rheoli Amgylcheddol ffurfiol) am ei hymrwymiad i wella'r amgylchedd yn barhaus, ac mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gadw'r achrediad hwn. Mae Undeb y Myfyrwyr wedi parhau i weithio gyda'r Lab Cynaliadwyedd i sicrhau newid economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol trwy ddarparu cyfleoedd i fyfyrwyr lunio eu byd, a chyfrannu at Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; mae'r Undeb hefyd wedi parhau â'i waith gyda Gwobr Effaith Werdd UCM i sicrhau eu bod yn parhau i gael eu cydnabod fel yr Undeb Myfyrwyr gorau yng Nghymru am gynaliadwyedd.

| |
|---|
| Mae'r Brifysgol yn parhau i fod yn ymrwymedig i gynwysoldeb ac felly bydd yn cadw'r amcan hwn. |

## 9. Hyrwyddo Ymwneud Effeithiol â'r Gymuned

Trwy ddatblygu gwasanaethau a phrojectau perthnasol, mae'r Brifysgol wedi parhau i gefnogi myfyrwyr sy'n byw ym Mangor i ddod yn aelodau llawn o'r gymuned ac yn gymdogion ystyriol, sy'n parchu eu hamgylchedd ac yn cymryd rhan gadarnhaol mewn bywyd myfyrwyr a bywyd dinesig. Mae Canolfan Ehangu Mynediad y Brifysgol wedi sefydlu cysylltiadau hanfodol â chymunedau lleol trwy sianelu adnoddau ac arbenigedd y Brifysgol mewn ffyrdd sy'n helpu i godi dyheadau unigolion o bob oed, sydd ag ychydig neu ddim profiad o addysg uwch. Defnyddir ein hadnoddau ehangu mynediad i helpu i hwyluso cysylltiadau cymunedol, ac mae'r Ganolfan wedi sefydlu Fforwm Ehangu Mynediad Gogledd Orllewin Cymru sy'n cynnwys ystod eang o bobl sy'n weithgar yn eu cymunedau unigol. Mae'r fforwm yn ddull cyfathrebu dwy ffordd y bydd ystod eang o fudd-ddeiliaid cymunedol yn y rhanbarth yn elwa arno.

Fel rhan o bartneriaeth gydweithredol â Grŵp Llandrillo Menai, mae'r Brifysgol yn cynnal rhaglen lwyddiannus o ddarlithoedd cyhoeddus ar Iechyd a Llesiant bob blwyddyn. Mae'r ffocws ar gyflyrau sy'n ymwneud ag iechyd gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth a sbarduno diddordeb mewn pynciau sy'n effeithio ar lesiant budd-ddeiliaid cymunedol.

Mae Undeb y Myfyrwyr wedi parhau i ddatblygu partneriaethau a chyfleoedd yn y gymuned fel y gall myfyrwyr ddylanwadu ar eu cymuned leol a chyfrannu ati. Oherwydd colledion

staff dros dro yn yr Undeb, gostyngodd nifer y projectau cymunedol a oedd wedi eu rhagweld, a olygodd bod yr undeb wedi canolbwyntio ar ansawdd projectau yn hytrach na'u nifer; roedd cynnydd o hyd yn nifer y projectau o gymharu â 2016/17, gan gynyddu i 47, ond ni lwyddwyd i gyrraedd y targed o 60 project. Gyda llai o brojectau yn y gymuned, llwyddodd yr Undeb i ganolbwyntio ar dargedu gwirfoddolwyr ar gyfer y projectau penodol, a gwneud yn well na'r targed o 650 o wirfoddolwyr trwy gyrraedd 736 yn 2017-18.

Mae'r Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach ranbarthol wedi cydlynu cyfraniad y Brifysgol at broject newydd; mae sawl adran yn y Brifysgol yn gweithio gyda Chymdeithas Sŵolegol Genedlaethol Cymru (Sw Mynydd Cymru ym Mae Colwyn) ar broject Y Ffordd Sidan, drwy gynorthwyo gyda datblygu arddangosfeydd. Mae staff o Ysgolion academaidd y Brifysgol yn datblygu profiad TG rhyngweithiol a fydd yn tywys ymwelwyr ac yn galluogi deialog i barhau ar ôl yr ymweliad, gan ddarparu cyfleoedd ymchwil pellach trwy ddefnyddio'r ymwelwyr fel gwyddonwyr lleyg. Bydd cyfleoedd gwirfoddoli a lleoliadau i fyfyrwyr hefyd yn rhan o'r datblygiad hwn.

Mae'r Brifysgol yn parhau i fod yn ymrwymedig i gynwysoldeb ac felly bydd yn cadw'r amcan hwn.

## 10. Cryfhau Cyflogadwyedd Graddedigion

Fel y nodwyd uchod, mae Undeb y Myfyrwyr wedi cydweithredu â'r Brifysgol i ddatblygu Strategaeth Addysgu a Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr sy'n nodi sut y bydd cwricwlwm y Brifysgol yn gwella cyflogadwyedd ein graddedigion trwy'r ymrwymiadau canlynol:

- Darparu cyfleoedd, wedi'u hymgorffori yn y cwricwlwm, i fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau, eu profiadau a'u hyder i gyflawni eu nodau, gan gynnwys cynyddu nifer y cyfleoedd i fyfyrwyr ennill profiad sy'n berthnasol i'w gyrfaoedd a'u huchelgais
- Canolbwyntio ar fynd ati'n weithredol i hyrwyddo'r Gymraeg fel mantais o ran cyflogadwyedd, gan ddatblygu sgiliau trwy gyfleoedd astudio cyfrwng Cymraeg amrywiol ac arloesol
- Ehangu cyfraniadau staff a chyflogwyr at ddatblygu'r cwricwlwm, gan sicrhau ein bod yn manteisio ar amrywiaeth eang o ran barn a phrofiad
- Ymgorffori cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau graddedigion trwy arferion asesu (e.e. cyflwyniadau) ym mhob lefel o'r cwricwlwm

Mae'r Brifysgol wedi parhau i gynnal dealltwriaeth sefydliadol o ofynion sgiliau cyflogwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, ac wedi datblygu ei hymwneud â chyflogwyr, yn cynnwys ysgoloriaethau a lleoliadau gwaith mewn diwydiant i ddatblygu cyflogadwyedd ein graddedigion.

Mae'r Brifysgol wedi parhau i gefnogi'r gweithgareddau cyflogadwyedd hynny sydd wedi bod fwyaf effeithiol, sef parhau i ddatblygu'r Ganolfan Gyflogadwyedd a Gwobr Cyflogadwyedd Bangor. Mae ymwneud myfyrwyr â'r Ganolfan Gyflogadwyedd wedi cynyddu fesul blwyddyn, gan ddechrau gyda 25% o'r holl israddedigion yn 2012/13 a chynyddu i 80% erbyn diwedd 2017/18, gan wneud yn sylweddol well na'r targed o 60%.

Cydnabuwyd llwyddiant y fenter hon ym mis Mehefin 2017 pan gafodd y Brifysgol safon aur yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu pan gyfeiriwyd at dystiolaeth o "*fframwaith sefydliadol effeithiol ar gyfer gwella sgiliau cyflogadwyedd myfyrwyr, gan ddarparu dull unigol, hyblyg o ddatblygu cyflogadwyedd pob myfyriwr a chan gwmpasu pob agwedd ar brofiad y myfyriwr*". Nodwyd ymhellach bod "*metrigau'r darparwr yn nodi bod ... symud ymlaen i gyflogaeth fedrus neu astudiaeth bellach ... yn uwch na'r meincnod*".

Mae'r tablau canlynol yn dangos yr effaith gadarnhaol y mae'r Ganolfan Gyflogadwyedd a Gwobr Cyflogadwyedd Bangor yn eu cael ar gyflogadwyedd ein graddedigion, o'i gymharu â'r graddedigion hynny nad ydynt yn ymgysylltu.

| | Cyflogaeth/Astudiaethau pellach | Cyflogaeth Sgiliau Uwch/Astudiaethau pellach |
|---|---|---|
| Cyfranogwr y Ganolfan Gyflogadwyedd | 93% | 69% |
| Ddim yn gyfranogwr y Ganolfan Gyflogadwyedd | 91% | 61% |

| | Cyflogaeth/Astudiaethau pellach | Cyflogaeth Sgiliau Uwch/Astudiaethau pellach |
|---|---|---|
| Deiliad Gwobr Cyflogadwyedd Bangor | 96% | 73% |
| Ddim yn ddeiliad Gwobr Cyflogadwyedd Bangor | 92% | 67% |

*[Cyrchfannau graddedigion (Cyrchfan Ymadawyr Addysg Uwch) wedi eu cyfuno dros bedair blynedd (2012/13 i 2016/17)]*


Mae'r Brifysgol wedi ymgorffori cyflogadwyedd ymhellach trwy sefydlu sesiynau sy'n gysylltiedig â chyflogadwyedd ym mhob Ysgol academaidd a darparu sesiynau cyflogadwyedd wedi eu hamserlennu ynghyd â digwyddiadau cyd-gwricwlaidd a digwyddiadau ar lefel Ysgolion a Cholegau sydd wedi eu cynllunio i gynnig cyfleoedd a gwella datblygiad personol. Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd wedi rhoi cymorth i fyfyrwyr trwy amlygu'r sgiliau a'r priodweddau cwricwlaidd yn defnyddio teclynnau gwerthuso ac adfyfyrio, fel y gall myfyrwyr groesgyfeirio rhyngddynt â sgiliau sy'n cael eu datblygu mewn gweithgareddau allgyrsiol a chyd-gwricwlaidd. Mae grwpiau cyflogadwyedd ar lefel pwnc hefyd wedi cael eu cyflwyno er mwyn helpu i lywio gwaith cyflogadwyedd mewn Ysgolion academaidd, rhannu'r arferion gorau, ac ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnwys cyn-fyfyrwyr Bangor wrth baratoi myfyrwyr presennol ar gyfer y gweithle ar ôl graddio.

Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd wedi parhau i weithio gyda HEFCW i weithredu project Go Wales: Cyflawni drwy Brofiad Gwaith, sy'n ategu'r cyfleoedd eraill a ddarperir i'w myfyrwyr yn sgil gwaith cefnogi ychwanegol sy'n gwella cyflogadwyedd myfyrwyr ifanc y bernir eu bod heb gynrychiolaeth ddigonol yn y farchnad swyddi i raddedigion ac sydd mewn perygl o beidio â bod mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant.

Mae Undeb y Myfyrwyr wedi parhau i ddarparu cyfleoedd wedi eu strwythuro i ddatblygu arweinyddiaeth myfyrwyr sy'n arweinwyr gan roi'r cyfle iddynt ddatblygu sgiliau newydd a gwella eu cyflogadwyedd a'u grymuso i ddeall sut y gellir trosglwyddo'r sgiliau y maent yn eu meithrin trwy fod yn fyfyriwr sy'n arweinydd i'r gweithle.

Nid yw'r perfformiad yn erbyn dangosydd perfformiad allweddol Cyrchfan Ymadawyr Addysg Uwch wedi cyrraedd y disgwyliadau, fodd bynnag, mae gan Brifysgol Bangor duedd gynyddol yn y tymor hir sy'n parhau i wella ar gyfradd debyg i feincnod y Brifysgol. Gan gydnabod bod perfformiad yn erbyn targedau cyflogadwyedd wedi methu â chyrraedd y disgwyliadau, mae project i gynnwys opsiynau cyflogadwyedd ar draws y cwricwlwm (e.e.

profiad gwaith, lleoliadau gwaith, ac ati) wedi'i cael ei sefydlu, yn unol â'r Strategaeth Addysgu a Dysgu newydd dan Arweiniad Myfyrwyr. Mae'r Brifysgol hefyd wedi buddsoddi mewn system newydd ar gyfer swyddi gwag gan gyflogwyr sydd hefyd yn darparu cyfleusterau archebu, gwerthuso ac adrodd ar gyfer pob agwedd ar y ddarpariaeth cyflogadwyedd, gan gynnwys cofrestriad awtomatig i fyfyrwyr fel rhan o fanylion mewngofnodi'r Brifysgol.




**Dangosyddion Perfformiad y Deyrnas Unedig mewn Addysg Uwch**
**E1a: Mae'r dangosydd yn ymwneud â graddedigion sy'n cael eu graddau cyntaf ar gyrsiau llawn amser, ac yn cynrychioli'r % mewn swydd a/neu astudiaeth bellach**

Cyhoeddwyd canlyniadau Cyrchfan Ymadawyr Addysg Uwch am y tro olaf yn 2018 a hynny mewn perthynas â graddedigion 2016/17. Dealltwriaeth y Brifysgol yw na fydd yr Arolwg Canlyniadau Graddedigion, a ddaw'n ei le, yn cyhoeddi canlyniadau tan ddechrau 2020 mewn perthynas â graddedigion 2017/18. Felly, ni fydd yn bosibl cynnwys diweddariad tan hynny.

Er nad yw'r perfformiad cyffredinol, fel y dangosir gan y metrig, mewn sefyllfa y mae'r Brifysgol yn fodlon â hi, mae mentrau penodol yn dangos tystiolaeth fod cyflogadwyedd unigolion wedi gwella.

| **Cyflwyniad cynllun ffioedd a mynediad terfynol 2020/21 (lle bo'n berthnasol)** | |
|---|---|
| Dyddiad cymeradwyaeth y corff llywodraethu: | 24 Gorffennaf 2019 |
| Llofnod awdurdodedig y corff llywodraethu:<br><br>Mrs Marian Wyn Jones,<br>Cadeirydd y Cyngor |  |
| Dyddiad: | 24 Gorffennaf 2019 |

**Cynllun ffioedd a mynediad sefydliadol 2020/21**
**Tabl A: Lefelau ffioedd a buddsoddiad ac incwm o ffioedd, 2020/21**

| | |
|---|---|
| Enw'r sefydliad: | Prifysgol Bangor |
| UKPRN y sefydliad: | 10007857 |

| | Rhowch Do neu Naddo |
|---|---|
| Ydych chi wedi nodi lefel ffioedd yn eich cynllun mynediad a ffioedd? Gweler paragraff 75. | Do |

a) Beth yw eich lefel ffioedd arfaethedig uchaf:

| | £ |
|---|---|
| Israddedigion llawn-amser | 9,000 |
| TAR (SAC) llawn-amser | 9,000 |

b) A yw'r ffioedd arfaethedig yn a) (uchod) yn cael eu codi am bob darpariaeth israddedig a TAR (SAC) llawn amser yn eich sefydliad neu a gânt eu darparu ar eich rhan?

| | Rhowch Ydy neu Nac ydy |
|---|---|
| Israddedigion llawn-amser | Nac ydy |
| TAR (SAC) llawn-amser | Ydy |

c) Os nad ydy, beth yw'r ffi gyfartalog (gymedrig) debygol i bob myfyriwr israddedig a TAR (SAC) llawn-amser?

| | £ |
|---|---|
| Israddedigion llawn-amser | 8,759 |
| TAR (SAC) llawn-amser | 9,000 |
| Pob myfyriwr IR/TAR (SAC) llawn-amser yn y cynllun | 8,765 |

d) Pa incwm o'r gyfundrefn ffioedd bresennol ydych chi'n disgwyl ei gael yn 2020/21? Dylech gynnwys yr holl incwm ffioedd a dderbynnir am bob myfyriwr israddedig llawn-amser a TAR (SAC).

| | £ |
|---|---|
| Israddedigion llawn-amser | 42,273,000 |
| TAR (SAC) llawn-amser | 1,089,000 |
| **Cyfanswm** | **43,362,000** |

e) Rhowch fanylion am faint o incwm ffioedd rydych yn disgwyl ei fuddsoddi mewn perthynas â chyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch. Lle'r oedd gan ddarparwyr addysg uwch gynlluniau 2019/20, rhaid i'r gyfran o gyfanswm yr incwm a fuddsoddwyd yn 2020/21 fod o leiaf y gyfran a fuddsoddwyd yn 2019/20. Yn achos yr ymgeiswyr hynny, mae CCAUC wedi darparu islaw swm a chanran cyfanswm incwm 2019/20.

| | 2020/21 | | 2019/20 | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm i'w fuddsoddi yn y canlynol: | £ | % o gyfanswm yr incwm | £ | % o gyfanswm yr incwm |
| Cyfle Cyfartal | 5,290,000 | 12.2% | 5,810,000 | 12.2% |
| Hyrwyddo addysg uwch | 2,256,000 | 5.2% | 2,490,000 | 5.2% |
| **Cyfanswm** | **7,546,000** | **17.4%** | **8,300,000** | **17.4%** |

Os yw'r cyfrannau i'w buddsoddi yn 2020/21 yn llai nag yr oedd yn 2019/20 rhowch sylwadau isod (e.e. cynnwys costau gwerthuso yn 2019/20)

**Cynllun ffioedd a mynediad sefydliadol 2020/21**
**Tabl B: Rhagolwg gwariant incwm y cynllun ffioedd a mynediad, 2020/21**

Enw sefydliad: Prifysgol Bangor
UKPRN y Sefydliad: 10007857

**Ceir awgrymiadau neu ddilysiadau sydd wedi methu - cyfeiriwch at y testun coch ar ochr DDE'r tabl**

a) Cyfle cyfartal

| **Amcanion i wella cyfle cyfartal** | 2020/21 £ | 2019/20 £ |
|---|---|---|
| 1. Ehangu Mynediad i Addysg Uwch | 2,090,000 | |
| 2. Ehangu Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg | 970,000 | |
| 3. Rhoi Cefnogaeth Academaidd o Ansawdd Uchel i Gynyddu Cyfraddau Dal Gafael a Chwblhau ymhlith Grwpiau Sydd Heb Gynrychiolaeth Ddigonol | 1,420,000 | |
| 4. Hyrwyddo Amgylchedd ac Addysg Gynhwysol | 810,000 | |
| 5. | | |
| 6. | | |
| 7. | | |
| 8. | | |
| 9. | | |
| 10. | | |
| **Cyfanswm** | **5,290,000** | **5,810,000** |
| Canran o'r rhagolwg gwariant i'w wario ar gyfle cyfartal | 52900.0% | |

b) Hyrwyddo AU

| **Amcanion i hyrwyddo addysg uwch** | 2020/21 £ | 2019/20 £ |
|---|---|---|
| 1. Sicrhau Profiad Rhagorol a Chyson i Fyfyrwyr | 1,672,000 | |
| 2. Cyfrannu at Ymwneud â'r Gymuned a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | 248,000 | |
| 3. Cryfhau Cyflogadwyedd Graddedigion | 336,000 | |
| 4. | | |
| 5. | | |
| 6. | | |
| 7. | | |
| 8. | | |
| 9. | | |
| 10. | | |
| **Cyfanswm** | **2,256,000** | **2,490,000** |
| Canran o'r rhagolwg gwariant i'w wario ar Hyrwyddo addysg uwch | 22560.0% | |

c) Gwerthuso

| | 2020/21 £ |
|---|---|
| Buddsoddiad mewn gwerthuso effeithiolrwydd cynlluniau ffioedd a mynediad | 10,000 |

d) Cyfanswm y gwariant a ragwelir o incwm cynllun ffioedd a mynediad 2020/21, a) + b) + c)

| 2020/21 £ | 2019/20 £ |
|---|---|
| **7,556,000** | **8,300,000** |

e) Ymestyn yn Ehangach

| | 2020/21 £ | 2019/20 £ |
|---|---|---|
| Buddsoddiad i gefnogi'r Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach | 160,000 | 159,461 |

f) Cefnogaeth ariannol i fyfyrwyr (eisoes wedi ei gynnwys yn a) a b) uchod)

| | 2020/21 | | 2019/20 | |
|---|---|---|---|---|
| | £ | Niferoedd myfyrwyr a gynorthwyir a ragwelir | £ | Niferoedd myfyrwyr a gynorthwyir a ragwelir |
| Hepgor ffioedd | 1,161,000 | 129 | 1,161,000 | 129 |
| Bwrsariaethau | 1,450,500 | 2,026 | 1,750,000 | 2,049 |
| Ysgoloriaethau | 291,981 | 130 | 257,000 | 110 |
| Cronfeydd caledi | 150,000 | Amherthnasol | 201,500 | 0 |
| Darparu cyngor a sgiliau rheoli ariannol | | | 0 | 0 |
| Cefnogaeth ariannol arall | | | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **3,053,481** | **2,285** | **3,369,500** | **2,288** |
| Canran o'r rhagolwg gwariant i'w wario ar gefnogaeth ariannol i fyfyrwyr | 40.5% | | 40.6% | |

Os yw'r cyfanswm i'w fuddsoddi yn 2020/21 yn llai nag yr oedd yn 2019/20, rhowch sylwadau isod:

0.1% yw'r gwahaniaeth; mae hyn yn ddibwys.

**Cynllun ffioedd a mynediad sefydliadol 2020/21**
**Tabl C: Lefelau ffioedd ac incwm o ffioedd ar gyfer myfyrwyr israddedig a TAR (SAC) llawn-amser dan y gyfundrefn ffioedd bresennol, 2020/21**

Enw sefydliad: Prifysgol Bangor
UKPRN y Sefydliad: 10007857

| Crynodeb o'r data | ;RADDEDIGION LLAWN-AMSE | TAR (SAC) LLAWN- |
|---|---|---|
| Cyfanswm yr incwm disgwyliedig | 42,273,000 | 1,089,000 |
| Cyfanswm nifer disgwyliedig y myfyrwyr | 4,826 | 121 |
| Ffi gyfartalog | 8,759 | 9,000 |

| Rhes | Ffi arfaethedig £ | Nod y cymhwyster (neu ddull arall o grwpio) | Pwnc (neu ddull arall o grwpio) | Blwyddyn (blynyddoedd) y cwrs | TAR (SAC) Y/N? | Nifer rhagdybiedig myfyrwyr a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo'r ffi gyfartalog | A yw'r ddarpariaeth hon yn cael ei dilysu gan gorff arall? Y neu N | Os Y, rhowch enw'r corff dilysu. | Cyfanswm yr incwm disgwyliedig (nifer y myfyrwyr x ffi arfaethedig) £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 9,000 | Pob gradd israddedig, yn cynnwys Meistr 4 blynedd integredig, heb gynnwys blynyddoedd rhyngol a blynyddoedd dramor | Pob pwnc | Pob un | N | 4,697 | N | | 42,273,000 |
| 2 | 9,000 | TAR | Pob pwnc | Pob un | Y | 121 | N | | 1,089,000 |
| 3 | 0 | Pob gradd israddedig - yn cynnwys blynyddoedd rhyngosod a blynyddoedd dramor (mynediad cyn 2020/21) | Pob pwnc | Pob un | N | 129 | N | | 0 |
| 4 | 1,350 | Pob gradd israddedig - yn cynnwys blynyddoedd rhyngosod a blynyddoedd dramor (2020/21) | Pob pwnc | Pob un | N | 0 | N | | 0 |

